Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
|---|---|
| ar gyfer | for a |
| **CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN** | **MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL** |
| a gynhelir yn | to be held at the |
| **SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFA'R SIR LLANGEFNI** | **COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI** |
| **DYDD LLUN, 22 HYDREF 2018** | **MONDAY, 22 OCTOBER, 2018** |
| **am 2.00 o'r gloch** | **at 2.00 p.m.** |

**R H A G L E N**

1. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

   Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2. **BID BARGEN TWF AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU**

   Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 22 Hydref 2018.

3. **ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2017/18**

   Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Professiwn, AD a Thrawsnewi fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 15 Hydref, 2018.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Cyngor Sir |
| **Dyddiad:** | 22 Hydref, 2018 |
| **Pwnc:** | Cynllun Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru: Y Ddogfen Gynnig |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd y Cyngor<br>Cynghorydd Carwyn Jones, Deilydd Portffolio Datblygiadau Mawr a Datblygu'r Economi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Dylan Williams, Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Gwynne Jones, Prif Weithredwr<br>01248 752102<br>gwynnejones@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | |

## A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

**1.1** Mabwysiadodd y Pwyllgor Gwaith y *Weledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru* ym mis Medi 2016. Mae'r weledigaeth yn amlinellu uchelgais gyfunol a strategol ar gyfer y Gogledd er mwyn datblygu isadeiledd, sgiliau a chyflogaeth a thwf busnes. Fe wnaeth cabinet y pum cyngor arall sy'n bartneriaid yn y rhanbarth fabwysiadu'r strategaeth bryd hynny, hefyd.

**1.2** Hysbyswyd y Pwyllgor Gwaith mewn ail adroddiad ym mis Chwefror 2017 bod rhanbarth y Gogledd wedi derbyn gwahoddiad ffurfiol i agor trafodaethau am Gynllun Twf gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru am adnoddau a phwerau ychwanegol i weithredu ar y blaenoriaethau oedd wedi'u nodi yn y *Weledigaeth Twf.* Mae nifer o Gynlluniau Dinas a Chynlluniau Twf rhanbarthol wedi'u mabwysiadu ledled y DU.

**1.3** Ym mis Mehefin eleni, fe wnaeth y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor fabwysiadu Cytundeb Llywodraethu ar gyfer camau cynllunio a datblygu y Cynllun Twf. Mae'r Cytundeb Llywodraethu yn grymuso ac yn rheoleiddio'r bartneriaeth ranbarthol rhwng y chwe awdurdod lleol, y ddwy brifysgol, y ddau goleg addysg bellach a Chyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy. Mae'r bartneriaeth yn gweithredu drwy gyd-bwyllgor o'r enw Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae'r holl bartneriaid wedi mabwysiadu'r Cytundeb Llywodraethu fel ei gilydd.

**1.4** Gosodwyd dyddiad targed ar gyfer ymrwymo i Gytundeb Penawdau'r Telerau ar gyfer Cynllun Twf gyda'r ddwy lywodraeth, sef hydref/gaeaf 2018. Mae *Dogfen Gynnig*, sy'n nodi'r rhaglenni blaenoriaeth ar gyfer gweithgaredd yn y rhanbarth ac yr ydym yn ceisio arian cenedlaethol drwy'r Cynllun Twf ar ei chyfer, wedi'i chymeradwyo gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Bydd y Cynllun Twf yn ariannu rhaglenni a phrosiectau a ddewisir o blith y rhai yn y *Ddogfen Gynnig;* y rhai sy'n bodloni amcanion a rennir gan y llywodraeth ar gyfer twf economaidd. Y ddogfen yw'r cais rhanbarthol a fydd yn arwain at greu'r cynllun.

**1.5** Mae'r *Ddogfen Gynnig* wedi'i datblygu dros gyfnod o amser gyda mewnbwn sylweddol gan y sectorau busnes yn y rhanbarth a'r partneriaid eu hunain, ac mewn cyswllt agos gyda gweision sifil o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae'r *Ddogfen Gynnig* yn adeiladu ar y *Weledigaeth Twf* gynharach ac mae'n cynnig ystod o ymyraethau ar gyfer tyfu'r economi dan gyfres o raglenni blaenoriaeth.

**1.6** Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, penderfynodd y Cyngor y byddai drafft terfynol Cais y Cynllun Twf yn cael ei gyflwyno cyn y cam o gyrraedd Penawdau'r Telerau gyda'r ddwy Lywodraeth. Mae'r *Ddogfen Gynnig* yn nodi'r rhaglenni a'r prosiectau sy'n cael eu hystyried gan y ddwy Lywodraeth i'w cynnwys mewn Cynllun Twf, ar y cam Penawdau'r Telerau. Bellach, mae'r rhanbarth ar fin cyrraedd Penawdau'r Telerau.

**1.7** Ym mis Hydref, gwahoddir y partneriaid rhanbarthol i gadarnhau'r *Ddogfen Gynnig* er mwyn rhoi mandad i'w harweinyddion ymrwymo i Gytundeb Penawdau'r Telerau gyda'r ddwy Lywodraeth. Ar ôl y Penawdau'r Telerau, byddai'r rhanbarth yn cychwyn cam terfynol datblygu'r Cais a thrafod gyda'r Llywodraethau.

## 2.0 CYNNYDD I GYRRAEDD CYNLLUN TWF I OGLEDD CYMRU

**2.1** Mabwysiadodd y Pwyllgor Gwaith y *Weledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru* ym mis Medi 2016. Mae'r weledigaeth yn amlinellu uchelgais gyfunol a strategol ar gyfer y Gogledd er mwyn datblygu isadeiledd, sgiliau a chyflogaeth a thwf busnes. Fe wnaeth cabinet y pum cyngor arall sy'n bartneriaid yn y rhanbarth fabwysiadu'r strategaeth bryd hynny, hefyd. Hysbyswyd y Pwyllgor Gwaith mewn ail adroddiad ym mis Chwefror 2017 bod rhanbarth y Gogledd wedi derbyn gwahoddiad ffurfiol i agor trafodaethau am Gynllun Twf gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru am adnoddau a phwerau ychwanegol i weithredu ar y blaenoriaethau oedd wedi'u nodi yn y Weledigaeth Twf. Mae nifer o Gynlluniau Dinas a Chynlluniau Twf rhanbarthol wedi'u mabwysiadu ledled y DU. Gosodwyd dyddiad targed ar gyfer ymrwymo i Gytundeb Penawdau'r Telerau ar gyfer Cynllun Twf gyda'r ddwy lywodraeth, sef hydref/gaeaf 2018.

**2.2** Mae Cynllun Twf yn gytundeb ffurfiol rhwng partneriaeth ranbarthol a'r Llywodraethau am fuddsoddiad ychwanegol yn y rhanbarth a chyflwyno pwerau datganoledig. Mae gofyn i ranbarthau sy'n gwneud cais gael model llywodraethu cyfreithiol, gwydn ac atebol er mwyn cynllunio a gweithredu eu strategaeth. Ar gyfer y Gogledd, Rhanbarth Prifddinas Caerdydd a Dinas-ranbarth Bae Abertawe, mae'r broses bidio yn cynnwys Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

**2.3** Ym mis Mehefin eleni, fe wnaeth y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor fabwysiadu Cytundeb Llywodraethu ar gyfer camau cynllunio a datblygu Cynllun Twf. Mae'r Cytundeb yn nodi'n fanwl sut fydd y trefniadau llywodraethu rhanbarthol yn gweithio a sut cânt eu rheoleiddio. Mae'r Cytundeb rhwng y bartneriaeth o'r chwe awdurdod lleol, y ddwy brifysgol, y ddau goleg addysg bellach a Chyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy. Nid yw'r Cyngor Busnes, y mae ganddo le ar y Bwrdd heb hawliau pleidleisio, yn llofnodydd i'r Cytundeb gan mai sefydliad aelodaeth ydyw, nid corff corfforaethol wedi'i gyfansoddi. Mae'r bartneriaeth yn gweithredu drwy gyd-bwyllgor, fel y model llywodraethu a ffefrir, o'r enw Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Fe wnaeth yr holl bartneriaid statudol fabwysiadu'r Cytundeb Llywodraethu fel ei gilydd yn ystod yr haf.

**2.4** Yn y cyfamser, mae'r Bwrdd wedi gweithio ar ei restr flaenoriaeth o raglenni, a'r prosiectau penodol sy'n eu cefnogi, er mwyn prysuro twf economaidd yn y rhanbarth. Mae Achosion Busnes Amlinellol yn tanategu'r holl brosiectau. Mae *Dogfen Gynnig* (sydd ynghlwm) sy'n nodi manylion y rhaglenni blaenoriaeth hyn, ac yr ydym yn ceisio arian cenedlaethol ar ei chyfer drwy Gynllun Twf, wedi'i chymeradwyo gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Y *Ddogfen Gynnig* yw'r cais rhanbarthol. Bydd y Cynllun Twf yn ariannu rhaglenni a phrosiectau a ddewisir o blith y rhai yn y *Ddogfen Gynnig* - y rhai sy'n bodloni amcanion y llywodraeth ar gyfer twf economaidd.

**2.5** Mae'r Ddogfen Gynnig wedi'i datblygu dros gyfnod o amser gyda mewnbwn sylweddol gan y sectorau busnes yn y rhanbarth ar partneriaid eu hunain, ac mewn cyswllt gyda gweision sifil o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, mewn proses ddwys ac ailadroddol. Mae'r *Ddogfen Gynnig* yn adeiladu ar y *Weledigaeth Twf* gynharach ac mae'n cynnig ystod o ymyraethau ar gyfer tyfu'r economi dan gyfres o raglenni blaenoriaeth.

**2.6** Mae dau gam i sicrhau Cynllun Twf. Yn gyntaf, y cam Penawdau'r Telerau, lle bydd y Llywodraethau yn nodi pa raglenni a phrosiectau y maent yn barod i'w hariannu ac i ba lefel drwy gytundeb amlinellol gyda'r rhanbarth sy'n gwneud y cais. Yr ail gam yw'r cam o gytuno ar y Cynllun terfynol gyda'r cynnwys manwl a'r trefniadau ariannu. Rhwng y ddau gam hyn, mae'n rhaid i'r holl raglenni a phrosiectau a ddewisir basio drwy'r broses gwerthusiad model busnes pum achos (fel sy'n ofynnol gan Drysorlys Llywodraeth y DU). Caiff y prosiectau hynny a ddewisir ar y cam Penawdau'r Telerau sy'n bodloni'r profion gwerthuso eu hariannu drwy'r Cynllun terfynol.

**2.7** Mae'r Ddogfen Gynnig yn seiliedig ar y rhaglenni blaenoriaeth strategol a ganlyn: -

1. Datblygu Tir ac Eiddo
2. Mynediad Blaengar i Ynni
3. Twristiaeth Antur
4. Canolbwynt Technoleg ac Arloesedd Blaengar
5. Cronfa a Chanolbwynt Twf Busnes Rhanbarthol
6. Llwybrau i Sgiliau a Chyflogaeth
7. Canolfannau Rhagoriaeth Sgiliau
8. Cysylltedd Digidol
9. Trafnidiaeth Strategol

**2.8** Crynhoir graddfa'r strategaeth isod: -

- Cyfanswm cost y buddsoddiad a gynigir yw £670.65m, gyda £109.19m o gyfraniadau uniongyrchol gan y sector preifat a £219.46m o gyfraniadau gan bartneriaid. Mae'r rhanbarth yn ceisio £334m o arian cyfalaf a £8m o arian refeniw gan y Cynllun Twf;
- Caiff 5,408 o swyddi uniongyrchol eu creu, a gwerth buddsoddiad y sector preifat a gyflawnir o ganlyniad uniongyrchol i gyflawni'r prosiectau (buddsoddiad anuniongyrchol y sector preifat) fydd £3.13biliwn; ac
- Y nod pwysicaf yw cynyddu gwerth economi'r Gogledd o £13.6 biliwn yn 2016 i £26 biliwn erbyn 2035.

## 3.0 CYDBWYSO RISG A CHYFLE

**3.1** Bydd y Cynllun Twf yn rhoi mynediad i'r rhanbarth i arian cyfalaf a ddarperir gan y ddwy Lywodraeth. Caiff yr arian ei glustnodi i'r prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo a'u cynnwys yn y Cynllun terfynol. Mae'n bosib y caiff y prosiectau eu gweithredu a'u goruchwylio'n uniongyrchol gan y Bwrdd ei hun, neu eu dosbarthu i sefydliadau partner, megis y prifysgolion, ar ei ran.

**3.2** Bydd gan bob prosiect drefniadau cynllunio a rheoli prosiect cadarn yn eu lle i reoli faint o risg cost ac atebolrwydd y maent yn eu hwynebu e.e. risg o or-redeg costau cyfalaf. Disgwylir i'r arian cyfalaf gael ei dalu mewn rhan-daliadau cyfartal dros gyfnod o 15 mlynedd. Er mwyn cael yr effaith fwyaf ar yr economi, mae'r rhanbarth yn debygol o gynllunio i fuddsoddi cyfran uchel o'r cyfalaf yn y blynyddoedd cynnar a chyn amserlen taliadau'r Llywodraeth. Os mai dyma yw'r achos, bydd costau ychwanegol o dalu llog ar y cyfalaf a fenthycir. Byddai hyn ar gost i'r partneriaid rhanbarthol ac felly mae'n risg ariannol. Mae'r Bwrdd yn gweithio ar yr egwyddor y bydd yn lleihau i'r eithaf y risgiau i'r rhanbarth wrth iddo ymrwymo i Gynllun Twf. Er mwyn lleihau neu ddileu'r risg ariannol hwn, byddai'r Bwrdd yn: -

- Ceisio cadw'r Cynllun Twf ar lefel fforddiadwy a hylaw
- Rhannu'r risg ymhlith y partneriaid
- Cadw cyfran o'r twf net mewn Cyfraddau Annomestig Cenedlaethol (NNDR) ledled y rhanbarth, er mwyn cyfrannu at unrhyw gostau benthyca, drwy gytundeb gyda Llywodraeth Cymru

- Adennill incwm o brosiectau penodol er mwyn cyfrannu at unrhyw gostau benthyca a'i ail-fuddsoddi yn y rhanbarth e.e. incwm o gynhyrchu ynni ac incwm cysylltedd digidol gan ddefnyddwyr
- Edrych ar yr opsiynau o rannu risg ariannol gyda'r Llywodraethau

**3.3** Caiff y Cynllun terfynol a argymhellir ei gyflwyno i'r holl bartneriaid rhanbarthol er mwyn iddynt ei adolygu a'i gymeradwyo fel mater a gedwir yn ôl (fel sydd wedi'i nodi yn y Cytundeb Llywodraethu y mae'r Cyngor yn rhan ohono) yn ddiweddarach. Bryd hynny, bydd y sefydliadau partner yn medru gwerthuso'r risgiau a'r cyfleoedd yn llawn, cyn penderfynu a ydynt am ymrwymo'n ffurfiol i'r Cynllun yn y ffurf y'i cyflwynir. Pan gaiff y Cynllun terfynol a argymhellir ei gyflwyno i'w gymeradwyo, caiff y trefniadau ariannol a'r buddion a'r risgiau eu hegluro'n fanwl. Bydd y partneriaid yn medru cynghori Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ynghylch eu barn ar y dadansoddiad cost-budd o'r Cynllun sy'n cael ei gynnig. Ni fydd gan y bwrdd awdurdod i lofnodi'r Cynllun terfynol heb gytundeb unigol y sefydliadau partner.

**3.4** Caiff y trefniadau partneriaeth ar gyfer cam gweithredu'r Cynllun, sy'n dilyn cwblhau cyrraedd cytundeb ar y Cynllun terfynol o 2019 ymlaen, eu rheoleiddio gan ail Gytundeb Llywodraethu. Bydd yr ail Gytundeb hwn yn manylu ar y goblygiadau ariannol i'r bartneriaeth ar y cyd ac i'r partneriaid unigol.

**3.5** Bydd angen adnodd rhanbarthol i reoli gweithrediad y Cynllun Twf, a'r strategaeth ehangach, sef y Swyddfa Rhaglen. Gan ddilyn yr egwyddor o leihau i'r eithaf y risg a'r gost ariannol i'r rhanbarth, caiff y Swyddfa Rhaglen ei hariannu drwy gyfuniad o: -

- Ystyried cyflogau wedi'u cyfalafu gan dynnu ar yr adnoddau cyfalaf a ddarperir gan y Llywodraethau (yn amodol ar gyfarwyddiadau cyfalafu)
- Ffioedd rheoli ar gyfer rheoli prosiectau a geir o adnoddau cenedlaethol hefyd
- Tynnu ffrydiau ariannu cenedlaethol eraill i lawr, megis yr adnoddau Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd sy'n weddill ac sydd ar gael i Gymru
- Secondiadau a chyfraniadau o fath arall
- Cyfraniadau ariannol gan bartneriaid

## 4.0 CAMAU NESAF NEGODI A CHYMERADWYO'R CYNLLUN TWF

**4.1** Fel y nodir yn 2.1, y dyddiad targed ar gyfer cytuno ar Benawdau'r Telerau ar gyfer y Cynllun Twf gyda'r ddwy Lywodraeth yw hydref/gaeaf 2018. Fel yr eglurwyd yn 2.6, y cytundeb Penawdau'r Telerau yw'r cam cyntaf o sicrhau cynllun. Dan y cytundeb hwn, caiff ystod, cynnwys blaenoriaeth a graddfa'r cynllun terfynol posib eu nodi. Yna, rhaid cwblhau gwaith manwl ar y rhaglenni a'r prosiectau sydd wedi'u blaenoriaethu drwy werthusiad model busnes pum achos. Caiff y cynllun terfynol ei adrodd yn ôl i'r partneriaid rhanbarthol er mwyn iddynt ei adolygu a chytuno arno fel mater a gedwir yn ôl sydd angen awdurdod unigol bob partner, yn 2019. Unwaith y bydd yr holl bartneriaid wedi cytuno, caiff y Bwrdd ei awdurdodi wedi hynny i ymrwymo i ddefnyddio'r adnoddau a gynigir gan y Llywodraethau i ddechrau gweithredu'r prosiectau a gefnogir.

**4.2** Nid y Cynllun Twf yw'r unig ymyrraeth i gefnogi nodau ac amcanion y weledigaeth a'r strategaeth ehangach ar gyfer y rhanbarth. Eisoes, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn isadeiledd trafnidiaeth a safleoedd strategol yn y rhanbarth, ac mae Llywodraeth y DU yn cefnogi'r rhanbarth drwy'r cynlluniau sector sy'n tanategu'r Strategaeth Ddiwydiannol genedlaethol. *Y Strategaeth Ddiwydiannol*. Mae'n bosib y negodir rhaglenni buddsoddi pellach ar wahân ac mae memorandwm o ddealltwriaeth gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer cydweithio yn y dyfodol yn cael ei gynnig; un a fydd yn cyd-fynd yn dda â'r *Cynllun Gweithredu Economaidd* i Gymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae undod y rhanbarth y tu ôl i'r weledigaeth a'r strategaeth sydd wedi'u mabwysiadu yn ffactor pwysig wrth gael pwrpas, hygrededd a dylanwad wrth negodi.

## 5.0 GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

**5.1** Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad, mae'n debygol y bydd cost llog ar fenthyca y bydd angen ei wasanaethu. Hyd nes bydd gennym fanylion y Cynllun Twf terfynol, i'w negodi gyda'r Llywodraethau, a'r trefniadau taliadau grant cyfalaf i gyllido'r Cynllun, ni fydd y partneriaid rhanbarthol yn gwybod faint o brosiectau a gymeradwyir na beth fydd yn eu cost gyfunol. Bydd cost gyfunol y prosiectau a gymeradwyir, a sut cant eu cyflwyno dros gyfnod o flynyddoedd, yn effeithio ar y cyfraniadau i'r costau benthyca y gallai bod disgwyl i bob partner eu gwneud.

**5.2** Wrth gymeradwyo argymhellion yr adroddiad hwn, ni fydd y Cyngor yn ymrwymo i fuddsoddiad ariannol ei hun o gwbl, a'r cyfan y bydd yn ei wneud fydd awdurdodi cyflwyno Cais ffurfiol i'w ystyried gan y Llywodraethau. Fel yr eglurir yn 5.1, caiff risgiau a buddion ariannol y Cynllun Twf terfynol eu hadrodd ar yr ail gam cymeradwyo – sef y cam terfynol – ynghyd a'r model i rannu unrhyw gostau benthyca ymhlith y partneriaid rhanbarthol.

## 6.0 YMGYNGHORIADAU SYDD EU HANGEN / SYDD WEDI'U CYNNAL

**6.1** Mae ymgynghori eang wedi bod ar draws y sectorau cyhoeddus a busnes wrth ddatblygu'r Ddogfen Gynnig. Mae aelodau ym mhob un o'r chwe chyngor wedi'u cynnwys mewn trafodaethau drwy sesiynau briffio a gweithdai. Mae cynhadledd ranbarthol wedi'i threfnu ar gyfer cyrff partner ac mae'r wybodaeth hon ar gael yn fewnol.

**6.2** Mae ymgysylltiad gyda'r sector preifat wedi bod yn barhaus, yn bennaf drwy Gyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy a thrwy'r *Confederation of British Industry* (y CBI). Mae sesiynau herio dwys gydag arweinyddion busnes a ddewiswyd o bob sector, ymgynghoriad gyda Fforwm Rhanddeiliaid Arweinyddion Busnes sydd newydd ei ffurfio ac, yn fwy diweddar, ymgysylltiad gyda'r *Business Services Association* (y BSA) oll wedi'u cynnal.

## 7.0 RHEOLI RISG

**7.1** Unwaith y byddwn yn gwybod beth yw ystod a chynnwys posib y Cynllun Twf, yn dilyn cytuno ar Benawdau'r Telerau, gellir ymgymryd ag asesiad risg a dadansoddiad cost-budd llawn. Byddai hwn ar gael i gynorthwyo gyda gwneud penderfyniadau cyn y byddai'r rhanbarth yn ymrwymo ar y cam cytundeb terfynol y Cynllun Twf yn ddiweddarach yn 2019. Mae dadansoddi risg wedi'i adeiladu i mewn i'r model achos busnes ar gyfer y rhaglenni a'r prosiectau sy'n rhan o ddatblygu'r Cais. Mae gan yr holl brosiectau sydd wedi'u rhestru yn y Ddogfen Gynnig Achos Busnes Amlinellol i ddangos eu gwerth a'u teilyngdod.

**ARGYMHELLIAD**

**A1.** Bod y Cyngor yn mabwysiadu'r *Ddogfen Gynnig* fel (1) sail ar gyfer strategaeth ranbarthol tymor hwy ar gyfer twf economaidd, a (2) y cais rhanbarthol ar gyfer y rhaglenni a'r prosiectau blaenoriaeth a ddefnyddir i ffurfio cynnwys Cynllun Twf ar y cam Penawdau'r Telerau gyda'r Llywodraethau. Nid yw mabwysiadu yn ymrwymo'r Cyngor i fuddsoddiad ariannol o gwbl ar y cam hwn ac mae'n amodol ar nodi risgiau a buddion ariannol y Cynllun Twf terfynol yn fanwl, i'w hystyried yn llawn, pan gaiff y Cynllun terfynol ei gyflwyno er cymeradwyaeth yn ddiweddarach.

**A2.** Bod y Cyngor yn nodi bod yr Arweinydd wedi cael awdurdod gan y Pwyllgor Gwaith i ymrwymo'r Cyngor i'r Penawdau Telerau gyda'r Llywodraethau law yn llaw ag arweinyddion gwleidyddol a phroffesiynol o'r naw partner statudol arall a gynrychiolir ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a Chyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, gyda'r *Ddogfen Gynnig* yn gosod y ffiniau ar gyfer y cytundeb Penawdau'r Telerau.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| |

| **D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1: Y Ddogfen Gynnig |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| <u>**DOGFENNAU CEFNDIR**</u><br><br>Y Weledigaeth a'r Strategaeth Ranbarthol (2016);<br>Adroddiadau i'r Cabinet a'r Cyngor (2016-2018) a<br>Rhaglenni, adroddiadau a chofnodion Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |

(2017-2018).

**GEIRFA**

**Y Ddogfen Gynnig** - y strategaeth ranbarthol ar gyfer twf economaidd yn y rhanbarth sydd hefyd yn gais am adnoddau a phwerau i'w cyflwyno gan y Llywodraethau drwy Gynllun Twf.

**Cynllun Twf** - arian a ddarperir i Bartneriaethau Menter Lleol yn Lloegr, a phartneriaethau awdurdod lleol yng Nghymru, ar gyfer rhaglenni ymyraethau economaidd sy'n rhoi buddion i'r rhanbarth a'i economi.

**Cytundeb Llywodraethu** - termau y gellir eu cyfnewid am gytundeb cyfreithiol rhwng partneriaid cydweithredol i reoleiddio gweithio'n gyfansoddiadol a rhannu risg a buddion.

**Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy** - corff cynrychioladol yn seiliedig ar aelodaeth o'r sectorau preifat a busnes yng Ngogledd Cymru ac is-ranbarth Merswy Dyfrdwy.

**Model Busnes Pum Achos** - dull sydd wedi'i sefydlu ar gyfer gwneud achosion busnes i gefnogi cynigion am fuddsoddiad a weithredir dan ganllawiau Trysorlys y DU.

**Y Strategaeth Ddiwydiannol** - strategaeth genedlaethol Llywodraeth y DU ar gyfer twf economaidd a ffyniant.

**Cynllun Gweithredu Economaidd** - strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer twf economaidd a ffyniant.

**Cynlluniau Sector** - rhaglenni cenedlaethol Llywodraeth y DU ar gyfer buddsoddi mewn sectorau diwydiant allweddol yn yr economi e.e. ynni niwclear, awtomatiaeth ac awyrofod.

**Swyddfa Rhaglen** - yr adnodd rhanbarthol i oruchwylio'r gwaith o gynllunio a gweithredu'r Cynllun Twf a'r strategaeth ranbarthol. Mae'r Swyddfa Raglen wedi'i lleoli o fewn awdurdod lletya (Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd).



# Gweledigaeth Twf **Gogledd Cymru**

# Dogfen Gynnig

## Blaengar, Gwydn a Chysylltiedig

Hydref 2018

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

# GWELEDIGAETH TWF GOGLEDD CYMRU
# DOGFEN GYNNIG

## *CYNNWYS*


| | |
|---|---|
| **CRYNODEB GWEITHREDOL A NEGESEUON ALLWEDDOL** | 1 |
| **RHAN 1 - CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN** | 3 |
| **RHAN 2 - YR ACHOS DROS FUDDSODDI** | 5 |
| **RHAN 3 - Y CYD-DESTUN STRATEGOL A CHYD-FYND Â PHOLISI'R LLYWODRAETHAU** | 15 |
| **RHAN 4 - ARFARNU'R OPSIYNAU A'R FFORDD YMLAEN A FFEFRIR** | 17 |
| **RHAN 5 - Y WELEDIGAETH TWF** | 19 |
| **RHAN 6 - Y RHESTR O BROSIECTAU** | 25 |
| **RHAN 7 - YR ACHOS ECONOMAIDD** | 48 |
| **RHAN 8 - CYLLID AC ARIANNU** | 49 |
| **RHAN 9 - GRYMUSO'R RHANBARTH** | 51 |
| **RHAN 10 - Y STRWYTHUR LLYWODRAETHU A CHYFLAWNI** | 52 |


## *ATODIADAU:*


**Atodiad 1**
**Achosion Busnes Amlinellol y Prosiectau (HYPERDDOLEN)**

**Atodiad 2**
**Cylch Gorchwyl Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**

**Atodiad 3**
**Cylch Gorchwyl y Fforwm Rhanddeiliaid**

**Atodiad 4**
**Map Llywodraethu**

**Atodiad 5**
**Awdurdod Lletya**

## CRYNODEB GWEITHREDOL A NEGESEUON ALLWEDDOL

- Bu twf cadarn a chadarnhaol mewn cynhyrchedd a chyflogaeth o fewn economi'r Gogledd dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae angen rhagor o fuddsoddi er mwyn adeiladu ar y llwyddiant hwn a symud ymlaen i greu cyfleoedd pellach i fusnesau a'r farchnad lafur leol yn y rhanbarth.
- Er bod lefelau cyflogaeth a diweithdra yn gwella, nid yw'r farchnad lafur yn cynnig llawer o gyfleoedd am swyddi gwerth uchel sy'n talu cyflogau uchel ac mae'n sylweddol is na chyfartaledd y DU.
- Mae gennym boblogaeth sy'n heneiddio ledled y rhanbarth a thraddodiad o ddoniau yn symud allan o'r rhanbarth.
- Mae amrywiadau mawr o fewn economi'r rhanbarth, yn bennaf o ran GVA y pen (mae Sir y Fflint a Wrecsam yn 84.1% o gyfartaledd y DU, tra bod Ynys Môn ond yn 52.9%). Mae hanes o dwf cryf iawn wedi bod yn y Gogledd Ddwyrain, ond mae hyn yn cael ei gyfyngu gan ddiffyg isadeiledd (safleoedd a thrafnidiaeth) ynghyd â phrinder yn y farchnad lafur a chyflenwad sgiliau. Yn y Gogledd Orllewin, mae'r economi yn llawer mwy dibynnol ar y sector cyhoeddus. Mae angen am isadeiledd wedi'i ariannu'n gyhoeddus i sbarduno a hwyluso twf sector preifat, a chefnogi datblygiadau cyflenwyr yn ymwneud â phrosiectau buddsoddi ar raddfa fawr.
- Mae gan y rhanbarth gyfle gwych i gynhyrchu twf yn sgil buddsoddiadau arfaethedig gan y sector preifat mewn sectorau economaidd allweddol megis gweithgynhyrchu uwch ac ynni. Un prosiect strategol allweddol yw Prosiect Wylfa Newydd sydd werth £15bn, y prosiect isadeiledd mwyaf yng Nghymru ers cenhedlaeth a fydd yn cael effaith fawr ar fusnesau a'r farchnad lafur yn y rhanbarth.
- Er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd o'r fath, mae'r rhanbarth wedi datblygu un weledigaeth gydgysylltiedig ar gyfer twf economaidd a chyflogaeth, gydag ymrwymiad rhwng yr holl bartneriaid i weithio ar y cyd er diben cyffredin.
- Rydym yn hyrwyddo "twf cynhwysol", gan roi sylw i afreoleidd-dra ac anghyfartaledd cymdeithasol a gofodol o fewn y rhanbarth. Bydd angen i dwf gael ei ddosbarthu a'i ehangu, yn unol â blaenoriaethau Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru a'n hymrwymiad dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Mae uchelgais i'r rhanbarth osod ei hun fel un o brif **leoliadau'r DU ar gyfer cynhyrchu ynni a gweithgynhyrchu uwch** - ynghyd â bod yn **ganolbwynt o arloesedd ac arbenigedd technoleg**, a chanolfan o ragoriaeth ar gyfer **twristiaeth gwerth uchel**. Mae'r uchelgais hon yn adeiladu ar gryfderau a chyfleoedd, a bydd ei chyflawni yn creu ymagwedd fwy cynaliadwy a chytbwys i ddatblygu'r economi.
- Seiliwyd y Weledigaeth Twf ar dri nod allweddol:

  Gogledd Cymru Flaengar - gan ganolbwyntio ar arloesedd mewn sectorau economaidd gwerth uchel i symud perfformiad economaidd ymlaen;
  Gogledd Cymru Wydn - gan ganolbwyntio ar gadw pobl ifanc, codi lefelau cyflogaeth a gwella sgiliau er mwyn cyflawni twf cynhwysol;
  Gogledd Cymru Gysylltiedig - gan ganolbwyntio ar wella isadeiledd trafnidiaeth a digidol er mwyn gwella cysylltedd strategol i'r rhanbarth ac o'i fewn.
- Mae'r nodau hyn, sy'n ddatganiadau eang o ddeilliannau dymunol i'r rhanbarth, yn gosod y cyd-destun ar gyfer ein Rhaglenni Strategol. Mae'r Rhaglenni hyn, y mae naw ohonynt i gyd, yn grŵp o brosiectau cysylltiedig i'w rheoli mewn ffordd gydlynol. Mae'r rhaglenni a'r prosiect yn "yrwyr allweddol" i gyflawni ein gweledigaeth a mynd i'r afael â'r heriau sydd wedi'u hadnabod a chreu'r amodau ar gyfer twf. Bydd y Rhaglenni yn rhai hirdymor, eang eu natur a byddant yn rhoi fframwaith clir i gyfuno ac integreiddio adnoddau preifat a chyhoeddus i gyflawni deilliannau cadarnhaol i'r economi.
- Mae'r Rhaglenni Strategol wedi'u cyd-ddylunio a'u datblygu gan randdeiliaid allweddol, yn benodol y sector preifat. Ar hyn o bryd, mae rhestr hir o Brosiectau sydd wedi'u hadnabod i ddarparu ymyraethau yn y tymor byr. Mae'r rhain wedi'u pecynnu dan y strwythur Rhaglen thematig - caiff rhestr y Prosiectau, fel yr eglurir yn rhan 6, ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn ystwyth ac yn hyblyg ac er mwyn gwneud y gorau o gyfleoedd, yn enwedig os yw'r sector preifat yn barod i fuddsoddi.

- Mae ein Prosiectau yn canolbwyntio ar ddatblygu'r amodau i ddenu buddsoddiad gan y sector preifat. Mae nifer o'n prif safleoedd datblygu busnes neu ddiwydiannol wedi'u "hoedi" ar hyn o bryd ac mae angen buddsoddiad ymlaen llaw i alluogi i'r safleoedd hyn fod yn "barod ar gyfer y farchnad" i'r sector preifat. Mae hyn yn adlewyrchu'r angen am ymyrraeth ac uchafu gwerth yr asedau sydd ar gael ar gyfer twf economaidd ledled y rhanbarth.
- **Ar y cyd, mae'r Prosiectau sydd wedi'u hadnabod yn rhai trawsffurfiol** - mae gennym becyn o brosiectau arloesol a thrawsffurfiol sy'n rhyng-gysylltiedig ac yn gyd-ddibynnol. Bydd eu cyflawni yn cefnogi'r rhanbarth i ddod dros y rhwystrau i fuddsoddi yn y rhanbarth a chreu swyddi y mae'r sector preifat yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Yn ogystal, byddant yn cefnogi'r rhanbarth i addasu i "rymoedd newydd" sy'n effeithio ar fusnesau, a pharatoi ar eu cyfer, megis datgarboneiddio, awtomeiddio, deallusrwydd artiffisial a ffurfiau eraill o ddigideiddio. Mae ffocws yn benodol ar gefnogi technolegau carbon isel i roi hwb i gynhyrchedd a chreu swyddi gwerth uchel.
- Cyfanswm cost y buddsoddiad a gynigir yw **£670.65m**, gyda **£109.19m** o gyfraniadau sector preifat uniongyrchol a **£219.46m** o gyfraniadau gan amrywiol bartneriaid. Rydym yn ceisio **£334m** o arian cyfalaf gan y Cynllun Twf a **£8m** o arian refeniw gan y Cynllun Twf.
- Caiff **5,408** o swyddi uniongyrchol eu creu, a gwerth buddsoddiad y sector preifat a gyflawnir o ganlyniad uniongyrchol i gyflawni'r prosiectau (buddsoddiad anuniongyrchol y sector preifat) fydd **£3.13bn**.
- Y nod pwysicaf yw cynyddu gwerth economi'r Gogledd o **£13.6 biliwn** yn 2016 i **£26 biliwn** erbyn 2035.
- Bydd ymgysylltiad cadarn gyda busnesau lleol er mwyn eu galluogi nhw i gael mynediad i gyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi o ganlyniad i brosiectau a ariennir drwy'r Cynllun Twf, er mwyn cymryd mantais lawn o'r buddion rhanbarthol posib ac effaith y buddsoddiad.
- Hefyd, rydym yn ceisio cefnogaeth Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i dderbyn mwy o gapasiti a'r hyblygrwydd i wneud penderfyniadau allweddol ar lefel ranbarthol. Ceisir pwerau a chyfrifoldebau newydd i hwyluso twf mewn meysydd polisi allweddol megis trafnidiaeth a chyflogaeth. Mae ein hymagwedd yn hyrwyddo rhanbartholdeb a datganoli.
- Nid y Cynllun Twf yw'r unig ymyrraeth i gefnogi nodau ac amcanion y weledigaeth a'r strategaeth ehangach ar gyfer y rhanbarth. Eisoes, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn isadeiledd trafnidiaeth yn y rhanbarth law yn llaw â'r Cais, ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd, ynghyd â buddsoddiadau eraill megis agor safle Porth y Gogledd ar gyfer mewnfuddsoddi a'r Sefydliad Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch ym Mrychdyn. Mae'r cynllun Growth Track 360 ar gyfer buddsoddi mewn rheilffyrdd ar draws ffiniau, yn symud ymlaen ar lefel Llywodraeth y DU. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Masnachfreintiau newydd Cymru a'r Gororau gyda gwelliannau i isadeiledd a gwasanaeth. Mae'n bosib y gellir negodi rhaglenni buddsoddi pellach ar wahân. Byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar raglen "Bargeinion Sector" Llywodraeth y DU - fel sydd wedi'i amlinellu yn y Strategaeth Ddiwydiannol. Yn ogystal, byddwn yn targedu rhaglenni perthnasol eraill sydd ar gael gan y ddwy Lywodraeth i gyflawni'r ymyraethau fel sydd wedi'i nodi yn ein Gweledigaeth Twf.
- Mae'r rhanbarth wedi sefydlu trefniadau llywodraethu newydd, sy'n gadarn ac yn effeithiol, i gydlynu a chyflawni'r Weledigaeth Twf ar gyfer y rhanbarth. Bellach, bydd swyddogaethau megis datblygu'r economi, sgiliau a chyflogaeth, trafnidiaeth a chynllunio defnydd tir yn cael eu cydlynu gan "**Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**" sydd newydd ei ffurfio.
- Caiff grŵp newydd o randdeiliaid y sector preifat ei sefydlu hefyd, i gefnogi, cynghori a herio Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Bydd yn cynnwys cynrychiolwyr busnes o'r holl sectorau twf a sylfaen allweddol, er mwyn rhoi cyngor arbenigol i aelodau'r Bwrdd Uchelgais.
- Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ynghyd â'i drefniadau a'i strwythur llywodraethu, yn rhoi arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar gyfer cyfeiriad a deilliannau strategol. Hefyd, bydd yn llais cryf ac unedig ar gyfer y Gogledd.
- Mae dod ynghyd fel "Gogledd unedig" drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, gydag un weledigaeth gydgysylltiedig ar gyfer yr economi, wedi'i gyflawni dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn cyflwyno'r Ddogfen Gynnig hon yn awr er mwyn gosod y sail resymegol ar gyfer buddsoddi yn y rhanbarth a manylion ein Rhaglenni a'n Prosiectau Strategol a fydd yn cyflawni twf economaidd cynhwysol i bobl a busnesau'r Gogledd.

## RHAN 1 - **CYFLWYNIAD** A CHYD-DESTUN

### ***Cyflwyniad*** a Phwrpas y Ddogfen Gynnig

Pwrpas y Ddogfen Gynnig yw gosod pecyn o fesurau ac ymyraethau beiddgar i gyflawni twf economaidd cynaliadwy yn y Gogledd.

Caiff ei ddefnyddio fel y cerbyd i ysgogi arian gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru - yn benodol drwy'r Cynllun Twf.

Bydd y ddogfen yn rhoi'r sail resymegol strategol ar gyfer buddsoddi yn y Gogledd, ac yn esbonio sut mae'r Cynnig yn cyd-fynd â pholisïau cenedlaethol ehangach, yn benodol Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU a Chynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru.

Mae'n dangos sut yr adnabuwyd ac y gwerthuswyd ystod eang o opsiynau strategol realistig a chyflawnadwy yn nhermau mynd i'r afael â heriau economaidd y rhanbarth.

Eglurir y Weledigaeth Twf y cytunwyd arni, ynghyd â'r Nodau a'r Rhaglenni Strategol. Mae hyn yn ffurfio cyd-destun i'r Rhestr o Brosiectau a fydd yn arddangos yr ymyraethau arfaethedig a'r amserlen i'w cyflawni.

Dangosir yr ymgysylltiad â phartneriaid o'r sector preifat yn y ffordd y dyluniwyd ac y datblygwyd y Prosiectau.

Bydd yr achos economaidd yn amlygu'r effaith, y deilliannau a'r natur rhyng-ddibynnol gyffredinol a bydd yn arddangos sut mae'r cynnig buddsoddi yn gwneud y gorau o werth cyhoeddus.

Mae'r achos cyllidol ac ariannu yn crynhoi gwerthusiadau ariannol y prosiectau. Mae'n nodi'r buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen, ynghyd â'r goblygiadau refeniw. Hefyd, mae'n nodi'r buddsoddiad sydd ei angen gan y Cynllun Twf.

Mae grymuso'r rhanbarth i wneud mwy o benderfyniadau ar lefel ranbarthol a chael mwy o reolaeth dros feysydd polisi allweddol yn themâu hanfodol o fewn y Cynnig hefyd, a gosodir y "gofynion datganoli" gan y ddwy Lywodraeth er mwyn hwyluso cyflawni'r Weledigaeth Twf.

Caiff y strwythur a'r trefniadau Llywodraethu a Chyflawni eu harddangos yn y Ddogfen Gynnig hon, ynghyd â'r trefniadau adrodd a rheoli rhaglen sy'n cael eu gweithredu.

Mae'r ddogfen hon yn arddangos rôl allweddol y sector preifat wrth gyflawni'r Weledigaeth Twf.

### ***Gwreiddiau'r*** Cynnig

Daeth y sail resymegol ar gyfer ymchwilio i ffordd newydd o gyflawni twf economaidd yn y Gogledd o dri gyrrwr cychwynnol:

- **Heriau a rennir** - mae cydnabyddiaeth bod Awdurdodau Lleol ledled y rhanbarth yn wynebu nifer o heriau tebyg yng nghyswllt eu heconomïau, ac mae pryder mawr ynghylch y bwlch cynyddol gyda pherfformiad economaidd gweddill y DU. Mae materion megis lefelau isel o incwm y cartref, cynhyrchedd isel, lefelau isel o gadw'r boblogaeth a lefelau o dlodi wedi'i grynhoi wedi'u hadnabod ers peth amser fel yr hyn sy'n rhwystro twf ledled y rhanbarth. Mae her hefyd i wella isadeiledd a sail sgiliau'r rhanbarth.
- **Cyfleoedd drwy gydweithio** - cydnabuwyd y gall cydweithio rhwng partneriaid adeiladu ar gryfderau rhanbarthol, a gwneud y gorau ohonynt, er mwyn cyflawni newidiadau cadarnhaol a chyflogaeth o ansawdd. Mae partneriaid yn y rhanbarth, o Addysg Uwch, Addysg Bellach, Awdurdodau Lleol a'r

Sector Preifat, wedi dangos ymrwymiad i weithio'n agos ar y cyd er diben cyffredin. Mae'n rhanbarth sydd ag asedau a chyfleoedd unigryw, megis yr amgylchedd naturiol a'r dirwedd o safon uchel, datblygiadau diweddar yn y sector gweithgynhyrchu uwch - yn benodol yng Nglannau Dyfrdwy, a'r cyfleoedd sydd ar ddod megis datblygu Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd a mentrau carbon isel ac ynni adnewyddadwy cysylltiedig. Gall y rhanbarth adeiladu ar y cryfderau a'r cyfleoedd hyn i greu'r amodau i sectorau arloesol sy'n cystadlu ar lefel fyd-eang ffynnu a chynhyrchu twf a swyddi. Cydnabyddir bod cydweithio fel partneriaid yn hanfodol os ydym am wneud hyn - gyda'r holl bartneriaid yn dod ynghyd ac yn rhannu adnoddau er mwyn cyflawni un weledigaeth gydgysylltiedig ar gyfer twf economaidd cynaliadwy yn y Gogledd.

- **Polisïau Cenedlaethol** - mae datblygu "Strategaeth Ddiwydiannol" Llywodraeth y DU a "Chynllun Gweithredu Economaidd" Llywodraeth Cymru wedi rhoi mwy o ysgogiad i'r ymagwedd newydd ar lefel ranbarthol. Mae'r Strategaeth Ddiwydiannol yn pwysleisio pwysigrwydd "arweinyddiaeth leol" a "gweledigaethau uchelgeisiol" i ranbarthau yn y DU, tra bod Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru yn amlygu rôl allweddol partneriaeth ranbarthol wrth gyflawni nodau a rennir. Mae ymrwymiad clir gan Lywodraeth Cymru i fodel â ffocws rhanbarthol iddo o ddatblygu'r economi, gyda'r nod o ddatblygu cryfderau nodedig pob rhanbarth "er mwyn tyfu". Bydd yr ymagwedd newydd hon sy'n seiliedig ar le yn cefnogi ein hymdrechion yn y Gogledd i hyrwyddo a chryfhau cynllunio economaidd strategol a datblygu model mwy integredig a chydgysylltiedig i wireddu newid.

Wrth ddatblygu'r Ddogfen Gynnig, mae sylw manwl wedi'i roi i'n hymrwymiadau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae egwyddorion y Ddeddf wedi'u gwreiddio yn ein hymagwedd a'n ffordd o feddwl yn strategol, ac maent wedi cynorthwyo i greu'r Weledigaeth, y Nodau a'r Rhaglenni Strategol, ac wedi dylanwadu arnynt. Bydd y nodau llesiant, yr amcanion a'r ffyrdd o weithio yn llinyn allweddol drwy gydol ein gwaith.


## RHAN 2 - YR ACHOS DROS **FUDDSODDI**

### *Cyflwyniad*

Mae cyflwr cyfredol economi'r Gogledd wedi'i ddisgrifio'n gryno dros y tudalennau nesaf drwy ddadansoddiad o wybodaeth ystadegol allweddol. Mae'r wybodaeth hon yn rhoi cipolwg o economi a strwythur cymdeithasol y Gogledd fel y mae ar hyn o bryd. Mae'n cynnwys yr heriau a'r cyfleoedd i gyflawni twf cynaliadwy a chynhwysol ledled y rhanbarth, hefyd.


### *PERFFORMIAD ECONOMAIDD - GWERTH YCHWANEGOL CRYNSWTH (GVA)*

**Yn 2016, y cyfanswm GVA yn y Gogledd oedd £13.6 biliwn,** 3.0 y cant yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, a oedd yn cyfrif am 22.9 y cant o gyfanswm GVA Cymru (£59.6 biliwn) a 0.8 y cant o gyfanswm GVA y DU (£1,747.6 biliwn) yn y flwyddyn honno.  Er gwaethaf maint cymharol fach economi'r Gogledd, mae ei berfformiad wedi bod yn gadarn yn dilyn yr argyfwng ariannol ac yn ystod y cyfnod o lymder.




**Ffigwr 2.1 - Y newid yn GVA y Gogledd mewn canrannau**

Cyfartaledd cyfradd twf GVA y Gogledd rhwng 2008 a 2016 oedd 2.6 y cant, sy'n uwch na'r hyn a welwyd ar gyfer Cymru (2.4%) ond yn is na'r un ffigwr ar gyfer y DU (2.8%) dros yr un cyfnod.  Nid yw'r twf hwn wedi'i ddosbarthu'n gyson ledled chwe Sir y Gogledd, fel y gwelir gan y twf uchafswm/isafswm GVA a welir yn Ffigwr 2.1. Yn y blynyddoedd diwethaf, siroedd y Fflint a Wrecsam sydd wedi gyrru'r twf rhanbarthol drwy eu gweithgareddau gweithgynhyrchu.  Roedd gweithgynhyrchu yn cyfrif am 24.4 y can o GVA y Gogledd yn 2016 (a 40.9% o GVA Sir y Fflint a Wrecsam yn yr un flwyddyn).  Dengys Ffigwr 2.2 gyfraniad y gwahanol ddiwydiannau i GVA y Gogledd.




**Ffigwr 2.2 - Cyfraniad diwydiannau i GVA 2016**

Mae'r sector cyhoeddus yn chwarae rhan sylweddol yn economi'r rhanbarth, gan gyfrif am 22.4 y cant o GVA yn 2016, ac yna'r sectorau cyfanwerthu, manwerthu, trafnidiaeth, gwestai a bwyd (17%). Mae'r dosbarthiad a welir yn Ffigwr 2.2 yn debyg i'r hyn a welir ledled Cymru, ond gyda gwahaniaethau yng nghyfraniadau gweithgynhyrchu (24% yn erbyn 18%) a'r sector cyhoeddus (22% yn erbyn 25%) i GVA.


**Er gwaethaf perfformiad yr economi, mae GVA y pen yn y Gogledd yn parhau'n gyson is na'r ffigwr i'r DU. Gyda chyfanswm GVA y Gogledd yn £13.6 biliwn yn 2016 a phoblogaeth o tua 690,000, mae hyn gyfwerth â £19,601 y pen. Mae hyn yn 73.6 y cant o'r £26,621 y pen a welir i'r DU yn yr un flwyddyn.**

**Yn y Gogledd, mae amrywiadau eang mewn GVA y pen, o 52.9 y cant o gyfartaledd y DU yn Ynys Môn i 84.1 y cant yn Sir y Fflint a Wrecsam.**

Caiff y gwahaniaeth ei esbonio'n bennaf gan gyfraddau gweithgarwch economaidd uwch yn ardaloedd y dwyrain a chyfran uwch o drigolion hŷn a chymudo net allan o ardal y gorllewin.

O ganlyniad i'r GVA isel ym mhedair sir y Gogledd Orllewin, mae'r ardaloedd hyn yn gymwys ar gyfer y lefel uchaf o ymyrraeth arian strwythurol yr Undeb Ewropeaidd.

**Nod Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru yw targedu sectorau gwerth uchel er mwyn tyfu'r economi. Mae twf yn y sectorau hyn wedi bod yn gyfnewidiol rhwng 2010 a 2016.**





**Ffigwr 2.3 - GVA y pen yn 2016**

Mae economi'r rhanbarth yn amrywiol a'r sectorau allweddol yw gweithgynhyrchu, ynni a thwristiaeth yn ogystal â swyddi yn y sector cyhoeddus. Mae hygyrchedd i farchnadoedd, mynediad i gyflogaeth ac i ymwelwyr yn hanfodol. Mae ardal y Gogledd Orllewin wedi gweld twf sydd i'w groesawu o fewn twristiaeth antur, gan wneud y gorau o'r dirwedd ôl-ddiwydiannol ac asedau naturiol yr ardal.

## *STRWYTHUR BUSNESAU*

Yn y Gogledd, roedd 2,515 o fentrau newydd oedd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW/PAYE yn ystod 2016. Roedd hyn yn uwch na'r ffigwr o 2,365 o fentrau newydd yn 2015. Roedd 25,070 o fentrau oedd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW/PAYE yn y Gogledd yn 2017, gydag 88.9 y cant o'r rhain yn y band maint 'micro' (h.y. 0 i 9 o weithwyr). Mae hyn yn debyg i'r sefyllfa yng ngweddill y DU (89.4%) a Chymru (89.2%). Mae 98.5 y cant o fentrau yn y Gogledd wedi'u dosbarthu fel mentrau 'micro' neu fach (h.y. llai na 50 o weithwyr) tra bod dim ond 0.2 y cant yn fentrau mawr (h.y. dros 250 o weithwyr). Er mwyn cymharu, mae 0.4 y cant o fentrau'r DU yn rhai mawr; 0.3 y cant yng Nghymru a 0.6 y cant yng Nghaerdydd. Mae'r Gogledd yn dibynnu ar fentrau 'micro' a bach ac mae rhwystr i dyfu'r rhain i fod y tu hwnt i 50 o weithwyr a denu mentrau mawr i'r rhanbarth.




**Ffigwr 2.4 - Mentrau yn ôl bandiau cyflogaeth**

## *POBLOGAETH*

Mae chwe Awdurdod Lleol yn y Gogledd; Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam. Yn y rhanbarth, mae poblogaeth breswyl o tua 690,000 o bobl yn byw ar draws ardal o 6,500 cilomedr sgwâr. Y dref fwyaf yw Wrecsam, gyda phoblogaeth o 61,000, yna'r Rhyl (31,000) a Bae Colwyn (29,000). Mae'r Gogledd yn rhanbarth gwledig sydd â dwysedd poblogaeth o 106 o bobl i bob cilomedr sgwâr. Gwynedd, yn y gorllewin, yw'r ardal sydd â'r dwysedd poblogaeth isaf gyda 49 o bobl i bob cilomedr sgwâr a Sir y Fflint, yn y dwyrain, yw'r ardal â'r dwysedd poblogaeth uchaf, gyda 350 o bobl i bob cilomedr sgwâr. O gymharu, mae gan ardal Drefol Caerdydd, yn y De, boblogaeth o 447,000 a dwysedd o 5,900 o bobl i bob cilomedr sgwâr.

Disgwylir i boblogaeth y Gogledd gynyddu i dros 720,000 erbyn 2039. Gellir egluro cynnydd yn y boblogaeth drwy gyfradd geni sy'n cynyddu a chyfradd marwolaeth sy'n gostwng, yn sgil disgwyliad oes estynedig. Yn 2018, roedd y boblogaeth oed 65+ yn cyfrif am 23% o boblogaeth y Gogledd; fodd bynnag, bydd y ffigwr hwn yn cynyddu i 30% erbyn 2039. Mae'r cynnydd hwn yn y boblogaeth hŷn yn golygu bod llai o bobl o oed gweithio yn yr economi, a all arwain at brinder mewn cyflenwad o weithwyr cymwys a'i gwneud hi'n anoddach i fusnesau lenwi swyddi y mae galw amdanynt.

## *Y FARCHNAD LAFUR A CHYFLOGAETH*

Mae strwythur cyflogaeth y Gogledd yn wahanol i strwythur Cymru a'r DU gyda dibyniaeth ar y sector Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Iechyd ac Addysg yn y Gogledd Orllewin, ac mae Gweithgynhyrchu Uwch yn chwarae rôl arwyddocaol yn y Gogledd Ddwyrain. Yn 2016, roedd y sector cyhoeddus yn cyfrif am 35.3 y cant o gyfanswm cyflogaeth yn y Gogledd Orllewin, tra bod gweithgynhyrchu yn cyfrif am 23.7 y cant o gyfanswm cyflogaeth yn y Gogledd Ddwyrain. Mae gan Sir y Fflint a Wrecsam gyfran uchel o'r gweithlu sydd wedi'u cyflogi gan gyflogwyr mwy, ac mae ardaloedd gwledig o Wynedd, Conwy ac Ynys Môn yn fwy dibynnol ar Fentrau Bach a Chanolig eu Maint (SMEs).

**Mae'r Gogledd wedi gweld gwelliannau mwy mewn cyflogaeth o'u cymharu â Chymru ers 2001. Mae hyn yn rhoi'r rhanbarth mewn lle cryf wrth i ni wynebu'r heriau sydd o'n blaenau.**


Yn ystod 2017, cododd y gyfradd cyflogaeth yn y Gogledd gan 2.3 y cant, gyda 326,000 o bobl (75.4% o'r boblogaeth) mewn cyflogaeth o fis Rhagfyr 2017. Roedd y gyfradd hon yn uwch na'r gyfradd i Gymru (72.4%) a'r DU (74.7%). Rhwng 2010 a 2015, ychwanegwyd bron i 16,800 o swyddi i'r economi, twf o dros 6.3% i'r rhanbarth.

Nid yw'r twf hwn yn nifer y swyddi wedi'i ddosbarthu'n deg ar draws yr holl Awdurdodau Lleol. Yn y Gogledd, gwelodd pump o'r chwe Awdurdod Lleol gynnydd yn y gyfradd gyflogaeth yn ystod 2017. Ers 2001, mae pob un o'r chwe Awdurdod Lleol wedi gweld cynnydd mewn cyfraddau cyflogaeth, gydag Ynys Môn yn gweld y cynnydd mwyaf (i fyny i 9.1 pwynt canran).

**Er gwaetha'r cynnydd, roedd y twf cyfartalog mewn cyflogaeth 'gwerth uchel' yn 1.6% ledled y Gogledd rhwng 2010 a 2015. Roedd llai na 59,000 o bobl yn gyflogedig mewn sectorau 'gwerth uchel' yn 2016, gostyngiad o 4.8 y cant ers ffigwr 2015. Mae hyn yn her i'r rhanbarth os ydym am gynyddu sectorau 'gwerth uchel' i wella cynhyrchedd a'r natur gystadleuol. Mae twf yn y sectorau gwerth uchel wedi bod yn gyfnewidiol dros y pum mlynedd diwethaf.**

Hefyd, mae dibyniaeth ar sectorau / cyflogaeth nad ydynt yn talu'n dda yn draddodiadol, megis Twristiaeth a Manwerthu ac mae canran uchel o bobl yn gyflogedig yn y sector Adeiladwaith yn y rhanbarth - yn uwch na chyfartaledd Cymru a'r DU.

Mae'r siart isod yn dangos y newid canrannol mewn cyflogaeth lawn amser yn ôl sectorau dominyddol yn y Gogledd.




**Ffigwr 2.5 - Newid canrannol mewn cyflogaeth lawn amser yn ôl sectorau dominyddol**

Mae Conwy a Sir y Fflint yn gystadleuol wrth ddenu swyddi i'r ardal o gymharu â'r DU yn ei chyfanrwydd (fel y cyfrifir drwy ddadansoddiad 'cyfran-newid').

**Mae gan Sir y Fflint fantais gystadleuol wrth greu cyflogaeth mewn gweithgynhyrchu, gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, a gweithgareddau gwyddonol a thechnegol, tra bod gan Gonwy fantais gystadleuol wrth greu cyflogaeth yn y sector addysg.**

### *Anweithgarwch Economaidd - Diweithdra ac Anweithgarwch*

Mae'r gyfradd diweithdra yn y Gogledd wedi gostwng dros y cyfnod diwethaf. Ar hyn o bryd, mae cyfradd diweithdra'r rhanbarth yn 3.3%, i lawr o 4.5% yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn is na'r cyfraddau i Gymru (4.8%) a'r DU (4.4%).

Fodd bynnag, mae gwahaniaeth rhwng yr anweithgarwch economaidd a welir ym mhob Awdurdod Lleol; gwelodd pedwar o'r chwe Awdurdod Lleol ostyngiad yn y gyfradd ddiweithdra dros y flwyddyn. Mae Sir y Fflint wedi gweld y gyfradd isaf, 2.1%, a Wrecsam yw'r uchaf ar 5% - yn uwch na chyfartaledd Cymru a'r DU.

**Gan edrych ar yr hirdymor, mae'r Gogledd wedi gweld gwelliannau mwy mewn cyflogaeth a diweithdra o'i gymharu â Chymru ers 2001, ond nid yw wedi gwella o ran anweithgarwch economaidd.**

Mae cyfradd Anweithgarwch Economaidd gyfredol y rhanbarth yn 18.3%, sy'n is na chyfartaledd Cymru (19.8%) ond yn uwch na chyfartaledd y DU o 17.8%. Mae amrywiaethau ar draws yr Awdurdodau Lleol, gyda'r cyfraddau anweithgarwch i Sir Ddinbych (21.7%) a Chonwy (20.0%) yn uwch na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, ers 2001, gwelodd pob un o'r chwe Awdurdod ostyngiadau, gyda Wrecsam yn gweld y gostyngiad mwyaf (i lawr 9.6 pwynt canran).

Roedd 36,400 o aelwydydd heb waith ledled y Gogledd yn 2016, oedd yn cyfrif am 16.6% o gyfanswm aelwydydd y rhanbarth. Mae gostyngiad bychan wedi bod yn nifer yr aelwydydd heb waith ledled y Gogledd o anterth o tua 19.8% yn 2010.

## *ENILLION AC INCWM*

Mae'r darlun ar gyfer enillion ac incwm yn y rhanbarth yn amrywiol. Gwynedd sydd â'r enillion wythnosol llawn-amser cyfartalog isaf (£421) a'r ail isaf yng Nghymru ac yn sylweddol is na ffigwr y DU (£550.40). Hefyd, mae Ynys Môn a Chonwy yn dangos sefyllfa debyg, ac yn llawer is na chyfartaledd Cymru a'r DU. Fodd bynnag, mae enillion cyfartalog Sir y Fflint yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef £535.50.

Mae'r enillion wythnosol cyfartalog yn y Gogledd i lawr 2.4 y cant dros y flwyddyn ddiwethaf, o'i gymharu â chynnydd o 1.0 y cant yng Nghymru a chynnydd o 2.2 y cant i'r DU.

## *SGILIAU*

Mae gan y Gogledd weithlu medrus a chynhyrchiol. Fodd bynnag, yn gynyddol, nid yw eu sgiliau yn cyd-fynd â gofynion ein heconomi sy'n tyfu, gan nad oes gan y gweithlu presennol y sgiliau uwch yr ydym eu hangen; yn aml, mae'r rheini sydd â chymwysterau a sgiliau uwch yn gadael i ddod o hyd i gyflogaeth rywle arall; ac mae'r rheini sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur yn aml yn cael eu dal mewn cylch o gefnogaeth ailadroddus y mae ei ffocws yn rhy lleol fel arfer. Mae'n bosib nad yw'r rheini sydd â sgiliau lefel uwch o reidrwydd mewn swydd ar lefel uwch, gan nad ydynt yn cyd-fynd â gofynion cyflogwr yr unigolyn ac mae'n bosib nad yw'r sgiliau sydd ganddynt yn cyd-fynd â gofynion y gweithlu yn y dyfodol.

## *SGILIAU LEFEL UWCH*

Mae sgiliau uwch yn y Gogledd (NQF4 neu uwch) wedi bod yn cynyddu ers 2010 gan gyrraedd ei anterth yn 2015 ar 36.1% o'r boblogaeth oed 18-64.

Mae datblygu sgiliau yn ffactor hanfodol er mwyn cyflawni'r amcan o 'waith priodol' drwy gynyddu cynhyrchedd a chynaliadwyedd mentrau ac er mwyn gwella amodau gwaith a chyflogadwyedd gweithwyr; fodd bynnag, ni fydd datblygu sgiliau yn arwain yn awtomatig at well cynhyrchedd na mwy o swyddi gwell oni bai bod amgylchedd economaidd a chymdeithasol ffafriol i drosi gwelliannau mewn cynhyrchedd yn dwf a datblygiadau cyflogaeth.

## *PRENTISIAETHAU A HERIAU*

Yr heriau rhanbarthol o ran sgiliau a chyflogaeth yw sut i fynd i'r afael â bwlch o ran galw i olynu gweithlu yn hytrach na bwlch sgiliau. Prif heriau, nodweddion a gofynion y Gogledd yw:

a. Poblogaeth sy’n heneiddio a'r sgiliau'n diflannu yn sgil ymddeoliad.
b. Angen i uwchsgilio'r gweithlu presennol ynghyd â mwy o fannau mynediad i weithwyr iau.
c. Sicrhau bod y cyfleoedd hyfforddiant yn cyd-fynd â'r swyddi gwag - e.e. STEM, digidol
d. Gwasanaethau gyrfaoedd a chyngor a phrosiectau mawr cydgysylltiedig sydd wedi'u paratoi a'u hamserlennu er mwyn rhoi'r gwaddol mwyaf i'r rhanbarth.
e. Nid oes gan 8.2% o’r boblogaeth o oed gweithio yn y Gogledd unrhyw gymwysterau, sydd yn is na chyfartaledd cenedlaethol Cymru o 9.5 y cant.
f. Roedd 6,240 o brentisiaethau a swyddi dan hyfforddiant yn y Gogledd yn 2016/17 (o'u cymharu â 6,625 yn 2015/16).
g. Roedd 710 o brentisiaethau lefel uwch yn y Gogledd yn 2016/17 (o'u cymharu â 1,045 yn 2015/16).

## *GWYDDONIAETH, TECHNOLEG, PEIRIANNEG A MATHEMATEG (STEM)*

Mae'r Gogledd yn perfformio'n dda yn nhermau pobl ifanc mewn pynciau STEM; fodd bynnag, mae gostyngiad wedi bod yn y rheini sy'n dewis astudio'r pynciau hyn, yn benodol ymhlith merched ifanc. Hefyd, mae gostyngiad wedi bod yng nghanran y bobl ifanc sy'n llwyddo i gael graddau A*-C mewn Mathemateg (61.5%) a Gwyddoniaeth (74.4%) TGAU yn 2017; mae hyn yn ein rhoi fel rhanbarth ychydig yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru (62.5% a 75.6%).

Os ydym am ymateb yn rhanbarthol gyda gweithlu i'r dyfodol sydd â'r cymwysterau a'r sgiliau i fodloni cyfleoedd STEM ledled y rhanbarth yn y dyfodol, mae angen ymagwedd gydlynol well ledled y Gogledd, sy'n hyrwyddo amrywiaeth, cynhwysedd a dilyniant clir i'n gofynion economaidd yn y dyfodol yn seiliedig ar ofynion clir y diwydiant.

Yn ogystal â chynnydd yn y galw am sgiliau STEM, mae angen i ni weld gweithlu sy'n fwy ymwybodol o sgiliau digidol ac sy'n gymwys ynddynt. Fel ymateb i awtomeiddio cynyddol ar draws yr holl sectorau a diwydiannau, gyda dros 9,000 o swyddi penodol TG a digidol wedi'u hysbysebu ledled Cymru yn ystod 2017, mae angen i ni uwchsgilio'r gweithlu cyfredol er mwyn parhau'n dechnegol gystadleuol ac i weithlu'r dyfodol ymddangos yn dechnegol ddeniadol i gyflogwyr y dyfodol.

## *ISADEILEDD FFISEGOL*

### Isadeiledd Ffyrdd

Mae'r rhanbarth o bwysigrwydd strategol cenedlaethol gan fod porthladd Caergybi ar ei bwynt gorllewinol, sy'n brif borth i Iwerddon. Porthladd Caergybi yw pendraw ffyrdd yr A5, yr A55 a'r E22 a'r brif reilffordd o Lundain (Euston). Mae'r isadeiledd trafnidiaeth hwn yn rhychwantu'r Gogledd i gyd ac yn cysylltu Ewrop drwy'r E22 gyda'r llongau i Borthladd Dulyn.

Mae economi'r Gogledd yn dibynnu'n helaeth ar drafnidiaeth ffordd ar gyfer cysylltedd. Mae'r rhan fwyaf o'r teithiau i waith ac, mewn gwirionedd, yr holl symudiadau nwyddau, yn dibynnu ar drafnidiaeth tanwydd carbon ar y ffyrdd. Mae tagfeydd cynyddol ar ein rhwydweithiau ffyrdd sy'n arwain at amseroedd teithio uwch a diffyg gwytnwch.

Mae coridor yr A55 o bwysigrwydd allweddol i'r rhanbarth fel catalydd ar gyfer twf economaidd ehangach. Fodd bynnag, dim ond priffordd dwy lôn ydy hi, ac mae mannau cyfyng sylweddol wrth y gyffordd gyda'r A483 ger Caer, ar Goridor Glannau Dyfrdwy, rhwng Bae Colwyn ac Abergele ac ar Bont Britannia ger Bangor. Mae coridor yr A483 yn hanfodol hefyd, gan gysylltu Wrecsam â'r M54 a'r A55. Mae tagfeydd mawr yn y prif gyffyrdd gyda'r A55 a'r A5 ger y Waun, ynghyd â'r cyffyrdd canol dref sy'n gwasanaethu Wrecsam.

Mae costau tagfeydd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar fusnesau ynghyd â theithiau hir i weithwyr ac ymwelwyr â'r rhanbarth, yn llyffetheirio ein gallu i dyfu'r economi.

Er bod y Gogledd yn rhanbarth mawr ac amrywiol, nid yw'n hunangynhaliol. Mae'r Gogledd yn borth strategol i Iwerddon ac Ewrop drwy Borthladd Caergybi ar gyfer teithwyr a chludo nwyddau. Mae Porthladd Mostyn hefyd yn darparu cysylltiadau symud nwyddau ac wedi'i leoli'n agos i rwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd strategol y Gogledd Ddwyrain, ynghyd â Gogledd Orllewin Lloegr. Mae'r A55/yr A494, porthladd teithwyr Caergybi a'r brif reilffordd o Crewe i Gaergybi wedi'u dynodi'n llwybrau craidd Trafnidiaeth y Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd (TEN-T) ac mae'r llwybr rheilffordd ar gyfer cludo nwyddau, porthladd cludo nwyddau Caergybi a'r A483 wedi'u dynodi'n llwybrau cyflawn TEN-T.

Mae'r croesffyrdd rhwng y Gogledd a Gogledd Orllewin Lloegr yn cludo llif traffig cymudwyr sylweddol, ynghyd â chludo nwyddau strategol. Mae tagfeydd traffig sylweddol a diffyg gwytnwch yn ystod amseroedd prysur. O gofio pwysigrwydd cysylltedd a'r potensial am dwf, mae gwella cynllunio teithio strategol traws-ffiniol yn hanfodol.

Bydd gwella capasiti a gwella rheolaeth o'n rhwydwaith ffyrdd, lleihau tagfeydd a chynyddu gwytnwch a dibynadwyedd amseroedd teithio yn helpu i gefnogi twf economaidd, ac fe'i hystyrir yn hanfodol i ddatblygiadau cyfalaf mawr sy'n gysylltiedig â chynhyrchu ynni.

### Isadeiledd Rheilffyrdd

Nid yw'r rhwydwaith rheilffyrdd yn cefnogi twf economaidd rhanbarthol yn effeithiol. Mae llai na 1% o deithiau i'r gwaith yn cael eu gwneud ar y rheilffyrdd. Tra bod hyn yn rhannol oherwydd bod y rhwydwaith

rheilffyrdd ond yn gwasanaethu ardal yr arfordir a Wrecsam yn effeithiol, mae'r diffyg gwasanaethau rheolaidd ar rai llwybrau, prisiau uchel, trenau gorlawn a gwasanaethau nad ydynt yn mynd i safleoedd cyflogaeth oll yn ffactorau, hefyd. Ychydig iawn o fuddsoddiad mewn isadeiledd sydd wedi bod yn y blynyddoedd diweddar ac mae patrymau gwasanaeth wedi parhau'n ddi-newid gan fwyaf er gwaethaf patrymau cymudo a theithio gwahanol.

Sefydlwyd yr ymgyrch Growth Track 360 er mwyn adnabod blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi, mewn isadeiledd ac mewn gwasanaethau ychwanegol hefyd. Fe wnaeth y prosbectws www.growthtrack360.co.uk osod y sail resymegol dros fuddsoddi mewn rheilffyrdd a'r cynigion ar gyfer gwneud hynny.

Yn benodol, mae gwelliannau i gyflymder y lein ar hyd arfordir y Gogledd, gwelliannau lein Wrecsam i Bidston a gwelliannau capasiti gorsafoedd Caer a Wrecsam yn flaenoriaethau. Mae'r gweithredwr masnachfraint newydd ar gyfer Masnachfraint Cymru a'r Gororau a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a'r ymrwymiadau i gyflawni gwelliannau, yn gosod sail dda i gyflawni rhai o brif flaenoriaethau'r rhanbarth.

## Isadeiledd Trafnidiaeth Gyhoeddus

Mae trafnidiaeth teithwyr cyhoeddus yn cynrychioli rhan fach o'n cyfraniad trafnidiaeth. Mae rhwydweithiau bysiau yn lleihau gyda nifer o wasanaethau wedi dod i ben yn ddiweddar. Gall gwasanaethau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, fod yn anaml a'r teithiau'n rhai hir. Mae cyfleoedd i integreiddio dulliau trafnidiaeth yn wael iawn. Yn aml mae'r gwasanaeth bws a rheilffordd yn cystadlu gyda'i gilydd yn hytrach na chyfrannu i rwydwaith trafnidiaeth integredig. Mae diffyg darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus amgen effeithiol yn arwain at gynnydd mewn pwysau ar y rhwydwaith ffyrdd.

Yn ogystal, er mwyn ymateb i gynlluniau'r Llywodraeth i ddatgarboneiddio trafnidiaeth, mae angen cynigion arloesol i leihau dibyniaeth ar danwydd ffosil.

Bydd rhwydweithiau trafnidiaeth gwell a mwy integredig yn lleihau dibyniaeth ar y car preifat, helpu i leihau tagfeydd a chynnig mwy o ddewis i ddefnyddwyr trafnidiaeth. Caiff mynediad i gyflogaeth a gwasanaethau ei wella drwy integreiddio trafnidiaeth yn well.

## Cysylltedd Digidol

Mae'r galw am fand eang cyflym iawn a chysylltedd symudol yn y Gogledd wedi dal i fyny â'r cyflenwad. Fodd bynnag, yn hanesyddol, mae isadeiledd y rhanbarth wedi bod ar ôl gweddill y DU yn nhermau darpariaeth signal a chapasiti.

Gyda dyfodiad technoleg ffibr-optig a oedd ar gael yn fasnachol tuag at ddiwedd yr 20fed ganrif, mae potensial i ehangu'r 'bwlch digidol' gynyddu'n gyflym lle gall y gwahaniaeth mewn lled band fforddiadwy bellach fod yn gannoedd o Megabeits yr eiliad o'i gymharu â rhanbarthau eraill (e.e. 4.9% o eiddo yn Sir Ddinbych sydd ag argaeledd cyflym iawn ar >100Mbps o gymharu â 49% yng Ngogledd Orllewin Lloegr).

**Mae pob un o'r pedair sir yn y Gorllewin yn dod yn 25% isaf ardaloedd y DU ar gyfer darpariaeth banad eang Cyflym Iawn (>30Mbps).**

## Tai

Mae gan y Rhanbarth farchnad dai amrywiol, gyda gweithgaredd yr adeiladwyr mawr wedi'i gyfyngu i'r dwyrain yn bennaf. Tra bod ychydig o ardaloedd yn medru ymdopi heb unrhyw ymyrraeth gan y sector cyhoeddus i gyflawni adeiladu tai prif-ffrwd ar raddfa fawr, mae'r rhan fwyaf o ardaloedd yn wynebu amodau marchnad heriol ac mae arnynt angen mecanweithiau i ysgogi cyflawni.

Mae lefelau cwblhau tai ledled y rhanbarth ar eu hisaf yn hanesyddol, er gwaethaf y ddarpariaeth a ragamcanir ar gyfer dynodiadau tai mewn Cynlluniau Datblygu Lleol yn amrywio o 37,500 i 44,100 (2500-3000 o dai yn flynyddol). Hyd heddiw, mae 13,100 o anheddau wedi'u cwblhau (ffigyrau 2015), gyda'r rhan fwyaf yn ardal Sir y Fflint a Wrecsam.

Nid yw adeiladu tai yng Nghymru yn dal i fyny â'r galw, gyda rhagamcanion aelwydydd Llywodraeth Cymru yn dangos angen am 8,500 o gartrefi newydd y flwyddyn yng Nghymru rhwng 2011 a 2031. Mae'r ffigyrau diweddaraf yn dangos diffyg cyfredol o dros 2,600 y flwyddyn.

Yn ogystal, mae dadansoddiad data yn dangos bod prinder o dir sydd ar gael yn llwyr i ddatblygiadau busnes mewn rhannau o'r rhanbarth.

**Yng ngoleuni'r data uchod, rydym wedi adnabod yr heriau a ganlyn sy'n wynebu economi'r Gogledd heddiw. Bydd angen mynd i'r afael â'r heriau hyn:**

**GOGLEDD CYMRU HEDDIW - YR HERIAU**

1. Er gwaethaf y cynnydd mewn GVA yn y rhanbarth, mae amrywiaeth eang mewn GVA y pen rhwng gorllewin a dwyrain y rhanbarth. Mae GVA yn y Gogledd yn parhau'n gyson is na chyfartaledd y DU.

2. Er bod lefelau cyflogaeth a diweithdra yn gwella, mae'r twf mewn sectorau 'Gwerth Uchel' yn yr economi wedi bod yn gyfnewidiol dros y pum mlynedd diwethaf, gyda gostyngiad mewn twf yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn yn her os ydym am wella cynhyrchedd a natur gystadleuol y rhanbarth.

3. Mae rhai rhannau o'r rhanbarth yn ddibynnol ar sectorau/cyflogaeth sy'n derbyn tâl isel yn draddodiadol. Gall gorddibyniaeth ar y sector cyhoeddus mewn rhai ardaloedd gael effaith negyddol, yn enwedig o ystyried yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

4. Er bod y rhanbarth wedi gweld gwelliant mewn ffigyrau cyflogaeth a diweithdra, nid yw'r cyfraddau anweithgarwch economaidd wedi gwella ac maent yn parhau'n uwch na chyfartaledd y DU.

5. Mae enillion cyfartalog aelwydydd yn is na chyfartaledd Cymru a'r DU, gyda rhai Awdurdodau Lleol yn y Gorllewin ymhlith yr isaf yng Nghymru a'r DU.

6. Mae 94.3% o'r mentrau yn y Gogledd yn y band maint dim i 'micro' (0-9 o weithwyr). Mae hyn yn arwydd o ddibyniaeth ar fusnesau bach a 'micro' yn y rhanbarth.

7. Mae prinder mentrau mwy yn enwedig yn siroedd y Gogledd Orllewin ynghyd â heriau ynghylch tyfu busnesau y tu hwnt i feintiau 'micro', bach a chanolig.

8. Mae Cysylltedd Digidol annigonol ledled y rhanbarth yn parhau i fod yn her i fentrau ac unigolion, gydag isadeiledd ar ôl gweddill y DU yn nhermau darpariaeth signal a chapasiti.

9. Mae cysylltiadau trafnidiaeth ac isadeiledd ffisegol yn cyfyngu symudiad a mynediad parod i'r prif ganolfannau cyflogaeth.

10. Mae lefelau cwblhau tai ledled y rhanbarth ar eu hisaf erioed, ac nid yw adeiladu tai yn dal i fyny â'r galw.

11. Lefelau Sgiliau - nid oes gan y gweithlu cyfredol y sgiliau uwch na'r sgiliau cywir sydd eu hangen i'r economi sy'n tyfu. Nid oes llawer o ddiddordeb mewn pynciau STEM/digidol.

12. Mae gennym boblogaeth sy'n heneiddio ledled y rhanbarth a thraddodiad o ddoniau yn symud allan o'r rhanbarth. Mae buddsoddi yn y sgiliau sy'n cyd-fynd ag anghenion cyfleoedd cyflogaeth newydd y rhanbarth yn sylfaenol i iechyd economaidd yr ardal yn y dyfodol.

## RHAN 3 - Y CYD-DESTUN STRATEGOL A CHYD-FYND Â PHOLISI'R LLYWODRAETHAU

Mae ystyriaeth wedi'i rhoi i "Strategaeth Ddiwydiannol" Llywodraeth y DU a "Chynllun Gweithredu Economaidd" Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu ein hymagwedd yn y rhanbarth.

### *Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU*

Mae Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU yn pwysleisio pwysigrwydd pum sail cynhyrchedd - sef syniadau, pobl, isadeiledd, amgylchedd busnes a llefydd. Yn ogystal, mae'n adnabod y "Prif Heriau" sydd o flaen y Llywodraeth a'r economi ehangach, yn cynnwys yr angen i roi'r DU ar flaen y chwyldro data a deallusrwydd artiffisial, gan wneud y gorau o'r manteision i ddiwydiant yn y DU yn sgil y newid byd-eang i dwf glân, a harneisio pŵer arloesedd i helpu i fodloni anghenion cymdeithas sy'n heneiddio.

Yn ogystal, mae'r Strategaeth yn nodi'r trefniadau partneriaeth rhwng y Llywodraeth a diwydiant ar faterion penodol i sectorau (Bargeinion Sector) er mwyn creu cyfleoedd sylweddol i roi hwb i gynhyrchedd, cyflogaeth, arloesedd a sgiliau. Yn ddiweddar, mae hyn wedi golygu bod sectorau penodol wedi dod ynghyd dan arweinyddiaeth glir a negodi Bargeinion Sector gyda'r Llywodraeth i roi hwb i gynhyrchedd a chyflogaeth o fewn y sector penodol hwnnw. Mae Cynlluniau Sector yn eu lle ar gyfer Gwyddor Byw, Adeiladwaith, Deallusrwydd Artiffisial a'r Sector Awtomatiaeth, gyda'r Diwydiannau Creadigol, Digideiddio Diwydiannol a Niwclear mewn trafodaethau datblygedig.

Mae ei Strategaeth yn hyrwyddo ymagwedd "ranbarthol" i ddatblygu'r economi hefyd, gan nodi y bydd y Llywodraeth yn "gweithio mewn partneriaeth" gydag arweinyddion lleol i yrru cynhyrchedd. Anogir cydweithio i roi sylw i heriau a rennir; ac mae ymrwymiad i adeiladu ar yr "ymagweddau arloesol" sydd wedi'u sicrhau drwy Gynlluniau Dinasoedd a Chynlluniau Twf.

### *Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru*

Mae Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru yn pwysleisio'r angen i dyfu'r economi'n gynhwysol, gan ledaenu cyfleoedd a hyrwyddo llesiant. Mae'n diffinio ei ymagwedd fel sicrhau "dosbarthiad tecach o fuddion twf economaidd - ar lefel unigol a rhwng gwahanol rannau o Gymru". Mae'r Cynllun wedi'i ddylanwadu gan egwyddorion buddsoddi cyhoeddus gyda phwrpas cymdeithasol, symleiddio, llais rhanbarthol cryfach a ffocws ar yr hirdymor.

Yn ogystal, mae'r Cynllun yn nodi ymagwedd newydd - gan symud oddi wrth ymagwedd "sectorol" i ganolbwyntio'n fwy ar gefnogi busnesau i gymryd mantais ar rymoedd newydd megis datgarboneiddio, awtomeiddio, deallusrwydd artiffisial a ffurfiau eraill ar ddigideiddio.

Yn ogystal, mae'n cadarnhau rôl allweddol y sectorau sylfaen megis gofal, twristiaeth, bwyd a manwerthu - ac yn gosod modelau newydd o gefnogaeth a phartneriaeth yn yr ardaloedd hyn.

Bydd y cynigion sydd wedi'u cynnwys o fewn y Ddogfen Gynnig yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau Llywodraethau'r DU a Chymru yng nghyswllt datblygiad economaidd. Yn ogystal, bydd yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiwygio a moderneiddio llywodraeth leol drwy gydweithio rhanbarthol strategol a modelau gwasanaeth integredig. Bydd gennym "gynnig rhanbarthol" cryf, gan adeiladu ar ein cryfderau a'n hasedau unigryw, a bydd ein hymagwedd - fel sydd wedi'i amlygu yn y Ddogfen Gynnig hon - yn cyfrannu'n sylweddol i gyflawni polisïau cenedlaethol ar lefel ranbarthol.

## *Cyd-fynd â Strategaethau Allweddol eraill*

Hefyd, rydym wedi sicrhau ein bod yn cyd-fynd â'r strategaethau ar gyfer Pwerdy'r Gogledd ac ardal agosaf Gogledd Orllewin Lloegr, yn benodol strategaeth Cynghrair Merswy a'r Ddyfrdwy a Phartneriaeth Menter Leol Swydd Gaer a Warrington.

Mae Prosbectws Merswy Dyfrdwy (2017) yn benodol berthnasol, gyda'r ffocws ar yr ardal draws-ffiniol yn cynnwys y Gogledd Ddwyrain ynghyd â Gorllewin Swydd Caer a'r Wirral. Mae hon yn ardal economaidd ddeinamig iawn, gyda phoblogaeth o bron i filiwn o bobl ac economi cryf ac amrywiol sy'n cynnwys y sectorau awyrofod, awtomatiaeth, niwclear, ynni adnewyddadwy, peirianneg a manwerthu.

Yn ogystal, bydd perthynas agos â strategaethau sy'n cefnogi cysylltedd ag economi Iwerddon, a bydd sicrhau synergedd agos â'r cynlluniau economaidd newydd sy'n cael eu cydlynu gan Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a Fforwm Gwledig Cymru yn flaenoriaeth allweddol.

Mae'r Ddogfen Gynnig yn gyd-ddibynnol ar gyflawni strategaethau allweddol eraill hefyd, megis Growth Track 360 ar gyfer buddsoddi mewn rheilffyrdd, rhaglen cefnffyrdd Llywodraeth Cymru fel sydd wedi'i nodi yn Strategaeth Symud Gogledd Cymru Ymlaen (2017), a Bargeinion Sector Diwydiannau'r DU. Caiff y strategaethau hyn eu cefnogi law yn llaw â'r ddogfen hon ond gyda phrosesau gwneud penderfyniadau a chyllidebau sydd ar wahân.

Mae'n werth amlygu hefyd bod nifer o brosiectau strategol ar y gweill yn y Gogledd y bydd y Ddogfen Gynnig yn adeiladu arnynt. Mae'r prosiectau hyn eisoes wedi'u hariannu ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y Ddogfen Gynnig am gefnogaeth newydd. Y prif enghreifftiau yw Sefydliad Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Glannau Dyfrdwy, Uned Hybu Busnes Wrecsam, M-Sparc ar Ynys Môn a nifer o gynlluniau gwella rheilffyrdd strategol (gwelliannau i'r A494, yr A483 a'r A55 ynghyd â'r drydedd bont dros y Fenai).

Y prosiect amlycaf a gaiff ei ddatblygu yn y rhanbarth dros y 10 mlynedd nesaf yw Prosiect Wylfa Newydd ar Ynys Môn. Bydd y prosiect, sydd werth £15bn, yn symbylu cyfleoedd mawr i'r cadwyni cyflenwi lleol a rhanbarthol. Mae potensial i'r cyfnod adeiladu greu 9,000 o swyddi a bydd y cyfnod gweithredol yn cyflawni 850 o swyddi hir-dymor ar gyflogau da. Yn ogystal, bydd nifer o ddatblygiadau rhyng-ddibynnol a chysylltiedig i'r prosiect, yn cynnwys parcio a theithio, llety gweithwyr/campws y safle, canolfan logisteg, gwelliannau i briffyrdd a chyfleusterau eraill.

Bydd cyfuniad o'r prosiectau strategol hyn, ynghyd â datblygu'r prosiect Wylfa Newydd sydd wrth £15bn, a'r prosiectau arloesol sydd o fewn y Ddogfen Gynnig hon, yn prysuro twf sectorau economaidd gwerth uchel i gynyddu eu gallu i gystadlu. Yn ogystal, byddant yn dangos sut all rhanbarth y Gogledd gyfrannu'n llwyddiannus i gyflawni Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU a Chynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru.

Ymhellach, mae cyhoeddi'r Fargen Sector Niwclear, gyda chyfeiriadau penodol at y Cyfleuster Arbrofol Hydroleg Thermol Cenedlaethol (o bwysigrwydd rhyngwladol), i'w leoli yn y Gogledd ym Mharc Gwyddoniaeth Menai, a'r gefnogaeth i SMRs a Thechnolegau Niwclear Datblygedig, yn benodol yn Nhrawsfynydd, yn hynod arwyddocaol i'r rhanbarth.

Yn ddiweddar, cyflwynodd Consortiwm Bwa Niwclear y Gogledd Orllewin, dan arweiniad Prifysgol Bangor a chyda phartneriaid o Brifysgol Manceinion a NNL, Archwiliad Gwyddoniaeth ac Arloesedd drafft i BEIS ar gyfer y Bwa, sy'n ymestyn o Cumbria yr holl ffordd i'r Gogledd Orllewin. Mae'r Consortiwm wedi gwneud argymhellion ac wedi cefnogi sefydlu 'Partneriaethau Arloesedd' ar gyfer Cumbria a'r Gogledd Orllewin ill dau, gydag 'ardaloedd canolog' craidd y 'ddaearyddiaeth' hon yn cefnogi'r potensial am dwf economaidd yn y sector niwclear ar gyfer y DU ac allforion rhyngwladol.

## RHAN 4 - ARFARNU'R OPSIYNAU A'R FFORDD YMLAEN A FFEFRIR

Ystyriwyd a gwerthuswyd nifer o opsiynau strategol realistig a chyraeddadwy er mwyn mynd i'r afael â heriau economaidd y rhanbarth.

Mae'r rhain wedi'u rhestru isod:

- **"Y newid lleiaf"**

  Byddai hyn golygu dilyn yr un hen drefn heb fawr ddim arloesedd nac uchelgais. Byddai gwahanol flaenoriaethau ac agendau yn llyffetheirio cyfleoedd, ac ni fyddai sefydliadau a rhanddeiliaid yn rhannu unrhyw amcanion. Byddai lefelau cynhyrchedd yn parhau i fod ar ôl gweddill y DU.

- **Canolbwyntio'n llwyr ar sectorau economaidd allweddol**

  Byddai'r ymagwedd hon yn sicr o wella lefelau cynhyrchedd yn economi'r rhanbarth, ond mae peryg iddi eithrio rhan helaeth o'r farchnad lafur. Mae datblygiadau gyda datgarboneiddio ac awtomeiddio yn trawsffurfio diwydiannau ac yn gyrru trefnau cydweithio newydd ar draws sectorau yn gynyddol.

- **Canolbwyntio'n fwy ar yr economi sylfaen, yn benodol y sectorau gofal, twristiaeth a manwerthu**

  Byddai hyn yn cefnogi asgwrn cefn yr economi lleol yn y rhanbarth, a byddai'n helpu mentrau bychain a bregus sydd wedi'u gwreiddio mewn cymunedau lleol i gynyddu eu cynhyrchedd. Fodd bynnag, mae peryg na fyddai ymagwedd o'r fath yn cynhyrchu'r lefelau twf y byddai eu hangen yn yr economi – ac, yn ogystal, byddai pryderon ynghylch ansawdd y cyfleoedd cyflogaeth ledled y rhanbarth.

- **Canolbwyntio'n fwy ar ardaloedd sy'n cynnig cyfleoedd lle mae'r sector preifat eisoes yn gryf – megis yr ardaloedd Trawsffiniol**

  Yn sicr, byddai'r opsiwn hwn yn cyflawni twf economaidd ac yn gwella cynhyrchedd – ond mae peryg i or-grynhoi mewn un ardal benodol ar draul ardaloedd eraill yn y rhanbarth.

- **Canolbwyntio ar dwf y gellir ei ymestyn a'i wasgaru ledled y rhanbarth i gyflawni twf economaidd cynaliadwy, cytbwys a chynhwysol**

  Byddai hyn hefyd yn canolbwyntio ar fanteisio i'r eithaf ar lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel, megis gweithgynhyrchu uwch ac ynni, a'n cyswllt ag economïau Pwerdy'r Gogledd ac Iwerddon. Byddai'r ymagwedd hon yn datblygu economi mwy cytbwys ac yn cyflawni twf cynhwysol fel y gellir mynd i'r afael ag unrhyw anghysonderau. Byddai'n arwain at ddosbarthiad tecach o fuddion twf economaidd – ar lefel unigol a rhwng gwahanol rannau o'r rhanbarth. Hefyd, bydd yn creu'r hinsawdd i roi hwb i gynhyrchedd ledled y rhanbarth a gwneud y gorau o gyfleoedd i'r farchnad lafur.

Mabwysiadwyd matrics gwerthuso strategol er mwyn adnabod yr ymagwedd fwyaf cynaliadwy i'r Gogledd. Roedd y ffactorau a ddefnyddiwyd i werthuso'r opsiynau a phennu beth fyddai'r ymagwedd strategol orau yn cynnwys:

- **Tegwch** – bod yr ymagwedd yn sicrhau bod y manteision yn cael effaith gadarnhaol ar gynifer o gymunedau â phosib yn y rhanbarth.
- **Ychwanegu gwerth** – bod yr ymagwedd yn canolbwyntio ar ddychweliadau gwerth uchel.
- **Yn addas yn strategol** – bod yr ymagwedd yn cyd-fynd â strategaethau diwydiannol ac economaidd Cymru a'r DU sy'n berthnasol.

- **Buddsoddiad Sector Preifat** - y byddai angen i'r ymagwedd apelio'n eang i'r sector preifat – yn nhermau cefnogaeth a buddsoddiad anuniongyrchol posib hefyd.

| **Gweithred** | **Tegwch** | **Ychwanegu gwerth** | **Yn addas yn strategol** | **Diddordeb y sector preifat** |
|---|---|---|---|---|
| Gwneud dim / Isafswm | × | × | × | × |
| Canolbwyntio'n llwyr ar sectorau economaidd allweddol | × | ✓ | ✓ | ✓ |
| Canolbwyntio'n fwy ar yr economi sylfaen, yn benodol y sectorau gofal, twristiaeth a manwerthu | ✓ | × | ✓ | × |
| Canolbwyntio'n fwy ar ardaloedd sy'n cynnig cyfleoedd lle mae'r sector preifat eisoes yn gryf – megis yr ardaloedd Trawsffiniol | × | ✓ | ✓ | ✓ |
| Canolbwyntio ar dwf y gellir ei ymestyn a'i wasgaru ledled y rhanbarth i gyflawni twf economaidd cynaliadwy, cytbwys a chynhwysol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Roedd y gwerthusiad opsiynau strategol yn derfynol yn nhermau sefydlu mai'r ymagwedd a ffafriwyd oedd:

**"Canolbwyntio ar dwf y gellir ei ymestyn a'i wasgaru ledled y rhanbarth i gyflawni twf economaidd cynaliadwy, cytbwys a chynhwysol".**

## RHAN 5 - Y WELEDIGAETH TWF

### *Trosolwg*

Mae'r Ddogfen Gynnig hon yn cael ei datblygu i gefnogi "Gweledigaeth Twf" i Economi'r Gogledd – a fabwysiadwyd gan yr holl bartneriaid strategol ym mis Gorffennaf 2016. Hwn fydd y mecanwaith/cerbyd i ysgogi buddsoddiad ac adnoddau sector cyhoeddus a phreifat ychwanegol i gyflawni pecyn cyffrous o fesurau ac ymyraethau a fydd yn cyflawni newid trawsffurfiol a chadarnhaol.

### *Gweledigaeth Twf*

Mae gennym un weledigaeth gydgysylltiedig ar gyfer twf economaidd a chyflogaeth i'r Gogledd. Caiff ei chyflawni drwy gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth, gydag ymglymiad cryf gan y sector preifat ac ymagwedd "Tîm Gogledd Cymru", gan adeiladu perthnasau economaidd agos gydag ardaloedd cyfagos.

Mae cydberchnogaeth o'r Weledigaeth ymysg y prif randdeiliaid ar draws y gwahanol sectorau ac mae'n nodi fframwaith clir i ddatblygu ymyraethau strategol.

Bydd cyflawni'r Weledigaeth yn dangos yn glir sut mae'r Gogledd yn cyfrannu at flaenoriaethau'r Strategaeth Ddiwydiannol a Chynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru.

Y Weledigaeth sydd wedi'i mabwysiadu yw datblygu "rhanbarth hyderus, cydlynol sydd â thwf economaidd cynaliadwy, sy'n elwa i'r eithaf o lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a'n cysylltiad ag economïau Pwerdy'r Gogledd ac Iwerddon."

Fel rhanbarth, byddwn wedi'n lleoli fel un o brif leoliadau'r DU ar gyfer **cynhyrchu ynni a buddsoddiadau yn y gadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig ag ynni**, gydag arbenigedd mewn technolegau a phrosesau carbon isel.

Fel rhanbarth, byddwn yn manteisio i'r eithaf ar y rhwydwaith cryf o gwmnïau angori sydd â phroffil rhyngwladol i adeiladu **clwstwr gweithgynhyrchu uwch** – un a fydd yn hynod gystadleuol ar lwyfan rhyngwladol.

Fel rhanbarth, byddwn yn dod yn **ganolbwynt o arloesedd ac arbenigedd technoleg** ac yn arweinydd mewn datblygu clystyrau o fusnesau digidol. Byddwn yn rhoi'r rhanbarth ym mlaen y chwyldro data a deallusrwydd artiffisial.

Byddwn yn datblygu ac yn lledaenu enw da'r Gogledd fel **canolfan ragoriaeth ar gyfer twristiaeth gwerth uchel**, gan adeiladu ar fuddsoddiadau diweddar a phortffolio cynyddol o atyniadau sy'n denu pobl o bedwar ban byd drwy gydol y flwyddyn. Bydd hyn yn cyfrannu at apêl y rhanbarth fel cyrchfan a lle i fuddsoddi ynddo. Byddwn yn "brif leoliad antur" y DU.


Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a grëir gan fuddsoddiadau sylweddol gan y sector preifat, yn bennaf oll Wylfa Newydd ar Ynys Môn, un o'r buddsoddiadau sector preifat cyfoes mwyaf yn y DU. Bydd hwn yn fuddsoddiad uniongyrchol o £15 biliwn i'r rhanbarth, a bydd yn drawsffurfiol wrth gynyddu cyflogaeth ansawdd uchel a chyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi. Caiff dros 850 o swyddi eu creu pan fydd yr Orsaf yn weithredol, a hyd at 9,000 o swyddi adeiladu.

Gyda'r symbyliad o fuddsoddiad gan y sector cyhoeddus a phreifat, bydd y Gogledd yn dod yn economi carbon isel, technoleg uwch gydag isadeiledd o safon uchel, sail sgiliau gynaliadwy a chefnogaeth busnes ymatebol i gynnal a thyfu busnesau cynaliadwy mewn sectorau sy'n gystadleuol yn rhyngwladol. Byddwn yn gwneud y gorau o'r manteision i ddiwydiant yn y rhanbarth o'r symudiad byd-eang i dwf glân. A gallwn fod yn batrwm o "ranbarth carbon isel".

## *Tri Nod*

Seiliwyd y Weledigaeth Twf ar dri Nod allweddol:

- **Gogledd Cymru Flaengar** - gan ganolbwyntio ar arloesedd mewn sectorau economaidd gwerth uchel i symud perfformiad economaidd ymlaen.
- **Gogledd Cymru Wydn** - gan ganolbwyntio ar gadw pobl ifanc, codi lefelau cyflogaeth a gwella sgiliau er mwyn cyflawni twf cynhwysol.
- **Gogledd Cymru Gysylltiedig** - gan ganolbwyntio ar wella isadeiledd trafnidiaeth a digidol er mwyn gwella cysylltedd strategol i'r rhanbarth ac o'i fewn.




## Gogledd Cymru Flaengar:

**Gan ganolbwyntio ar arloesedd mewn sectorau allweddol i symud perfformiad economaidd ymlaen. Byddwn yn gwneud mwy i:**

- Ddal gwerth o'n gwyddoniaeth, ein hymchwil a'n creadigrwydd a chefnogi arloesedd sy'n gyrru ein cynhyrchedd.
- Mynd i'r afael â rhwystrau sy'n effeithio ar gydweithio a llif gwybodaeth rhwng ymchwil a diwydiant.
- Gwella mynediad i gyfalaf a sicrhau bod cefnogaeth a chyngor busnes wedi'i gydlynu a'i ddarparu'n dda, yn enwedig yn sgil y "grymoedd newydd" sy'n effeithio ar fusnesau megis datgarboneiddio, awtomeiddio, deallusrwydd artiffisial a ffurfiau eraill o ddigideiddio.
- Cyflawni safleoedd ac eiddo o ansawdd uchel ledled y rhanbarth i ddarparu ar gyfer ehangu, arallgyfeirio ac arloesedd yn y sail fusnes, yn benodol yn y sectorau gweithgynhyrchu uwch a thwristiaeth antur.
- Chwarae rôl arweiniol wrth ddarparu'r technolegau, yr arloesedd a'r gwasanaethau carbon isel wrth wneud y gorau o'r cyfleoedd a ddaw o’r symudiad byd-eang i "dwf glân".

## Gogledd Cymru Wydn:

**Cadw pobl ifanc, codi lefelau cyflogaeth a gwella sgiliau. Byddwn yn gwneud mwy i:**

- Wreiddio diwylliant o ddysgu ar hyd gyrfaoedd, er mwyn rhoi cyfle i bobl addasu, dysgu sgiliau newydd a chynyddu eu grym ennill.
- Lleihau nifer yr aelwydydd di-waith a chael gwared ar y rhwystrau y mae gweithwyr yn eu hwynebu i gael mynediad i swyddi da.
- Ysbrydoli pobl ifanc i gael mynediad i gyfleoedd a gyrfaoedd cyffrous yn y rhanbarth, a byddwn yn arfogi pobl ar gyfer y swyddi sydd wedi'u siapio gan dechnoleg y genhedlaeth nesaf, gan gynyddu sgiliau digidol.
- Sicrhau bod gan bobl a busnesau fynediad cydlynol a chydgysylltiedig i gefnogaeth a chyngor sgiliau a chyflogaeth yn y rhanbarth.
- Sicrhau bod cyflenwad digonol o dai yn y rhanbarth, yn enwedig rhai fforddiadwy, i gefnogi twf cyflogaeth ac anghenion cymunedau.

## Gogledd Cymru Gysylltiedig:

**Gwella isadeiledd trafnidiaeth a digidol er mwyn gwella cysylltedd i'r rhanbarth ac o'i fewn. Byddwn yn gwneud mwy i:**

- Gynllunio a chyflawni ymagwedd strategol i'n buddsoddiadau, gan sicrhau eu bod wedi'u targedu'n dda er mwyn gyrru datblygiad yr economi a thwf mewn cyflogaeth.
- Diweddaru rhwydweithiau ac isadeiledd digidol ledled y rhanbarth, gyda ffocws ar fand-eang ffibr llawn, rhwydweithiau 5G newydd a thechnolegau clyfar.
- Lleihau a mynd i'r afael â thagfeydd traffig ar lwybrau ffyrdd strategol ledled y rhanbarth.
- Datblygu canolbwyntiau trafnidiaeth integredig a chyflawni datrysiadau trafnidiaeth carbon isel.

## *Naw Rhaglen Strategol*

Rydym wedi adnabod naw Rhaglen Strategol. Mae'r Rhaglenni hyn wedi'u diffinio fel grŵp o Brosiectau cysylltiedig sydd wedi'u rheoli mewn ffordd gydlynol i sicrhau buddion a chyflawni'r Weledigaeth a'r Nodau cyffredinol.

Mae'r Rhaglenni wedi'u rhestru isod:

- **Datblygu Tir ac Eiddo**

  Mynd i'r afael â'r prinder tir ac eiddo addas i fusnesau allu tyfu a chyflwyno safleoedd ar gyfer datblygiadau tai.

- **Mynediad Blaengar i Ynni**

  Cyflawni'r gwelliannau isadeiledd y mae eu hangen fel bod y Gogledd yn un o leoliadau arweiniol yn y DU ar gyfer cynhyrchu ynni, gan adeiladu'n benodol ar Brosiect Pŵer Niwclear Wylfa Newydd.

- **Twristiaeth Antur**

  Galluogi buddsoddiad pellach mewn atyniadau twristiaeth antur yn y rhanbarth, gan gynyddu eu gwerth i'r economi rhanbarthol.

- **Canolbwynt Technoleg ac Arloesedd Blaengar**

Cyflawni adnoddau o safon fyd-eang mewn cyfleusterau sy'n arwain y sector, megis ynni carbon isel ac uwch gynhyrchu, gan adeiladu ar arbenigedd yn y rhanbarth a sbarduno effaith economaidd o ymchwil a thechnoleg.

- **Cronfa a Chanolbwynt Twf Busnes Rhanbarthol**

  Darparu cyngor a chefnogaeth ariannol a thechnegol a chydlynol i fusnesau ledled y rhanbarth.

- **Llwybrau i Sgiliau a Chyflogaeth**

  Mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd a chyflawni gwasanaeth cyngor a chefnogaeth sgiliau a chyflogaeth cydlynol, yn benodol i uwch-sgilio pobl ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

- **Canolfannau Rhagoriaeth Sgiliau**


  Creu'r amgylchiadau i gynyddu cyflenwad sgiliau mewn sectorau twf allweddol, gan ganolbwyntio ar wella'r isadeiledd sgiliau yn y rhanbarth.

- **Cysylltedd Digidol**

  Cyflawni mynediad safonol i gysylltedd digidol effeithiol a fforddiadwy i fusnesau ac aelwydydd ledled y rhanbarth, gwella arloesedd mewn signalu digidol a gwella sgiliau digidol.

- **Trafnidiaeth Strategol**

  Gwella isadeiledd trafnidiaeth lleol i gefnogi hygyrchedd a chysylltedd.




Mae partneriaeth eang o bobl, sefydliadau a busnesau sydd oll yn rhannu balchder mewn ardal sydd ag asedau, heriau a chyfleoedd unigryw, ynghyd ag uchelgais ar gyfer yr ardal honno, wedi datblygu a chytuno ar y Weledigaeth, y Nodau a'r Rhaglenni Strategol.

Mae ffocws ein hymagwedd ar greu'r amodau priodol er mwyn i glystyrau economaidd gwerth uchel megis ynni, gweithgynhyrchu uwch a'r sector digidol ffynnu ac er mwyn rhoi hwb i'w cyfraniad i berfformiad yr economi yng Nghymru a'r DU.

Cyflawnir hyn drwy adeiladu ar gryfderau'r sail fusnes bresennol a dod dros unrhyw rwystrau a heriau drwy gyflawni pecyn o Brosiectau y mae eu hangen er mwyn trawsffurfio cyfleoedd i bobl a busnesau.

Yn naturiol, mae cynyddu cynhyrchedd yn nod allweddol. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni hyn yn llwyddiannus, a chael economi mwy cytbwys, bydd angen buddsoddiad hirdymor er mwyn mynd i'r afael â heriau hirdymor, yn benodol ym meysydd trafnidiaeth, sgiliau a chyflogaeth, cefnogi busnes, safleoedd ac eiddo penodol ac anghenion tai.

Mae'r angen i gyflawni twf mewn ffordd gynhwysol, integredig ac addas wedi'i adnabod - yn enwedig wrth gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd ein hymagwedd yn mynd i'r afael â'r nodau llesiant, gyda'r holl gyrff cyhoeddus perthnasol yn gweithio ar y cyd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y Gogledd.

### *Deilliannau Strategol*

Bydd yr amcanion strategol a gaiff eu cyflawni drwy'r ymagwedd hon yn cynnwys yr isod:

- Twf mewn ffyniant rhanbarthol.
- Creu swyddi o ansawdd gwell ar gyfer y farchnad lafur leol.
- Gweithlu mwy medrus o fewn y rhanbarth.
- Gwelliannau mewn safonau byw ledled y rhanbarth.

| Deilliannau Strategol a Dangosyddion | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | Cyfeiriad Dyfodol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Twf mewn Ffyniant Rhanbarthol** | | | | | | | |
| Twf GVA | 10,723 | 11,160 | 11,812 | 12,357 | 12,402 | 12,822 | ↑ |
| GVA y pen yn y Gogledd fel % o'r DU (heb gynnwys Llundain a De Ddwyrain Lloegr) | 82% | 84% | 87% | 88% | 85% | 86% | ↑ |
| Twf GVA wedi'i ledaenu ledled chwe Sir y Gogledd | 9.6% | 5.5% | 5.0% | 12.3% | 3.1% | 5.5% | ↓ |
| Twf GVA yn y sector economaidd gwerth uchel (twf GVA mewn gweithgynhyrchu, gwybodaeth a chyfathrebu a gweithgareddau technegol) | 0.1% | 4.8% | 4.0% | 7.8% | -0.3% | 2.0% | ↑ |
| **Creu Swyddi o Ansawdd Gwell** | | | | | | | |
| Twf Cyflogaeth | -0.9% | 1.4% | 3.6% | -0.3% | 0.4% | 1.1% | ↑ |
| Lledaenu Twf Cyflogaeth ledled chwe Sir y Gogledd | 7.2% | 8.2% | 8.1% | 7.4% | 13.2% | 12.9% | ↓ |
| Twf Economaidd mewn sectorau economaidd gwerth uchel | -1.5% | 1.8% | 0.1% | 6.2% | 5.8% | -2.6% | ↑ |
| **Gweithlu Mwy Medrus o fewn y Rhanbarth** | | | | | | | |
| Cynnydd yn y cyfran o'r boblogaeth sydd â chymwysterau (NQF 4) | 29.7% | 30.4% | 32.2% | 33.5% | 35.2% | 36.1% | ↑ |
| Cynnydd yn y prentisiaethau lefel uwch fel cyfran o gyfanswm cyflogaeth | - | - | - | - | 1,335 | 1,885 | ↑ |
| Cynnydd yn y prentisiaethau 16-24 fel cyfran o gyfanswm cyflogaeth | - | - | - | - | 5,100 | 5,155 | ↑ |
| **Gwelliannau mewn Safonau Byw ledled y Rhanbarth** | | | | | | | |
| Gostwng cyfran yr aelwydydd heb waith | 19.9% | 19.7% | 18.7% | 17.6% | 18.7% | 17.4% | ↓ |
| Gwella fforddiadwyedd (canolrif prisiau tai / canolrif incwm) | 6.08 | 5.99 | 5.91 | 5.55 | 5.64 | 5.84 | ↓ |
| Cynnydd mewn canolrif incwm aelwydydd (£) | £22,813 | £22,602 | £23,297 | £24,362 | £24,478 | £24,823 | ↑ |

## RHAN 6 - Y RHESTR O BROSIECTAU

Mae'r Prosiectau y gofynnir am fuddsoddiad ar eu cyfer wedi'u cynnwys yn yr adran hon. Maent oll yn rhai strategol a bydd eu cyflawni yn trawsffurfio perfformiad a chyfleoedd ledled y rhanbarth. Maent wedi'u datblygu yng nghyd-destun ein Gweledigaeth a'n Nodau, ac maent wedi'u cyflwyno o fewn y Rhaglenni Strategol.

Mae'r Prosiectau'n rhyng-gysylltiedig ac yn gyd-ddibynnol. Maent oll wedi'u profi yn nhermau bod yn addas yn strategol, eu bod yn gwireddu gwerth am arian, eu bod yn fasnachol gynaliadwy, bod y gallu i'w cyflawni yn bodoli a bod cefnogaeth ac ymrwymiad gan y bartneriaeth.

Cawsant eu dylunio a'u datblygu drwy weithio mewn partneriaeth a chyd-gynhyrchu ymhlith partneriaid o'r sectorau cyhoeddus, addysg uwch, addysg bellach ac yn benodol y sector preifat yn y rhanbarth.

Mae'r Rhestr o Brosiectau yn cynnwys cymysgedd o ddatrysiadau sydd:

- Wedi'u targedu'n ofodol
- Yn berthnasol i'r rhanbarth cyfan
- Yn hwyluswyr e.e. trafnidiaeth, tai
- Yn cefnogi twf ac yn denu buddsoddiad o'r sector preifat
- Yn hyrwyddo arloesedd

Rhennir buddion y buddsoddiad er mwyn cefnogi twf cynaliadwy a chynhwysol ledled y rhanbarth - yn unol â'n Gweledigaeth ynghyd â blaenoriaethau Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rhaid pwysleisio bod hon yn rhestr hir o brosiectau - a chaiff y Rhestr o Brosiectau ei diweddaru a'i hadolygu'n rheolaidd er mwyn cyfleu prosiectau newydd ac arloesol a fydd yn cyflawni ein gweledigaeth a'n nodau. Felly, mae hon yn Rhestr o Brosiectau sy'n hyblyg ac y gellir ei newid. Mae Achos Busnes Amlinellol (OBC) ar gyfer pob Prosiect wedi'i gynnwys yn ***Atodiad 1***. Paratowyd yr OBCs hyn yn unol â Llyfr Gwyrdd y Trysorlys.

Isod, ceir naratif ar gyfer pob Prosiect:

## GOGLEDD CYMRU FLAENGAR

### *1. Rhaglen Datblygu Tir ac Eiddo*

**Mae'r Rhaglen hon yn cynnwys pecyn o brosiectau i ddatgloi cyfleoedd twf yn y rhanbarth. Bydd eu datblygu yn cyflawni safleoedd ac eiddo o ansawdd uchel i ddarparu ar gyfer arloesi ac ehangu yn y sail fusnes, yn benodol o fewn gweithgynhyrchu uwch a diwydiannau sy'n ymwneud ag ynni carbon isel.**

**Bydd cyflawni'r Prosiect o fewn y rhaglen yn rhoi mynediad i fusnesau i bortffolio o safleoedd ac eiddo cyflogaeth o ansawdd uchel ac sydd wedi'u gwasanaethau'n dda gan gynorthwyo i fodloni'r galw am dai, denu buddsoddiad a chreu cyfleoedd cyflogaeth yn y sector adeiladu, hefyd. Bydd cynlluniau sydd ar y gweill ar gael i fodloni'r galw yn y dyfodol.**

#### Prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol

Pwrpas y Prosiect yw cyflawni safleoedd ac eiddo o ansawdd sydd ar y gweill er mwyn bodloni'r angen a gofynion y defnyddwyr yn y rhanbarth. Bydd hyn yn cefnogi cyfleoedd am dwf yn y sectorau allweddol

(gweithgynhyrchu uwch, ynni a digidol) a hwyluso ehangu, arallgyfeirio a buddsoddi o'r newydd yn sail fusnes y Gogledd.

Mae'r prosiect yn golygu sefydlu cyd-fenter rhwng Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn cydlynu a rheoli'r gwaith o ddatblygu a chyflawni tir ac eiddo ledled y Gogledd. Yn ogystal, bydd y Gyd-fenter yn gweithio gyda'r sector preifat a phartneriaid eraill er mwyn dod dros y rhwystrau i ddatblygu. Bydd ffocws hefyd ar brysuro'r gwaith o ddatblygu safleoedd tai sydd wedi'u clustnodi yng Nghynlluniau Datblygu'r awdurdodau lleol unigol, gan weithio mewn partneriaeth â'r grŵp o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn y rhanbarth. Mae'r Bartneriaeth yn cynrychioli ymagwedd strategol i'r defnydd effeithiol o adnoddau er mwyn ceisio mynd i'r afael ag anghenion tai'r rhanbarth a defnyddio dulliau arloesol wrth ddatblygu, drwy roi mynediad haws i arian i adeiladwyr tai lleol a rhanbarthol er mwyn prysuro cyfradd adeiladu tai ledled y rhanbarth.

Y nod yw gweithio mewn partneriaeth â Banc Datblygu Cymru i ddiogelu, ymestyn sgôp a hyrwyddo benthyciadau penodol sydd wedi'u targedu at y sector adeiladu tai gan fusnesau bach a chanolig eu maint o fewn y rhanbarth. Mae cyfres o "safleoedd sydd wedi'u hoedi" ledled y rhanbarth lle mae cynnydd wedi'i atal am amrywiaeth o resymau, megis materion hyfywedd a achosir gan gostau isadeiledd uchel. Mae problemau wrth gael mynediad at gyllid yn cyfyngu'r gallu i ddatgloi safleoedd sydd wedi'u hoedi sy'n rhwystr allweddol i adeiladwyr tai yn y rhanbarth.

Bydd y prosiect yn creu 2875 o swyddi uniongyrchol a 2750 o swyddi anuniongyrchol.

Mae'r safleoedd blaenoriaeth ar gyfer y gyd-fenter, lle mae angen buddsoddiad sbarduno i ddod â datblygiad ymlaen, yn cynnwys yr isod:

**Prosiect Safle Strategol Warren Hall**
**[Prif Noddwr: 6 Awdurdod Lleol]**

Mae Warren Hall yn brif safle strategol y Sir y Fflint sydd wedi bod ym mherchnogaeth y sector cyhoeddus ers dechrau'r 1990au. Er bod peth isadeiledd cyffyrdd ffyrdd sylfaenol wedi'i osod, mae'r safle'n dal heb ei ddatblygu ac ni fydd posib ei ddatblygu ymhellach hyd nes bydd isadeiledd ychwanegol ar y safle wedi'i ddarparu. Mae’r safle wedi’i leoli yn agos i'r A55 ac mae caniatâd cynllunio wedi'i roi.

Mae angen arian er mwyn cefnogi costau isadeiledd ymlaen llaw. Mae'r safle'n cynnwys 65Ha o dir sydd ar gael i'w ddatblygu. Mae'r cynigion yn cynnwys datblygiad defnydd cymysg o dai a Pharc Busnes, a bydd yn ategu at lwyddiant Ardal Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy a Pharc Busnes Caer, ac yn cymryd mantais arnynt.

Mae tystiolaeth glir o alw gan y sector preifat, ac mae ymholiadau pwysig yn cael eu trafod ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ni ellir sicrhau buddsoddiad preifat ac ni allwn fwrw ymlaen â'r diddordeb oni bai y darperir yr isadeiledd sylfaenol.

Mae potensial i'r safle ysgogi buddsoddiad anuniongyrchol o £55m gan y sector preifat gyda sgôp ar gyfer hyd at 1,000 o swyddi anuniongyrchol neu adeiladwaith.

Caiff y Prosiect ei gyflawni rhwng 2019 a 2021.

Cyfanswm cost y Prosiect yw £15m.

**Prosiect Safle Strategol Parc Technoleg Wrecsam**
**[Prif Noddwr: 6 Awdurdod Lleol]**

Pwrpas y Prosiect hwn yw cyflwyno estyniad i Barc Technoleg Wrecsam - sy'n safle strategol wedi'i leoli rhwng canol y dref a phrif goridor ffordd yr A483. Mae safleoedd tir llwyd ychwanegol ar gael i'w

datblygu, ond mae angen mynediad newydd i ffyrdd, ynghyd â chyffyrdd gwell ar yr A483, cysylltiadau grid trydan ac isadeiledd sylfaenol newydd arall.

Mae cynnydd diweddar gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwelliannau sylweddol i gyffyrdd sydd i'w cyflawni dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn golygu y gellir cyflwyno'r safle i'w ddatblygu erbyn hyn.

Mae'r safle'n cynnwys 5Ha o dir datblygu, mewn pedair llain, gyda galw wedi'i brofi gan y sector preifat ar gyfer datblygu. Mae'n hysbys bod deiliad mawr lleol, sydd â photensial sylweddol i dyfu a chreu swyddi, angen tir datblygu ychwanegol.

Mae angen arian er mwyn cefnogi costau gwaith isadeiledd ymlaen llaw er mwyn dod â'r safle ymlaen. Mae’r safle wedi bod mewn perchnogaeth gyhoeddus ers sawl blwyddyn ac nid yw wedi symud ymlaen oherwydd bod yr isadeiledd sy'n cefnogi'r safle yn annigonol. Mae potensial i'r safle ddarparu ar gyfer cyfleoedd sylweddol ar gyfer cyflogaeth ddigidol a gwasanaethau ariannol.

Bydd y Prosiect yn cyflawni buddsoddiad uniongyrchol gan y sector preifat o £2 miliwn. Ystyrir hefyd y bydd buddsoddiad anuniongyrchol ychwanegol o £32.4 miliwn. Bydd y prosiect yn cynhyrchu hyd at 1,000 o swyddi uniongyrchol a 500 o swyddi anuniongyrchol.

Caiff y Prosiect ei gyflawni rhwng 2022 a 2025.

Cyfanswm cost y Prosiect fydd £11 miliwn.

### Prosiect Safle Strategol Bryn Cegin, Bangor
### [Prif Noddwr: 6 Awdurdod Lleol]

Mae Parc Bryn Cegin yn safle datblygu strategol, sy'n agos i'r A55 ar gyrion Bangor. Mae’r safle wedi parhau heb ei ddatblygu - er gwaethaf buddsoddiad mewn isadeiledd sylfaenol ar ddechrau'r 2000au.

Mae'n hysbys bod diddordeb yn y safle a'r ardal o fewn y sector preifat, yn benodol yn sgil cyfleoedd sy'n ymwneud â'r sector ynni a Wylfa Newydd. Fodd bynnag, nid ystyrir bod yr enillion ar y buddsoddiad yn ddigonol i ddwyn perswâd ar ddatblygwyr o'r sector preifat i adeiladu unedau i'w meddiannu ar delerau sy'n dderbyniol i'r meddianwyr posib.

Mae angen arian er mwyn darparu arwynebedd llawr diwydiannol i fodloni'r galw hysbys am unedau. Cynigir bod hyd at 10km2 o arwynebedd llawr diwydiannol a B1 yn cael ei ddarparu ar y safle. Gellid gwerthu'r datblygiad wedi'i gwblhau, naill ai i ddefnyddwyr terfynol neu ar y farchnad fuddsoddi. Mae potensial am enillion ar beth o'r buddsoddiad a wnaed yn sgil gwerthu'r unedau wedi'u meddiannu.

Mae sgôp i gynhyrchu 250 o swyddi anuniongyrchol, a gellid rhoi cartref i hyd at 5 busnes mawr. Mae ganddo botensial i gynhyrchu £12m yn sgil buddsoddiad anuniongyrchol gan y sector preifat.

Byddai cyfanswm y gost yn £12 miliwn.

Caiff y Prosiect ei gyflawni rhwng 2019 a 2021.

### Prosiect Safle Strategol Bodelwyddan
### [Prif Noddwr: 6 Awdurdod Lleol]

Pwrpas y Prosiect yw cefnogi datblygu safle datblygu strategol o ddefnydd cymysg ym Modelwyddan, Sir Ddinbych.

Lleolir y safle fel safle strategol allweddol o fewn Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych ac mae caniatâd cynllunio wedi'i roi.

Mae angen arian er mwyn cefnogi costau isadeiledd ymlaen llaw. Mae'r safle'n cynnwys 137Ha o dir y mae prif gynllun wedi'i ddatblygu arno i gynnwys datblygiad tai, cyflogaeth, tir a chyfleusterau lleol. Bydd y safle'n ategu at safleoedd cyflogaeth Parc Busnes Llanelwy a Pharc Cinmel sydd eisoes yn bodoli, a bydd yn rhoi capasiti ychwanegol ar gyfer datblygu yn rhan ganolog yr A55.

Mae datblygwr wedi'i 'enwi' ar gyfer y safle a fydd yn cyfrannu £4m o fuddsoddiad uniongyrchol gan y sector preifat i'r Prosiect. Disgwylir i'r Prosiect ddenu cyfraniad anuniongyrchol o £185m gan y sector preifat a bydd yn creu hyd at 3,000 o swyddi anuniongyrchol neu adeiladwaith. Defnyddir dull cyd-fenter i gynhyrchu enillion o'r buddsoddiad. Defnyddir hyn i ariannu prosiectau yn y dyfodol o fewn y Rhaglen Datblygu Tir ac Eiddo.

Bydd y prosiect wedi'i gwblhau erbyn 2021.

Cyfanswm cost y Prosiect yw £22m.

Yn ogystal, rhoddir ystyriaeth i ddatblygu Canolfan Fwyd Wrecsam, sydd wedi'i hanelu at gryfhau a gwella'r sector bwyd a diod rhanbarthol. Y ffocws yn y tymor byr a chanolig fydd datblygu unedau rhent sbeciannol gyda chefnogaeth ar y safle i hwyluso datblygu clwstwr y sector.

Caiff y safleoedd "enillion cynnar" hyn, ynghyd â chyfleoedd posib eraill sydd ar y gweill, eu rheoli gan y Gyd-fenter er mwyn gallu ymateb i alwadau'r farchnad a pheidio â gorgyflenwi'r farchnad. Yn ogystal, bydd yn caniatáu capasiti i fodloni gofynion buddsoddi'r rhanbarth yn y dyfodol.

Bydd y safleoedd hyn - unwaith y byddant wedi'u datblygu a'u meddiannu - yn cynhyrchu incwm i'r Gyd-fenter o rent a gwaredu tir ac eiddo sydd. Defnyddir yr incwm hwn i gyflawni blaenoriaethau'r rhestr o safleoedd ac eiddo gan y Gyd-fenter.

Caiff pwll bychan o arbenigedd technegol ei adnabod er mwyn datblygu a chyflawni prosiectau ar ran y Gyd-fenter.

Caiff swyddi, eiddo ac unedau tai newydd eu hadnabod ar sail prosiectau unigol. Mae targedau lefel uchel i'r Gyd-fenter yn cynnwys darparu 100 h.a. o dir busnes sy'n barod i'w weithredu, 15,000m2 o ofod busnes, 1500 o leiniau tai gydag isadeiledd ar gael ar gyfer y datblygiad a £30 miliwn o fuddsoddiad uniongyrchol gan y sector preifat.

**Mae hwn yn brosiect a gaiff ei ariannu drwy'r Cynllun Twf.**

Rhagamcanir y bydd y prosiect yn denu £657 miliwn o fuddsoddiad gan y sector preifat a geir o ganlyniad uniongyrchol i'r Gyd-fenter yn cyflawni'r portffolio o safleoedd ac eiddo.

## 2. *Rhaglen Mynediad Blaengar i Ynni*

**Mae'r Rhaglen hon yn cynnwys pecyn o Brosiectau a fydd yn canolbwyntio ar gadarnhau'r Gogledd fel un o brif leoliadau'r DU ar gyfer creu a chynhyrchu ynni carbon isel, ynghyd â rhwydweithiau ynni lleol blaengar ar raddfa fach. Yn benodol, bydd yn canolbwyntio ar fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd o'r buddsoddiad o £15 biliwn sy'n digwydd o ganlyniad i Orsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd.**

**Bydd cyflawni'r Prosiectau o fewn y Rhaglen yn sicrhau bod gan y Gogledd isadeiledd modern o safon uchel er mwyn hwyluso twf cynaliadwy yn y sector ynni carbon isel. Bydd prosiectau peilot yn batrwm ar gyfer ardaloedd gwledig ac ymylol:**

## Prosiect Porth Caergybi
## [Prif Noddwr: 6 Awdurdod Lleol]

Pwrpas y Prosiect yw diweddaru a gwella isadeiledd Caergybi, porth strategol i'r Gogledd a'r DU. Bydd y Prosiect yn darparu cyfleusterau mordeithio dŵr dwfn a llwytho trwm a chan hynny, bydd yn gwneud y gorau o effaith economaidd y llu o brosiectau ynni yn y Gogledd, yn benodol Wylfa Newydd.

Caiff y Prosiect ei ddatblygu a'i gyflawni mewn partneriaeth â'r sector preifat. Mae Stena Line, perchnogion a gweithredwyr Porthladd Caergybi, wedi gwneud ymrwymiad clir i gyfrannu arian sector preifat i'r Prosiect.

Mae angen brys am gyfleusterau gwell yn y porthladd ar gyfer llwytho a dadlwytho eitemau trwm. Mae arwyddion clir iawn wedi'u rhoi gan gwsmeriaid allweddol posib y byddent yn defnyddio Porthladd Caergybi pe byddai'r gwelliannau isadeiledd priodol yn cael eu cyflawni. Mae hyn yn cynnwys Horizon er dibenion Wylfa Newydd.

Mae angen arian er mwyn cefnogi'r gwelliannau isadeiledd i'r Porthladd, yn cynnwys adfer safle i gyflawni angorfa amlbwrpas ac ardal ddal hyblyg a datblygu angorfa dŵr dwfn integredig, gan alluogi i longau mordeithio mwy ymweld â'r porthladd. Yn ogystal, bydd cynllun adfer morglawdd fel rhan o'r Prosiect ynghyd â chyflwyno technolegau i alluogi i Gaergybi fod yn Borthladd "blaengar" cyntaf y DU.

**Mae hwn yn brosiect a gaiff ei ariannu drwy'r Cynllun Twf.**

Bydd y Prosiect yn cynhyrchu hyd at 1,250 o swyddi uniongyrchol a 1,589 o swyddi anuniongyrchol adeiladwaith ac 17 acer o gyfleusterau porthladd newydd a rhai wedi'u gwella.

Cost gyffredinol y Prosiect yw £80m, gyda chyfraniad uniongyrchol gan y sector preifat o £45m.

Caiff y Prosiect ei gyflawni rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2023.

## Prosiect Gorsaf Bŵer Trawsfynydd
## [Prif Noddwr: 6 Awdurdod Lleol]

Pwrpas y Prosiect hwn yw cynrychioli cam cyntaf datblygu isadeiledd i alluogi i ddatblygiadau pellach sy'n ymwneud ag ynni ddigwydd yn Nhrawsfynydd.

Mae'r safle o fewn ardal ddynodedig Ardal Fenter Eryri Llywodraeth Cymru - y mae ei nodweddion, ei hisadeiledd a'i chysylltiadau grid yn addas iawn ar gyfer datblygiadau pellach yn ymwneud ag ynni.

Mae angen arian er mwyn cefnogi astudiaethau hyfywedd cymhleth yng nghyswllt y safle, a diweddaru isadeiledd i'r safle ac oddi yno. Y nod yw galluogi i'r safle gael y trwyddedau angenrheidiol i gynnal Adweithydd Modiwlar Bach a lleoli gweithgareddau ymchwil mewn technolegau niwclear y dyfodol a systemau cysylltiedig ar y safle.

Mae cysylltiadau cryf wedi'u ffurfio gyda datblygwyr Adweithyddion Modiwlar Bach allweddol, cyrff y diwydiant a llywodraethau eisoes, ac o ganlyniad i hyn, mae cydnabyddiaeth eang i'r buddion a gynigir gan safle Trawsfynydd.

Mae synergedd cryf rhwng y Prosiect hwn a'r datblygiadau sydd ar y gweill a datblygiadau arfaethedig ym Mhrifysgol Bangor, yn enwedig gydag Ymchwil a Datblygu. Bydd gweithgareddau'r Prosiect Ynni, er enghraifft, yn cyd-fynd yn agos â Phrosiect Trawsfynydd, gan olygu y gellir ymgymryd ag arloesi a phrofi ar dechnoleg uwch. Mae synergedd cryf gyda datblygu'r Fargen Sector Niwclear a'r gefnogaeth i SMRs a Thechnolegau Niwclear Datblygedig.

**Mae hwn yn brosiect a gaiff ei ariannu drwy'r Cynllun Twf**.

Bydd y Prosiect yn arwain at 250 o swyddi uniongyrchol, dros 2,500 o swyddi adeiladwaith, a chefnogi dros 600 o swyddi hir-dymor newydd ar draws cadwyn gyflenwi'r Gogledd. Mae ganddo'r potensial i ddenu buddsoddiad anuniongyrchol o £2bn gan y sector preifat.

Cyfanswm cost y Prosiect yw £20 miliwn.

Caiff y Prosiect ei gyflawni rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2030.

## Prosiect Morlais
## [Prif Noddwr: 6 Awdurdod Lleol]

Mae'r Prosiect Morlais yn un o'r Prosiectau ynni morol mwyaf arloesol yn y byd. Bydd y prosiect yn darparu ardal gwely'r môr "*plug and play*" lle gall gweithgynhyrchwyr tyrbinau llif llanw osod eu tyrbinau i gynhyrchu ynni.

Mae'r Prosiect wedi adnabod cwsmeriaid is-denant gydag amrediad o dechnolegau, llwybr y mae posib ei gyflawni i fod yn fasnachol barod ac agosrwydd at gysylltedd grid y gellir ei ehangu.

Mae ganddo'r potensial i ddarparu allbwn o 180MW o ynni.

Mae gan y Prosiect hwn saith gweithgynhyrchydd tyrbin llanw wedi'u henwi ac sydd wedi ymrwymo i'r contractau dilyniannol. Bydd yn creu dull arloesol newydd o gynhyrchu ynni drwy ffynonellau adnewyddadwy. Y datblygiad hwn fydd y cyntaf o'i fath ac mae'n bosib iawn y gall arwain y gad yn y sector ynni llif llanw.

Mae angen arian er mwyn cefnogi costau isadeiledd ymlaen llaw i ddatblygu'r model "*plug and play*". Bydd y Prosiect yn cyflawni ardal sydd wedi derbyn caniatâd llawn ac sydd wedi'i chysylltu'n llawn er mwyn ei chyflwyno'n fasnachol, gyda'r potensial am fuddsoddiad anuniongyrchol o £5m gan y sector preifat gydag wyth cwmni gweithgynhyrchu tyrbinau yn sefydlu safleoedd yn y rhanbarth. Bydd y Prosiect yn hwyluso dros 300 o swyddi uniongyrchol.

**Mae hwn yn brosiect a gaiff ei ariannu drwy'r Cynllun Twf.**

Cost y Prosiect yw £28m a chaiff y Prosiect ei gyflawni rhwng 2019 a 2022.

## Prosiect Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar
## [Prif Noddwr: 6 Awdurdod Lleol]

Pwrpas y Prosiect hwn yw hwyluso datblygu datrysiadau ynni lleol cynaliadwy ar gyfer cymunedau ledled y rhanbarth.

Mae potensial sylweddol ar gyfer cynhyrchu ynni lleol adnewyddadwy yn y rhanbarth, ond yn aml mae'r rhain wedi'u cyfyngu gan gapasiti'r grid, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ymylol. Yn ychwanegol, mae grwpiau cymunedol yn aml wedi'u cyfyngu gan rwystrau cyfreithiol a llywodraethu cymhleth a chapasiti technegol, hefyd. Bydd y prosiect yn mynd i'r afael â rhwystrau o'r fath er mwyn hwyluso a chefnogi cynlluniau cynhyrchu trydan sydd ym mherchnogaeth y gymuned.

Bydd y prosiect yn sefydlu Corff Ynni Rhanbarthol i ddarparu canolbwynt o arbenigedd technegol, cyflawni prosiectau peilot a gwerthuso opsiynau ar gyfer datrysiadau yn y dyfodol i sicrhau bod cymunedau a busnesau yn elwa o ddatblygiadau ynni lleol, drwy ystyried a gwerthuso datrysiadau arloesol.

Yn ogystal, bydd y prosiect yn cefnogi datgarboneiddio rhwydweithiau ynni drwy gyflawni prosiectau peilot arloesol. Byddai'r prosiectau hyn yn golygu datgarboneiddio trafnidiaeth a datgarboneiddio gwres domestig a busnes.

Rhoddir ystyriaeth i gyfleoedd am gynlluniau adnewyddadwy sy'n darparu dulliau cynhyrchu ynni cytbwys lle gall hydro, gwynt a solar, wedi'u cefnogi gan ddatrysiadau storio a storio nwy, ddarparu cymysgedd o ynni adnewyddadwy. Yn ogystal, bydd y prosiect yn ceisio cynhyrchu hydrogen mewn cyfleusterau modiwlar i gefnogi datgarboneiddio rhwydweithiau trafnidiaeth; prosiectau peilot sy'n cefnogi mynediad i dwristiaeth a lleihau defnydd o garbon ar gyfer trafnidiaeth mewn prif ganolbwyntiau trafnidiaeth a busnes.

Hefyd, bydd yn ceisio datblygu rhwydweithiau ynni lleol sy'n gwella gwytnwch, yn defnyddio ynni sydd wedi'i gynhyrchu'n fwy lleol ac yn storio ynni ar gyfer yr adegau pan fo bylchau mewn cyflenwad yn codi.

Bydd y Prosiect yn cyflawni cynlluniau cynhyrchu ynni lleol ar draws cymysgedd cytbwys o ffynonellau drwy ariannu a chefnogi prosiectau ar raddfa fach a gweithio mewn partneriaeth â mentrau cymunedol. Bydd y gymysgedd o arbenigedd technegol a'r arian a ddarperir gan y prosiect yn helpu i brysuro datblygu prosiectau eraill yn y rhanbarth yn y dyfodol.

**Mae hwn yn brosiect a gaiff ei ariannu drwy'r Cynllun Twf.**

Cost gyffredinol y Prosiect yw £18m.

Caiff y Prosiect ei gyflawni rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2025.

## *3. Rhaglen Twristiaeth Antur*

**Bydd y Rhaglen hon yn cefnogi cyflawni prosiectau strategol a fydd yn rhoi hwb i enw da'r rhanbarth fel prif leoliad y DU ar gyfer twristiaeth antur, gan wneud y gorau o'n hamgylchedd naturiol a chyflawni gwerth economaidd o'r amgylchedd hwnnw. Yn benodol, bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd o dwf rhyngwladol yn y farchnad ymwelwyr twristiaeth antur.**

**Bydd cyflawni'r Prosiectau o fewn y Rhaglen yn llwyddiannus yn gwella safle'r rhanbarth ymhellach fel y brif gyrchfan ar gyfer twristiaeth antur. Mae ffocws clir ar ymestyn y tymor a chynyddu'r sail gwerth yn nhermau swyddi, enillion ac ychwanegu gwerth. Mae'r holl fuddsoddiadau sydd wedi'u cynnig o fewn y Rhaglen wedi'u gyrru'n benodol gan y sector preifat yn sgil cyfleusterau Twristiaeth Antur presennol sydd yn y Gogledd. Bydd hyn yn mynd â'r cynnig presennol i'r lefel nesaf ac yn cynhyrchu gweithgareddau economaidd newydd ac ychwanegol yn y rhanbarth.**

### Buddsoddiad Cyfalaf Twristiaeth Antur Gogledd Cymru
### (Prif Noddwr:  i'w gadarnhau

Diben hyn yw dod â chyfres o brosiectau partneriaeth gyda'r sector preifat ymlaen i ehangu enw da rhyngwladol y Gogledd fel cyrchfan twristiaeth antur. Bydd y Prosiect yn canolbwyntio ar gynyddu pa mor gystadleuol yw atyniadau presennol, gan alluogi iddynt gynnig profiadau newydd i ymwelwyr a'u cadw nhw yn y rhanbarth am gyfnod hwy.

Bydd y prosiect yn canolbwyntio'n benodol ar roi sylw i'r rhwystrau y mae'r sector preifat yn eu hwynebu wrth ddatblygu eu hatyniadau ymhellach. Un nod allweddol fydd dwyn cynigion trawsffurfiol ymlaen, a fydd yn ymestyn y tymor ac, felly, yn cael effaith gadarnhaol ar sail gwerth y cynnig cyfredol yn nhermau swyddi, enillion ac ychwanegu gwerth.

Caiff portffolio o fuddsoddiad allweddol ei gyflawni drwy'r prosiect hwn a fydd yn cael effaith drawsffurfiol ar y sail twristiaeth antur ledled y Gogledd. Bydd yr holl gynigion a ariennir yn yrwyr penodol o'r sector preifat o gyfleusterau twristiaeth antur presennol yn y Gogledd.

Bydd y cynigion yn destun fframwaith blaenoriaethu a fydd yn seiliedig ar system werthuso bresennol sydd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gyda chyfres o feini prawf allweddol sy'n cyd-fynd â chyflawni cynigion sy'n denu ymwelwyr rhyngwladol, yn darparu twristiaeth drwy gydol y flwyddyn, yn ymestyn amseroedd aros, yn cyflawni cynigion ychwanegol (h.y. iechyd a llesiant) ac yn cyflawni ychwanegolrwydd. Yn ogystal, byddwn yn ceisio sicrhau y bydd unrhyw gynnig a gefnogir drwy'r Prosiect hwn yn cyflawni swyddi yn effeithlon, yn cyflwyno arloesedd i'r sector ac â'r potensial i fod yn gaffaeliad mawr i'r Gogledd.

Amcangyfrifir y bydd y buddsoddiadau hyn yn cyflawni dros 175 o swyddi llawn-amser uniongyrchol a hyd at 450 o swyddi anuniongyrchol.

**Mae hwn yn brosiect a gaiff ei ariannu drwy'r Cynllun Twf.**

Amcangyfrif o gyfanswm cost y prosiect yw £40m ond bydd hefyd yn denu £20m o fuddsoddiad uniongyrchol gan y sector preifat.

Caiff y prosiect ei gyflawni rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2023.

## *4. Rhaglen Canolbwynt Technoleg ac Arloesedd Blaengar*

**Mae'r Rhaglen hon yn cynnwys Prosiectau a fydd yn cyflawni adnoddau o safon fyd-eang mewn cyfleusterau sy'n arwain y sector, gan adeiladu ar arbenigedd yn y rhanbarth i wneud y gorau o effaith economaidd leol o ymchwil a thechnoleg. Bydd yn canolbwyntio'n benodol ar gyfleoedd o fewn ynni carbon isel a gweithgynhyrchu uwch.**

**Bydd cyflawni'r Prosiectau o fewn y Rhaglen yn sicrhau bod gan y rhanbarth arbenigedd fyd-eang a rhwydwaith o ganolfannau byd-eang i roi hwb i arloesedd a thechnoleg newydd mewn sectorau economaidd allweddol a thrwy hynny hwyluso buddsoddiad newydd, twf a swyddi o ansawdd yn y Gogledd. Yr hyn fydd yn allweddol i'r Rhaglen hon fydd y buddion uniongyrchol i'r sector busnesau bach a chanolig eu maint lleol yn y rhanbarth. Bydd mynediad i gyfleusterau ac asedau Ymchwil a Datblygu yn cael ei hyrwyddo o fewn y rhanbarth er mwyn sicrhau bod busnesau lleol perthnasol yn cymryd mantais llawn o'u gwerth:**

### Canolfan Ragoriaeth Ynni Niwclear
### [Prif Noddwr: Prifysgol Bangor]

Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu cyfleusterau ac arbenigedd o safon fyd-eang ar Ynni Cynaliadwy gyda ffocws cryf ar niwclear. Mae'r cyfleoedd economaidd ar gyfer Canolfan Ragoriaeth Ynni Niwclear yn codi o'r cynnig i adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd gwerth £15bn yn Ynys Môn a'r cynlluniau gan Rolls Royce, GE Hitachi ac eraill i ddatblygu technolegau SMR sy'n berthnasol i Drawsfynydd.

Mae'r cynlluniau sydd yn eu lle a'r cynigion sy'n cael eu datblygu, yn benodol Canolbwynt a Rhwydwaith Adweithyddion Dŵr Berw (BWR), capasiti academaidd mewn peirianneg niwclear o fewn y Sefydliad Dyfodol Niwclear sydd newydd ei sefydlu ym Mhrifysgol Bangor wedi'i ariannu drwy Sêr Cymru, denu academyddion arweiniol o bedwar ban byd a'r cynigion ar gyfer Cyfleuster Arbrofol Hydroleg Thermol yn awgrymu ymrwymiad clir gan Brifysgol Bangor, Imperial College Llundain, Parc Gwyddoniaeth Menai a'u

partneriaid yn y diwydiant i ddod â newid trawsffurfiol i economi'r rhanbarth. Mae gan y rhain y potensial i roi'r hwb economaidd mwyaf i'r rhanbarth mewn cenhedlaeth.

Bydd y Ganolfan, a fydd wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Bangor a Pharc Gwyddoniaeth Menai, yn meithrin ac yn ffurfio busnesau a mentrau academaidd drwy ddarparu ystod o gefnogaeth dechnegol a busnes i gwmnïau sydd newydd eu ffurfio mewn clwstwr sy'n gysylltiedig â niwclear.

Mae angen arian er mwyn datblygu'r Ganolfan Ynni Cynaliadwy a'r Ganolfan Ragoriaeth Ynni Niwclear. Bydd y sector preifat yn bartner allweddol wrth ddatblygu'r Ganolfan. Mae cwmnïau megis GE Hitachi, Rolls Royce, The Wood Group a Horizon oll wedi dangos diddordeb clir mewn cefnogi'r Ganolfan.

Bydd y Ganolfan yn cynyddu arloesedd yn y sector ynni a lefelau masnacheiddio ymchwil mewn sectorau gwerth uchel. Bydd yn helpu i gefnogi gosod y Gogledd fel canolfan o arbenigedd rhyngwladol mewn technoleg niwclear a chreu swyddi gwerth uchel. Bydd yn gyfleuster Ymchwil a Datblygu arwyddocaol yn hyrwyddo trosglwyddo gwybodaeth gyda mynediad i gyfleusterau byd-eang a graddedigion â lefel sgiliau uchel.

**Mae hwn yn brosiect a gaiff ei ariannu drwy'r Cynllun Twf.**

Mae ganddo botensial i greu 90 o swyddi uniongyrchol a hyd at 900 o swyddi adeiladwaith anuniongyrchol.

Cost y Prosiect yw £108.7m.

## Prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter (EEOC)<br>[Prif Noddwr: Prifysgol Glyndŵr Wrecsam]

Pwrpas y prosiect yw adeiladu ar arbenigedd presennol Glyndŵr Wrecsam mewn gweithgynhyrchu uwch ac opteg i ddarparu cyfleusterau, ymchwil ac arloesedd a sgiliau mewn meysydd hanfodol i fusnesau yn y rhanbarth.

Bydd y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn darparu cyfleusterau sydd wedi'u targedu i roi hwb i ddatblygu sgiliau lefel uchel i'r rhanbarth a galluogi i fusnesau bach a chanolig eu maint a busnesau mawr weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam ar ymchwil a datblygu sy'n cael ei yrru'n fasnachol.

Bydd darparu offer newydd o'r radd flaenaf y gellir eu defnyddio'n eang o fewn diwydiant, ymchwil a datblygu ac addysg yn cefnogi busnesau yn y rhanbarth i gyflawni'r flaenoriaeth a'r sectorau twf: gweithgynhyrchu uwch, ynni a'r amgylchedd, adeiladwaith. Felly, mae angen arian i gefnogi datblygu'r Ganolfan.

Mae mentrau allweddol o fewn y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn cynnwys: Opteg a Ffotoneg Manwl (wedi'u lleoli'n bennaf yn Llanelwy); Technoleg Meicrodon a Deunyddiau Cyfansawdd a Thechnoleg Cell Hydrogen (wedi'u lleoli yn Wrecsam).

Disgwylir i tua 500 o fusnesau gael mynediad i wasanaethau a chyfleusterau o'r Ganolfan gyda 30 wedi'u cyd-leoli ar y campws.

**Mae hwn yn brosiect a gaiff ei ariannu drwy'r Cynllun Twf.**

Cyfanswm cost y Prosiect yw £30.7m a bydd yn creu 145 o swyddi uniongyrchol.

Caiff y Prosiect ei gyflawni rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2024.

## Ffatri 3D y DU
## [Prif Noddwr: Prifysgol Glyndŵr Wrecsam]

Pwrpas y prosiect yw adeiladu ar arbenigedd presennol Glyndŵr Wrecsam mewn gweithgynhyrchu uwch i roi capasiti ar lefel cynhyrchu mewn gweithgynhyrchu ychwanegion i fusnesau yn y rhanbarth a'r tu hwnt.

Ffatri 3D y DU yw canolfan gynhyrchu fasnachol gynhwysfawr gyntaf y DU ar gyfer gweithgynhyrchu ychwanegion, wedi'i leoli yn Wrecsam.

Bydd y cyfleuster yn darparu argraffu 3D ar lefel cynhyrchu masnachol ar draws deunyddiau allweddol a thechnolegau lluosog. Bydd y rhain yn cynnwys titaniwm, plastigion, dur, neilonau, cerameg a byrddau cylchred wedi'u hargraffu. Bydd y dechnoleg hon yn cefnogi ystod eang o ddiwydiannau gweithgynhyrchu ac adeiladwaith, o foduron, awyrofod ac ynni i iechyd a meddygol.

Bydd cyfleusterau corfforol Ffatri 3D y DU wedi'u tanategu gan uwch beirianwyr dylunio a fydd yn medru cynghori partneriaid masnachol ar raglenni technoleg a datrysiadau dylunio a gweithio'n agos gyda staff partneriaid ar reoli prosesau.

Mae twf yr economi wedi'i yrru'n ddigidol a "Diwydiant 4.0" yn trawsffurfio'r diwydiant gweithgynhyrchu ac yn chwyldroi datblygu a phrototeipio cynnyrch newydd. Bydd y cyfleuster hwn yn ased rhanbarthol o bwys, gan roi'r Gogledd ar flaen y gad gyda gweithgynhyrchu a chefnogi ein safle fel canolfan ar gyfer peirianneg arloesol.

**Mae hwn yn brosiect sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.**

Mae angen arian i gefnogi datblygu'r cyfleuster.  Cost y Prosiect yw £14.9m a bydd yn creu 92 o swyddi uniongyrchol.

Bydd dros 300 o fusnesau yn medru cael mynediad i'r cyfleuster, gan fanteisio ar y Cyfleuster Gweithgynhyrchu 3D llwyfan technoleg lluosog cyntaf yn y DU.

Caiff y Prosiect ei gyflawni rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2023.

## Prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon
## [Prif Noddwr: Grŵp Llandrillo Menai]

Pwrpas y Prosiect yw datblygu rôl a chyfraniad campws Glynllifon Grŵp Llandrillo Menai i gefnogi datblygu'r economi gwledig, yn benodol i sbarduno twf economaidd a chreu swyddi. Bydd y Canolbwynt Economi Gwledig (REH) yn ganolfan ranbarthol o ragoriaeth yn cefnogi mentrau gwledig gyda lle, gwybodaeth ac offer i'w galluogi nhw i gyrraedd eu potensial cynhyrchiol. Bydd cwsmeriaid a defnyddwyr yn cynnwys busnesau sydd heb gychwyn, busnesau sydd newydd gychwyn a busnesau bach a chanolig eu maint sy'n tyfu a fydd yn cymryd mantais o'r isadeiledd cefnogaeth a'r rhagoriaeth ymchwil a datblygu er mwyn gallu cystadlu yn y farchnad fyd-eang.

Bydd y Canolbwynt yn bont arloesedd rhwng ymchwil mewn dulliau amaethyddiaeth a'r gymuned ffermio leol a'r sector seiliedig ar dir yn gyffredinol. Bydd y Canolbwynt yn gweithio'n agos gyda Chanolfan Technoleg Bwyd bresennol GLlM yn Llangefni sydd â dylanwad ac effaith ranbarthol gadarnhaol iawn. Bydd y Canolbwynt yn gwella'r dylanwad a'r effaith hon ledled y rhanbarth.

Bydd y REH yn gyd-fenter rhwng partneriaid cenedlaethol a rhanbarthol gyda'r nod o gefnogi'r economi gwledig rhanbarthol drwy feithrin entrepreneuriaeth, arloesedd a datblygu menter. Bydd y canolbwynt yn darparu cefnogaeth drwy gyfleusterau yn cynnwys: y **Ganolfan Wybodaeth** - sy'n canolbwyntio ar greu cronfa o wybodaeth a phrofiad ymarferol i gefnogi twf arloesedd a menter yn y rhanbarth; a'r **Parc Menter**

**Bwyd** - yn cynnwys lle i fusnesau newydd ddeori ac unedau gradd bwyd hyblyg wedi'u dylunio i ddenu busnesau bach a chanolig eu maint sy'n tyfu.

Bydd y prosiect yn rhoi sylw i heriau Brexit, yn rhoi cyfleoedd gwaith gwerth uwch i bobl ifanc fedrus ac yn darparu isadeiledd lleol a rhanbarthol cadarn i gefnogi twf a datblygiad yr economi gwledig.

Mae angen arian i gefnogi costau isadeiledd sydd ynghlwm â datblygu'r Canolbwynt.

Mae Ffederasiwn y Busnesau Bach wedi cefnogi'r prosiect hwn:

*"Rydym yn cefnogi'r prosiect hwn a gallai arwain at bartneriaethau gwell rhwng AB a busnesau llai ynghyd â rhoi cyfleoedd am ymagweddau ar y cyd i fentrau gwledig o fewn y rhanbarth."*

Mae'r prosiectau Fferm Carbon Niwtral Llysfasi a Chanolbwynt Economi Gwledig Glynllifon yn cyd-fynd yn dda â'i gilydd, gan ddarparu datrysiad ar gyfer y gadwyn gyflenwi gyfan yn y sector amaeth-bwyd, gan ganolbwyntio'n bennaf ar gefnogaeth cyn cyrraedd giât y fferm ac ar ôl mynd drwy giât y fferm yn y drefn honno.

**Mae hwn yn brosiect a gaiff ei ariannu drwy'r Cynllun Twf.**

Bydd y Prosiect yn cyflawni buddsoddiad gan bartneriaid o £3m ac yn creu o leiaf 80 o swyddi newydd. Bydd tua 2,300m.sg. o le pwrpasol ar gyfer lletya arbenigedd gradd bwyd yn cael ei ddatblygu a bron i 1,000m.sg. ar gyfer y Ganolfan Wybodaeth. Disgwylir i tua 200 o fusnesau gael mynediad i wasanaethau a chyfleusterau o'r canolbwynt.

Cyfanswm cost y Prosiect yw £13m.

Caiff y Prosiect ei gyflawni rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2022.

## Fferm Carbon Niwtral Llysfasi - Canolfan Technoleg ac Ynni Adnewyddadwy [Prif Noddwr: Coleg Cambria]

Y weledigaeth yw creu canolfan ragoriaeth mewn ffermio cynhyrchiol a thechnolegau ynni adnewyddadwy a fydd yn gweithredu fel llwyfan arddangos arloesedd ac yn fan profi ar gyfer technolegau newydd a rhai presennol. Bydd hyn yn hwyluso twf yn y sector Amaethyddol masnachol yn y Gogledd a rhanbarthau eraill drwy ddefnyddio cynhyrchu bwyd sylfaenol digidol fanwl yn effeithlon. Bydd hyn sefydlu adnodd strategol yn y Gogledd ar gyfer arloesedd mewn cynhyrchedd a chynaliadwyedd amaethyddol.

Mae digideiddio'r sectorau a'r isadeiledd busnes sy'n cyflawni cynaliadwyedd gwledig oll wedi'u cysylltu'n agos gyda'r sail sgiliau a datblygu arloesedd yn y dyfodol. Amcangyfrifir y bydd 500 o fusnesau/ cymunedau yn elwa o drosglwyddo gwybodaeth a chaiff 20 o brosiectau masnachol eu cyflawni mewn ffermio adnewyddadwy a digidol fanwl. Bydd yn arwain at ddatblygu fferm a champws Coleg Cambria yn Llysfasi yn ganolfan arloesedd sy'n cael ei harwain gan dechnoleg er mwyn cefnogi cynhyrchedd yn y sector amaethyddol yn y Gogledd.

Mae'r prosiect hwn yn cyd-fynd â gweledigaeth Llywodraeth Cymru bod Cymru yn dod yn arweinydd byd-eang mewn cynhyrchu trydan ynni glân a charbon isel, a'r dyhead o fod y gorau oll o ddiwydiannau Cymru yn y dyfodol.

Cyflawnir y prosiect drwy weithio mewn partneriaeth a ffurfio perthnasau agos gydag ystod o sefydliadau yn cynnwys: Llywodraeth Cymru; Grŵp Llandrillo Menai; Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC); Llywodraeth Leol; Ystod o Brifysgolion priodol - yn y DU ac yn rhyngwladol; Tillhill / BSW Forestry management, wood processing and transport logistics; LEAF-FACE (Linking Environment and Farming- Food and Countryside

Education gyda chysylltiadau ag ysgolion ac addysg yrfaol); Busnesau Ynni Adnewyddadwy Cenedlaethol - The Greener Group, FreEnergy, Aeolus Energy group. Dulas; UK renewables; Undebau amaethwyr Cymru (Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr - Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru); Ffermwyr Ifanc Cymru (CFfI Cymru); Byrddau ardollau (AHDB, HCC); Y cyhoedd yn gyffredinol a chymunedau lleol/rhanbarthol; ynghyd ag ystod bellach o fusnesau Rhanbarthol, Cenedlaethol a Rhyngwladol o'r radd flaenaf.

Nod y prosiect fydd gwella'r defnydd o brosiectau ynni adnewyddadwy gyda tharged o 40 prosiect dros bum mlynedd. Bydd yn rhoi man profi ar gyfer profi technoleg sydd bron â chyrraedd y farchnad, yn fasnachol, dros y pum mlynedd nesaf, gan gyflawni gwelliannau i arallgyfeirio gwledig economaidd.

Mae angen arian cyfalaf tuag at ddatblygu adeiladau ac offer a phrynu peiriannau. Bydd y sector preifat/masnachol a Choleg Cambria yn ysgogi buddsoddiad anuniongyrchol o £5m yr un, fel arian cyfatebol i'r gofyn o gais y Cynllun Twf.

Mae'r prosiectau Fferm Carbon Niwtral Llysfasi a Chanolbwynt Economi Gwledig Glynllifon yn cyd-fynd yn dda â'i gilydd, gan ddarparu datrysiad ar gyfer y gadwyn gyflenwi gyfan yn y sector amaeth-bwyd, gan ganolbwyntio'n bennaf ar gefnogaeth cyn cyrraedd giât y fferm ac ar ôl mynd drwy giât y fferm yn y drefn honno.

**Mae hwn yn brosiect a gaiff ei ariannu drwy'r Cynllun Twf**.

Cyfanswm cost cyfalaf y prosiect yw £20m.

Caiff elfen gyfalaf y prosiect ei chyflawni o fewn dwy flynedd i'r arian gael ei sicrhau.

## Prosiect Canolfan Technoleg Amgylcheddol ac Achredu Diwydiannol [Prif Noddwr: Prifysgol Bangor]

Pwrpas y Prosiect yw rhoi cyfleusterau ar raddfa ddiwydiannol i fusnesau i'w galluogi nhw i ddylunio a phrofi cynnyrch a deunyddiau newydd a helpu i gyflawni'r safonau a'r achrediad diwydiannol ac amgylcheddol angenrheidiol.

Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol (CEB) yn defnyddio arbenigedd rhyngwladol Prifysgol Bangor mewn gwyddor amgylcheddol a biocemeg i gyfrannu at ddatblygu sector diwydiannol technoleg uwch newydd yn y Gogledd, ei gynaliadwyedd hir-dymor a pha mor gystadleuol ydyw, gan roi datrysiadau arloesol i wella effeithlonrwydd a lleihau ôl-troed amgylcheddol prosesau traddodiadol. Bydd yn cyflawni clwstwr biotechnoleg i'r Gogledd ac yn lleoli'r rhanbarth fel canolfan ragoriaeth mewn busnesau gweithgynhyrchu uwch sy'n amgylcheddol gynaliadwy.

Mae'r prosiect CEB yn canolbwyntio ar drawsffurfio prosesau biolegol yn rhaglenni diwydiannol/ masnachol (biobeirianneg a biocatalyddion) drwy ddarganfod a chategoreiddio ensymau newydd a geir o amgylcheddau eithafol. Un o nifer o ddefnyddiau posib yw echdynnu mwydion ar gyfer gwneud papur sy'n digwydd ar 80°C ar hyn o bryd gan ddefnyddio cemegolion cyrydol, gwenwynig sy'n cynhyrchu nwyon tŷ gwydr megis Sodiwm Hydrocsid, Sodiwm Sylffad a Chlorin. Dyma ymchwil sydd yn wirioneddol drawsffurfiol ac iddo botensial masnachol anferth. Mae Beyer, cwmni fferyllol mawr wedi dangos cefnogaeth, ynghyd â chwmni o Ddenmarc o'r enw Novozymes, sy'n hawlio 48% o farchnad cynhyrchu ensymau'r byd. Mae partneriaid y prosiect yn cynnwys Unilever (Wirral), Croda (Swydd Caer) ynghyd â sawl cwmni diwydiannol arweiniol arall, hefyd.

Bydd Elfen Achredu'r Ganolfan yn rhoi cyfleusterau ar raddfa ddiwydiannol i fusnesau Cymru a'r DU yn ehangach i'w galluogi nhw i ddylunio a phrofi cynnyrch a deunyddiau newydd ar gyfer amrediad eang o sectorau gwerth uchel, yn cynnwys: technoleg niwclear, ffotofoltaidd solar, ffotoneg, awyrofod, moduron a gofod.

Bydd y Ganolfan yn rhoi mynediad i offer arbenigol iawn gyda chefnogaeth arbenigedd academaidd byd-eang, yn canolbwyntio nid yn unig ar ddylunio cynnyrch peirianneg ond ar brofi oes a dibynadwyedd sy'n hanfodol yn fasnachol. Bydd y capasiti hwn yn ychwanegiad hanfodol i'r isadeiledd ymchwil a datblygu

peirianneg a gweithgynhyrchu yn y rhanbarth. Mae partneriaid y prosiect yn y sector preifat yn cynnwys TWI - un o brif sefydliadau ymchwil a thechnoleg annibynnol y byd, gydag arbenigedd mewn uno deunyddiau a phrosesau peirianneg - Qioptiq Ltd (Gogledd Cymru) ac IQE Ltd (De Cymru) - y prif gyflenwr byd-eang o haenellau uwch a gwasanaethau haenell i'r diwydiant lled-ddargludyddion ac yn gwmni o Gymru sydd wedi bod ar flaen y gad yn y diwydiant lled-ddargludyddion cyfansawdd ers dros bum mlynedd ar hugain. Mae gan y Ganolfan Achredu gysylltiadau cryf â'r agenda niwclear hefyd, yn genedlaethol ac yn lleol. Gellir darparu cefnogaeth i'r Ganolfan Ragoriaeth Niwclear drwy'r Ganolfan hon. Mae cefnogwyr / cwsmeriaid posib o ledled y Gogledd yn cynnwys Raytheon UK, QinetiQ Group plc, Denis Ferranti Group, PPM Technology, Siemens, Menai Organics, Dyesol Ltd, a UK Micromachining Ltd.

Mae angen arian i gefnogi datblygu'r Ganolfan, gan alluogi buddsoddiad mewn cyfleusterau ac offer o'r radd flaenaf.

**Mae hwn yn brosiect a gaiff ei ariannu drwy'r Cynllun Twf.**

Bydd y Prosiect yn cyflawni buddsoddiad gan bartneriaid o £20.1m ac yn creu o leiaf 128 o swyddi newydd.

Cyfanswm cost y Prosiect yw £29.15m.

Caiff y Prosiect ei gyflawni rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2023.

## *5. Rhaglen Cronfa a Chanolbwynt Twf Busnes Rhanbarthol*

**Bydd y Rhaglen hon yn cyflawni Prosiectau a fydd yn darparu cyngor ariannol, technegol a chydlynol i fusnesau yn y rhanbarth, gan ganolbwyntio'n benodol ar gyflymu cyfradd datgarboneiddio a hyrwyddo arloesedd gyda'r sail fusnes.**

**Bydd cyflawni'r prosiectau o fewn y rhaglen yn sicrhau bod gan fusnesau'r Gogledd y cyngor a'r gefnogaeth o'r safon uchaf, sy'n gydlynol ac sy'n canolbwyntio ar y farchnad er mwyn llwyddo yn eu marchnad. Dylai hyn wneud cyfraniad sylweddol tuag at gefnogi twf economaidd y Gogledd yn y dyfodol ar draws yr holl sectorau a'r holl fathau o fusnesau. Y prif nod fydd symleiddio'r gwasanaeth i fusnesau a chymunedau'r rhanbarth.**

### Prosiect Cronfa Twf Busnes Rhanbarthol Gogledd Cymru (RBGF)
### [Prif Noddwr: 6 Awdurdod Lleol]

Mae Cronfa Twf Busnes Rhanbarthol Gogledd Cymru (RBGF) yn gyfres o gymhorthion cefnogi busnes rhanbarthol pwrpasol sydd wedi'u targedu a fydd yn denu buddsoddiad anuniongyrchol sylweddol gan y sector preifat gan gyflymu cyfradd datgarboneiddio o fewn sail fusnes y Gogledd. Bydd yr RGBF yn cyd-fynd â gwasanaethau a phrosiectau strategol presennol ledled y Gogledd, gan ychwanegu gwerth sylweddol i gynnig cyfredol yr ardal a sicrhau bod cefnogaeth a chyngor busnes yn llawer mwy cydlynol ledled y rhanbarth. Mae'r Prosiect wedi'i ddylunio a'i ddatblygu gan y sector preifat yn y rhanbarth.

Ffocws y Gronfa Twf Busnes Rhanbarthol yw ***cyflymu Arloesedd, cynyddu Cynhyrchiant a Harneisio Doniau Lleol drwy'r isod:***

**Cyflymu Arloesedd**

- Meithrin a Masnacheiddio Ymchwil a Datblygu sy'n Arwain y Byd
- Mabwysiadu a Masnacheiddio Digidol - technolegau Diwydiant 4.0 ar draws yr holl Sectorau
- Cynyddu Trosglwyddo Gwybodaeth a chydweithio

**Cynyddu Cynhyrchedd**

- Cynyddu Allforion

- Rhoi hwb i ddatblygu Cadwyni Cyflenwi / Achrediadau
- Marchnata wedi'i dargedu ar gyfer rhanbarth y Gogledd
- Cefnogi Twf Busnes Glân - Cyflymu datgarboneiddio'r sail fusnes

**Harneisio Doniau Lleol**

- Rhoi Hwb i Recriwtio a Chadw Graddedigion

Mae angen arian i gefnogi datblygu'r Gronfa Twf Busnes.

Bydd y Prosiect yn cyflawni buddsoddiad gan y sector preifat o tua £100m fel cyfraniad anuniongyrchol, yn creu o leiaf 1250 o swyddi newydd, yn cynyddu gwerthiannau allforio gan dros £80m, yn cyflawni 140 o brosiectau Ymchwil a Datblygu sylweddol ac yn arbed 450,000+ tunnell o garbon o fewn rhanbarth NWMD. Bydd miloedd o fusnesau yn elwa, yn amrywio o ficrofusnesau (sydd fel arfer wedi'u heithrio neu ddim yn gymwys) i'r rhai mwyaf yn economi'r Gogledd.

Un gydran allweddol yn y Prosiect yw sefydlu "Canolbwynt Twf Busnes" i gyflawni rhwydwaith cefnogaeth fwy cydlynol ac integredig ar gyfer busnesau. Bydd yn galluogi cyd-leoli swyddogion presennol sy'n gweithio mewn gwahanol sefydliadau i ddarparu gwasanaeth mwy cydlynol a chydgysylltiedig yn y rhanbarth.

Bydd ffocws penodol ar gyfenwi microfusnesau a'r sector hunangyflogedig yn y rhanbarth.

**Mae hwn yn brosiect sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.**

Cyfanswm cost y Prosiect yw £52.5m.

Caiff y Prosiect ei gyflawni rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2024.

## GOGLEDD CYMRU WYDN

### *6. Rhaglen Llwybrau i Sgiliau a Chyflogaeth*

**Mae'r Rhaglen hon yn cynnwys Prosiectau a fydd yn mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd a chyflawni gwasanaeth cyngor a chefnogaeth ar sgiliau a chyflogaeth cydlynol yn y rhanbarth.**

**Bydd cyflawni'r Prosiectau o fewn y Rhaglen yn galluogi i bobl gael mynediad i gefnogaeth yn haws ac yn fwy effeithiol er mwyn eu helpu nhw i wella eu sgiliau a chael swyddi, gan sicrhau bod gweithlu lleol cadarn ar gael i fodloni anghenion a chyfleoedd cyflogaeth y Gogledd yn y dyfodol. Bydd ffocws penodol ar y rheini sy'n anweithredol ac ar bobl ifanc a gaiff eu hysbrydoli i fanteisio ar gyfleoedd a gyrfaoedd cyffrous yn y rhanbarth:**

#### Porth Gwybodaeth a Chyngor
#### [Prif Noddwr: 6 Awdurdod Lleol]

Nod y prosiect yw hwyluso uwch-sgilio Poblogaeth y Gogledd ar gyfer anghenion cyflogaeth y dyfodol, drwy wella'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth rhanbarthol am sgiliau a chyflogaeth sydd ar gael ar gyfer unigolion, cyflogwyr a darparwyr gwasanaeth.

Mae hwn yn brosiect hwyluso pwrpasol a fydd yn cefnogi cyflawni nifer o brosiectau eraill allweddol y cynllun twf drwy sicrhau bod llafur medrus priodol ar gael ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn sydd hefyd yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol ac yn gefnogol ohono.

Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar gynyddu lefel ymgysylltiad diduedd cyflogwyr yn y rhanbarth, er mwyn cynyddu a rhannu gwybodaeth am anghenion cyflogaeth a hyfforddiant y dyfodol a sbarduno prentisiaethau; darparu gwasanaeth broceriaeth ar gyfer datblygu sgiliau a recriwtio ar gyfer prosiectau rhanbarthol mawr, i gynorthwyo gweithredu'n effeithiol a manteisio ar gyfleoedd datblygu sgiliau; gan weithio mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cymru, cefnogi'r gwaith o ddatblygu 'Porth Cyngor Cyflogaeth' Llywodraeth Cymru yn y rhanbarth, yn cynnwys Cynllun Bwrsariaeth Oedolion, i ddylanwadu ar argaeledd cyngor a chefnogaeth ddiduedd o ansawdd uchel, a chynyddu faint o hyn sydd ar gael, er mwyn ysbrydoli pobl i hyfforddi mewn sgiliau sy'n gysylltiedig â chyfleoedd gwaith y Gogledd yn y dyfodol.

Nod y prosiect fydd sbarduno newid o 8% o lafur medrus sydd ar gael yn y farchnad ranbarthol erbyn 2034, gyda chynnydd o 50% yn nifer y prentisiaethau lefel uwch yr ymgymerir â hwy mewn sectorau allweddol a sectorau twf a 4000 o gyfleoedd gwaith a gymerir gan y gweithlu lleol, wedi'i hwyluso gan wasanaeth broceriaeth erbyn 2024.

Mae angen arian er mwyn darparu capasiti i weithio mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cymru yn lleol i hwyluso'r gwaith o weithredu Porth Cyngor Cyflogaeth LlC yn fuan, ysgogi ymgysylltiad â chyflogwyr a rhoi adnoddau i'r gwasanaeth broceriaeth a'r cynllun bwrsariaeth oedolion. Bydd buddsoddiad anuniongyrchol gan y sector preifat o tua £1.5m yn cael ei ysgogi ar gyfer y gwasanaeth broceriaeth.

**Mae hwn yn brosiect a gaiff ei ariannu drwy'r Cynllun Twf.**

Cyfanswm cost y prosiect yw £10.25m.

Caiff y prosiect ei gyflawni rhwng 2018 a 2024.

### Llwybr Cyflogadwyedd
### [Prif Noddwr: 6 Awdurdod Lleol]

Mae'n bwysig cydnabod, ar gyfer y rheini sydd angen help a chefnogaeth i mewn i gyflogaeth, nid yw nifer ohonynt yn meddwl am waith, nid ydynt barod ar gyfer gwaith a/neu mae gormod o rwystrau yn eu ffordd. Er mwyn cefnogi'r bobl hyn ar eu siwrnai i gyflogaeth, mae angen ymateb yn lleol gyda chefnogaeth bwrpasol, ond gellir cyflawni gwerth ychwanegol yn yr ymateb drwy ddulliau sydd wedi'u cydlynu'n rhanbarthol.

Y nod yw datblygu Fframwaith Llwybr Cyflogadwyedd Rhanbarthol, y byddai partneriaid yn y rhanbarth yn ymrwymo iddo a'i ddefnyddio i ddylanwadu ar eu penderfyniadau ariannu, comisiynu a darparu gwasanaeth. Tanategir y Fframwaith gan gyflawni amrywiaeth o raglenni a gwasanaethau yn lleol ac yn rhanbarthol a bydd comisiynu Cenedlaethol y contractau rhaglenni cyflogadwyedd Cymru'n Gweithio, sydd allan i dendr ar hyn o bryd, yn cyd-fynd ag ef.

Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar well dealltwriaeth a chydlynu cyflawni'r rhaglenni a'r gwasanaethau hyn o fewn elfennau cyffredin y Fframwaith, er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r arian sydd ar gael, yn enwedig yn y tirlun ariannu cyfnewidiol a chyn diwedd ar arian ESF.

Nod y prosiect fydd cyflawni gostyngiad o 15% yn nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau sy'n ymwneud â gwaith a gostyngiad o 20% yn nifer yr aelwydydd sy'n hawlio budd-daliadau sy'n ymwneud â gwaith erbyn 2024.

**Mae’r prosiect hwn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.**

Mae angen arian yn gychwynnol er mwyn symbylu'r gweithgaredd datblygu a chydlynu'r fframwaith.

Cost gychwynnol y prosiect yw £0.3m.

Caiff y prosiect ei gyflawni rhwng 2019 a 2024.

## *7. Rhaglen Canolfannau Rhagoriaeth Sgiliau*

**Mae'r Rhaglen yn cynnwys pecyn o Brosiectau a fydd yn gwella isadeiledd sgiliau'r rhanbarth er mwyn cynyddu'r cyflenwad o sgiliau mewn sectorau twf allweddol.**

**Bydd cyflawni'r Prosiectau o fewn y Rhaglen yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu rhwydwaith o ganolfannau sgiliau allweddol ledled y rhanbarth a fydd yn cyflawni hyfforddiant o safon uchel mewn sectorau allweddol yn yr economi:**

### Canolfan Ragoriaeth Twristiaeth a Lletygarwch Gogledd Cymru
### [Prif Noddwr: Grŵp Llandrillo Menai]

Nod y Ganolfan Ragoriaeth Twristiaeth a Lletygarwch yw datblygu sgiliau sydd wedi'u targedu, ymchwilio i gynnyrch a chefnogi busnesau ledled y Gogledd. Bydd yn ceisio cynyddu gwytnwch busnesau twristiaeth, cefnogi datblygu swyddi twristiaeth gwerth uchel a chynaliadwy, sicrhau bod twristiaeth yn ddyhead fel dewis gyrfa a chefnogi twf a gwerth y diwydiant twristiaeth yn y Gogledd.

Bydd yn gweithredu mewn partneriaeth â'r sector preifat fel model prif ganolfan a lloerennau. Bydd y canolbwynt rhagoriaeth sgiliau sylfaenol yn gyfleuster newydd pwrpasol yng Ngholeg Llandrillo yn Llandrillo yn Rhos, gyda llawer o'r hyfforddiant a'r datblygiad yn cael eu cyflawni gan fusnesau twristiaeth sy'n bartneriaid ledled y rhanbarth, wedi'u cefnogi gan y dechnoleg darparu hyfforddiant ddiweddaraf mewn cyfleusterau hyfforddi pwrpasol.

Bydd y brif ganolfan a'r lloerennau yn darparu hyfforddiant, arddangosfeydd, sesiynau blasu a phrofiad gwaith go iawn i nifer o garfannau yn cynnwys: disgyblion ysgol, dysgwyr ôl-16 llawn-amser, prentisiaid a'r rheini nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Caiff cyfleusterau eu datblygu a fydd yn cefnogi datblygu'r sgiliau y mae galw amdanynt ledled y sector gyda photensial i bob lloeren ddatblygu maes gwahanol o hyfforddiant. Yn rhan annatod o hyn fydd y ffaith y bydd pob lloeren yn ymrwymo i weithredu cynllun prentis o safon uchel a allai fod mewn partneriaeth â busnesau llai neu rai mwy newydd eraill.

Mae ymgysylltiad a chefnogaeth gref yn cael eu harddangos gan y sector preifat gyda'r partneriaid sy'n cymryd rhan hyd yma yn cynnwys Zipworld, Surf Snowdonia, Camu i'r Copa/Always Aim High, Continuum/Parc Gelligyffwrdd, Dylan’s, Twristiaeth Gogledd Cymru, British Hospitality Association, Cymdeithas Lletygarwch Llandudno, Cyngor Sir Wrecsam, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, DWP/JCP. Mae llythyrau wedi'u derbyn gan nifer o'r partneriaid hyn i gofrestru eu diddordeb yn ffurfiol yn y prosiect.

Nod y prosiect yw cyflawni 45 o brentisiaethau iau newydd a 50 o gyfleoedd prentisiaethau newydd, gyda 480 o gymwysterau lletygarwch a thwristiaeth lefel 1 i 3 ar gael yn y Brif Ganolfan a'r Lloerennau ledled y Gogledd.

**Mae hwn yn brosiect a gaiff ei ariannu drwy'r Cynllun Twf.**

Mae angen arian i sefydlu'r model prif ganolfan a lloerennau, gyda'r potensial i ysgogi £1.25m o fuddsoddiad anuniongyrchol gan y sector preifat a £5m o fuddsoddiad gan Grŵp Llandrillo Menai.

Rhagwelir mai cyfanswm cost y prosiect yw £16.25m.

Mae amserlen ar gyfer cyflawni'r prosiect yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.

## Canolfan Ragoriaeth Peirianneg Rheilffyrdd Gogledd Cymru
## [Prif Noddwr: Grŵp Llandrillo Menai]

Y pwrpas yw datblygu sgiliau'r gweithlu mewn peirianneg rheilffyrdd sy'n cefnogi gwelliannau isadeiledd rheilffyrdd yng Nghymru ynghyd ag yng Ngogledd Orllewin / Canolbarth Lloegr.

Wedi'i alinio â'r dyheadau sydd wedi'u nodi yn Growth Track 360, Prosbectws Rheilffyrdd Gorllewin Lloegr a Chymru a thrafodaethau rhwng Network Rail, Grŵp Llandrillo Menai a Chyngor Sir Ddinbych, bydd y prosiect hwn yn darparu gweithlu rhanbarthol medrus iawn, all gefnogi'r gwelliannau isadeiledd rheilffyrdd sylweddol sydd eu hangen ledled y Gogledd. Er mwyn cyflawni hyn, caiff Canolfan Ragoriaeth Peirianneg Rheilffyrdd Gogledd Cymru ei datblygu yn nhref y Rhyl.

Bydd y ganolfan yn gartref i ystod eang o gyfleoedd datblygu sgiliau ar draws y sbectrwm eang o beirianneg rheilffyrdd. Cynigir hyfforddiant i'r rheini sy'n chwilio am waith ac i'r rheini sy'n dymuno cynyddu eu sgiliau. I ddechrau, bydd y ganolfan yn canolbwyntio ar beirianneg signal er mwyn bodloni gofynion y gwaith diweddaru sy'n digwydd ar hyn o bryd i lein y Gogledd.

Nod y prosiect fydd cyflawni 100 o ddiwrnodau hyfforddiant i uwch sgilio, 24 o brentisiaethau iau newydd, 36 o hyfforddeion peirianneg rheilffyrdd a 24 o brentisiaethau peirianneg rheilffyrdd bob blwyddyn. Caiff rhaglen addysg uwch newydd mewn peirianneg rheilffyrdd ei datblygu ym mlwyddyn dau.

Mae angen arian cyfalaf i ariannu datblygu'r isadeiledd ar gyfer y cyfleuster a bydd yn ysgogi £0.5m gan Network Rail, ynghyd â £3.5m gan Grŵp Llandrillo Menai.

**Mae hwn yn brosiect sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.**

Cyfanswm cost cyfalaf y prosiect yw £7.5m.

Mae'n bosib y gellir dechrau adeiladu'r ganolfan yn haf 2019 gan gwblhau y flwyddyn ddilynol.

## STEM Rhanbarthol - Cyflawni Rhagoriaeth mewn Datblygu Sgiliau
## [Prif Noddwr: I'w gadarnhau - gyda'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol ar hyn o bryd]

Mae'r prosiect hwn yn ei gamau datblygu cychwynnol ac mae'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol yn edrych ar ei sgôp ar hyn o bryd, gan sicrhau ei fod yn rhyngblethu â phrosiectau eraill sy'n ymwneud â STEM sy'n digwydd yn y rhanbarth.

## Iechyd a Gofal Cymdeithasol gydag Addysg Uwch Gogledd Cymru - Cyflawni Rhagoriaeth mewn Datblygu Sgiliau
## [Prif Noddwr: I'w gadarnhau - gyda'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol ar hyn o bryd]

Mae'r prosiect hwn yn ei gam cysyniadol ac mae'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol wedi comisiynu darn o waith er mwyn deall gofynion sgiliau'r rhanbarth ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, er mwyn hysbysu'r broses o chwilio am ddatrysiad.

### Sgiliau Awtomatiaeth Ddigidol Gogledd Cymru - Cyflawni Rhagoriaeth mewn Datblygu Sgiliau [Prif Noddwr: I'w gadarnhau - gyda'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol ar hyn o bryd]

Mae'r prosiect hwn yn gyd-ddibynnol ar y prosiect Sgiliau Digidol i Ogledd Cymru. Mae'r prosiect hwn yn ei gam cysyniadol ac mae'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol wedi comisiynu darn o waith er mwyn deall gofynion sgiliau'r rhanbarth ar gyfer awtomatiaeth ddigidol, er mwyn hysbysu'r broses o chwilio am ddatrysiad.

## GOGLEDD CYMRU GYSYLLTIEDIG

## *8. Rhaglen Cysylltedd Digidol*

**Bydd y Rhaglen hon yn cyflwyno Prosiectau a fydd yn gwella cysylltedd digidol ar gyfer busnesau a chartrefi ledled y rhanbarth, ynghyd â sgiliau digidol ac arloesedd mewn arwyddion digidol.**

**Bydd cyflawni'r Prosiectau o fewn y Rhaglen yn darparu cysylltedd i hwyluso arloesedd a gweithio'n fwy clyfar, gwella faint y gall busnesau gystadlu, tra bod gan fusnesau a thrigolion y capasiti a'r wybodaeth i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd digidol o safon uchel. Gwelir hyn fel blaenoriaeth brys ac uchel o fewn y Rhaglen i'r chyflawni yn y rhanbarth:**

### Prosiect Cysylltedd Digidol Gogledd Cymru [Prif Noddwr: 6 Awdurdod Lleol]

Bydd y Prosiect hwn yn datblygu gwelliannau mewn isadeiledd band eang a symudol sefydlog sy'n angenrheidiol er mwyn cefnogi gweithgaredd busnes cystadleuol newydd a phresennol yn y Gogledd. Bydd hefyd yn gwella'r rhanbarth fel lle i fuddsoddi, gweithio a byw ynddo. Yn benodol, bydd yn canolbwyntio ar isadeiledd goddefol ffibr llawn, gwasanaeth gigabeit fforddiadwy a defnydd o fand eang gwledig.

Mae'r sector preifat yn y rhanbarth yn ystyried y prosiect hwn yn flaenoriaeth uchaf. Maent wedi bod ynghlwm â'i ddylunio a'i ddatblygu.

Hefyd, bydd y Prosiect yn gerbyd i ysgogi cyllid sector preifat gan y sector preifat, yn benodol gan weithredwyr rhwydwaith. Rhoddir ystyriaeth ofalus gan weithredwyr rhwydwaith i fuddsoddi arian sector preifat uniongyrchol yn y Prosiect drwy gyd-fenter.

Amlygir yr angen am y Prosiect gan y ffaith fod pedair o'r chwe sir yn y Gogledd yn y 25% isaf o ardaloedd Awdurdod Lleol y DU ar gyfer darpariaeth band eang Cyflym Iawn (>30 Mbps) (mis Mawrth 2018).

Caiff y Prosiect ei gyflawni rhwng 2019 a 2021.

Bydd gan y Prosiect ddeilliannau ac effaith glir, yn cynnwys y ffaith y bydd 80% o safleoedd cyflogaeth strategol yn cael eu 'pasio' gan isadeiledd uniongyrchol ac y bydd o leiaf un darparwr rhwydwaith yn cael mynediad i 100% o'r dwythellau a ddarperir.

Bydd ffocws penodol ar gyfenwi microfusnesau a’r sector hunan-gyflogedig yn y rhanbarth.

**Mae hwn yn brosiect a gaiff ei ariannu drwy'r Cynllun Twf.**

Cost y Prosiect yw £66.75m.

## Prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol
## [Prif Noddwr: Prifysgol Bangor]

Bydd y Prosiect hwn yn trosglwyddo gweithgareddau Ymchwil a Datblygu a yrrir gan y farchnad yn gynnyrch, yn brosesau ac yn wasanaethau y gellir manteisio'n fasnachol arnynt ar gyfer cyfathrebu digidol. Bydd yn sicrhau bod y rhanbarth ym mlaen yr economi digidol newydd, a bydd yn cynnal Ymchwil a Datblygu a yrrir gan y farchnad ar gyfer prosesu signal digidol i rwydweithiau gwifr a diwifr.

Bydd y Prosiect wedi'i leoli ym Mhrifysgol Bangor - mae gan y Brifysgol enw da yn rhyngwladol wrth weithredu'r dechnoleg hon gyda'r sector Telegyfathrebu. Bydd cydweithio agos yn digwydd gyda chwmnïau rhyngwladol mawr drwy'r prosiect hwn.

Mae angen arian er mwyn datblygu'r Ganolfan Brosesu a sicrhau fod ganddi'r offer a'r cyfleusterau priodol.

Bydd y Prosiect hwn yn gosod y rhanbarth fel Canolfan o Arbenigedd Rhyngwladol mewn signalu digidol, ac yn cynyddu lefelau penodol o fasnacheiddio ymchwil mewn sectorau gwerth uchel. Yn ogystal, bydd yn cynyddu nifer y graddedigion ac ôl-raddedigion mewn disgyblaethau y mae galw uchel amdanynt o fewn y rhanbarth.

Bydd yn creu 160 o swyddi uniongyrchol ac yn cynhyrchu 30 yn ychwanegol o raddedigion medrus iawn yn y gweithlu lleol bob blwyddyn.

Mae'r Prosiect yn cyd-fynd yn agos â'r Prosiect Cysylltedd Isadeiledd Digidol, ynghyd â busnes craidd Parc Gwyddoniaeth M-Sparc yn Ynys Môn.

**Mae hwn yn brosiect a gaiff ei ariannu drwy'r Cynllun Twf.**

Caiff y Prosiect ei gyflawni rhwng 2019 a 2021.

Cyfanswm cost y Prosiect yw £7.4m.

## Prosiect Sgiliau Digidol i Ogledd Cymru
## [Prif Noddwr: 6 Awdurdod Lleol]

Nod y Prosiect hwn yw datblygu cynllun cyflawni clir i wella sgiliau digidol y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol yn y Gogledd.

Bydd yn bartneriaeth rhwng Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Grŵp Llandrillo-Menai, Coleg Cambria a'r chwe Awdurdod Lleol. Caiff y cynllun cyflawni ei gydlynu gan y Bartneriaeth Sgiliau a Chyflogaeth Ranbarthol.

Mae hwn yn brosiect allweddol o fewn y Rhaglen a bydd yn sicrhau bod y gweithlu wedi'i arfogi â'r sgiliau angenrheidiol i gadw i fyny â chyflymder newidiadau digidol a thechnolegol. Mae'n rhaid i ni gynyddu'r cyflenwad o sgiliau digidol ar draws yr economi. Tyfodd nifer y swyddi digidol, sy'n gofyn am lefel uchel o sgiliau ac sy'n talu'n dda, ddwywaith yn gyflymach na swyddi eraill rhwng 2011 a 2015 (Strategaeth Ddiwydiannol y DU). Mae'n rhaid i ni sicrhau fod y cwricwlwm cyfrifiadurol ar gyfer disgyblion 5-16 oed, yn cynnwys codio ac agweddau elfennol rhaglennu, yn uchelgeisiol ac yn drwyadl. Mae'n rhaid i ni gyflawni rhaglen gynhwysfawr i wella addysgu cyfrifiadureg a chynyddu cyfranogiad mewn cyfrifiadureg.

Bydd yr oes ddigidol newydd yn newid swyddi a busnesau, ac rydym am sicrhau bod y gweithlu lleol yn y Gogledd yn medru cymryd mantais o'r cyfleoedd hyn.

**Mae'r Prosiect hwn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.**

## 9. Rhaglen Trafnidiaeth Strategol

**Bydd y Rhaglen hon yn cynnwys Prosiectau i wella isadeiledd trafnidiaeth lleol i gefnogi hygyrchedd a chysylltedd.**

**Bydd cyflawni'r rhaglen yn gwella cysylltedd rhanbarthol, mynediad i gyflogaeth a thwf economaidd a busnesau. Bydd pwyntiau tagfeydd yn cael eu taclo, bydd trafnidiaeth wedi'i hintegreiddio'n well a bydd dewisiadau amgen i fynediad ar ffyrdd yn cael eu datblygu. Caiff y rhanbarth ei baratoi ar gyfer datgarboneiddio ein rhwydweithiau trafnidiaeth.**

### Prosiect Trafnidiaeth Strategol
### [Prif Noddwr: 6 Awdurdod Lleol]

Pwrpas y prosiect yw gwella cysylltedd trafnidiaeth ledled y Gogledd. Mae'r rhwydwaith trafnidiaeth yn ddibynnol iawn ar geir preifat a cherbydau nwyddau i wasanaethu busnes a thwristiaeth. Mae amseroedd teithiau yn hir, mae mwyfwy o dagfeydd ar y rhwydwaith ffyrdd, mae darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn dameidiog ac ychydig iawn o integreiddio sydd rhwng y gwahanol ddulliau trafnidiaeth.

Bydd y prosiect yn cyflawni nifer o Barthau Trafnidiaeth Integredig ledled y Gogledd. Ardaloedd yw'r rhain lle ceir gwrthdaro rhwng siwrneiau lleol a theithio pellter hirach ar y rhwydwaith ffyrdd strategol. Mae hyn yn achosi pwyntiau penodol o dagfeydd, gan effeithio ar fynediad i gyflogaeth a gwasanaethau, lleihau'r gallu i deithio i'r gwaith ac ychwanegu costau i gadwyni cyflenwi busnesau.

Mae Parthau Teithio Integredig wedi'u hadnabod ar gyfer y lleoliadau a ganlyn

- Coridor Glannau Dyfrdwy
- Yr A483 a Chanol Tref Wrecsam
- Prestatyn, Abergele, Llanelwy a Llandudno, Conwy, Bae Colwyn
- Coridor Menai Caernarfon
- Gogledd Ynys Môn

Yn ogystal, mae rhai prosiectau ar draws y rhanbarth wedi'u hanelu at baratoi'r tir ar gyfer datgarboneiddio trafnidiaeth, gwella integreiddio rhwng dulliau trafnidiaeth a darparu datrysiadau trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig ac ymylol sy'n ddibynnol ar geir preifat ar gyfer trafnidiaeth ar hyn o bryd.

Mae angen arian er mwyn cyflawni prosiectau trafnidiaeth cysylltiedig yn yr ardaloedd sydd wedi'u hadnabod uchod. Caiff y prosiect ei gyflawni rhwng Mawrth 2019 a Mawrth 2024.

Mae'r prosiect yn cefnogi'r holl brosiectau eraill yn y Ddogfen Gynnig ac mae'r deilliannau a'r allbynnau yn debygol o fod yn gysylltiedig ag amcanion trafnidiaeth yn hytrach na swyddi penodol a buddsoddiad preifat. Yn sylfaenol, mae trafnidiaeth yn hwyluso twf economaidd a heb yr ymyraethau sy'n cael eu datblygu, bydd y twf yn cael ei lyffetheirio. Mae'r deilliannau i'w cyflawni o'r prosiect fel a ganlyn:

- Galluogi i fusnesau gael mynediad at farchnadoedd, nwyddau, gwasanaethau a llafur
- Y boblogaeth leol yn cael mynediad i gyflogaeth, addysg a gwasanaethau
- Ymwelwyr yn cael mynediad i gyrchfannau, llety ac atyniadau yn y rhanbarth
- System trafnidiaeth integredig llwyr sy'n galluogi i deithiau car nad ydynt yn rhai preifat gael eu gwneud yn rhwydd ac yn gost-effeithiol
- Isadeiledd trafnidiaeth cynaliadwy nad yw'n difrodi'r amgylchedd

Mae'r sector preifat yn gefnogol i'r prosiect hwn gyda phobl broffesiynol Busnesau Wrecsam yn datgan:

*"Rydym yn falch bod yr angen i gryfhau'r isadeiledd trafnidiaeth yn ardal Wrecsam wedi'i adnabod."*

**Mae hwn yn brosiect a gaiff ei ariannu drwy'r Cynllun Twf.**

Cost y Prosiect yw £80 miliwn. Amcangyfrifir y bydd y Prosiect yn creu dros 1,950 o swyddi anuniongyrchol neu adeiladwaith ledled y rhanbarth.

Caiff y Prosiect ei gyflawni rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2024.

Mae'r tabl isod yn amlygu sut mae'r Weledigaeth, y Nodau, y Rhaglenni a'r Prosiectau oll yn cysylltu â'i gilydd.

## *Gweledigaeth, Nodau, Rhaglenni a Phrosiectau*

| **Un Weledigaeth**<br>*"wedi'i diffinio fel golwg idealistig o'r deilliant dymunol i'w gynhyrchu ar gyfer y rhanbarth. Mae'n ymwneud â chreu darlun meddyliol a'i bwrpas fydd symbylu ac ysbrydoli"* | **Tri Nod**<br>*"wedi'u diffinio fel datganiad eang o ddeilliannau dymunol i'r rhanbarth - yn gysylltiedig â'r weledigaeth"* | **Naw Rhaglen**<br>*"wedi'u diffinio fel grŵp o brosiectau cysylltiedig sydd wedi'u rheoli mewn ffordd gydlynol i sicrhau buddion a chyflawni'r weledigaeth a'r nodau cyffredinol"* | **24 Prosiect**<br>*"gyda man cychwyn a gorffen wedi'u diffinio ac amcanion penodol sydd, pan gânt eu cyflawni, yn arwydd eu bod wedi'u cwblhau"* |
|---|---|---|---|
| **Y weledigaeth yw datblygu "*rhanbarth hyderus, cydlynol sydd â thwf economaidd cynaliadwy, sy'n elwa i'r eithaf o lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a'n cysylltiad ag economïau Pwerdy'r Gogledd ac Iwerddon*"** | **GOGLEDD CYMRU FLAENGAR (gan ganolbwyntio ar arloesedd mewn sectorau allweddol i symud perfformiad economaidd ymlaen)**<br>- Arwain arloesedd mewn ynni carbon isel a niwclear, gweithgynhyrchu uwch "blaengar" a'r sectorau digidol a chreadigol, gan adeiladu ar fentrau a chryfderau presennol i gynyddu buddsoddiad a chyflogaeth yn y sectorau hyn;<br>- Adeiladu mas critigol o arbenigedd byd-eang yn y sectorau arweiniol hyn a gwneud y mwyaf o gyfleoedd cadwyn cyflenwi er mwyn i fusnesau brodorol yn y rhanbarth dyfu;<br>- Drwy gydweithio agos rhwng busnesau a chanolfannau ymchwil arweiniol a Phrifysgolion, hwyluso cyfnewid gwybodaeth, arloesedd a masnacheiddio technoleg er mwyn hyrwyddo rhagoriaeth sy'n arwain y sector a thwf a datblygiad mentrau bach a chanolig eu maint;<br>- Tyfu busnesau digidol, rhai brodorol a rhai sy'n buddsoddi, a chreu clwstwr digidol cystadleuol ac amrywiol iawn a fydd yn cadarnhau safle'r rhanbarth fel canolbwynt o ragoriaeth technoleg a digidol;<br>- Adeiladu ar y rhwydwaith cryf o gwmnïau angori gyda phroffil rhyngwladol a datblygu portffolio o safleoedd datblygu sydd wedi'u gwasanaethau'n dda, sy'n hygyrch ac sy'n barod ar gyfer y farchnad ledled y rhanbarth. | **1. Datblygu Tir ac Eiddo**<br>• er mwyn mynd i'r afael â'r prinder o safleoedd ac eiddo addas i fusnesau allu tyfu a chyflwyno safleoedd ar gyfer datblygiadau tai | - Prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol |
| | | **2. Mynediad Blaengar i Ynni**<br>• cyflawni'r gwelliannau isadeiledd y mae eu hangen fel bod y Gogledd yn un o leoliadau arweiniol yn y DU ar gyfer cynhyrchu ynni | - Prosiect Porth Caergybi<br>- Prosiect Gorsaf Bŵer Trawsfynydd<br>- Prosiect Morlais<br>- Prosiect Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar |
| | | **3. Canolbwynt Technoleg ac Arloesedd Blaengar**<br>• cyflawni adnoddau o safon fyd-eang mewn cyfleusterau sy'n arwain y sector, gan adeiladu ar arbenigedd yn y rhanbarth a sbarduno effaith economaidd o ymchwil a thechnoleg | - Canolfan Ragoriaeth Ynni Niwclear<br>- Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter (EEOC)<br>- Ffatri 3D y DU*<br>- Prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon<br>- Prosiect Canolfan Technoleg Amgylcheddol ac Achredu Diwydiannol<br>- Fferm Carbon Niwtral Llysfasi - Canolfan Technoleg ac Ynni Adnewyddadwy |
| | | **4. Cronfa a Chanolbwynt Twf Busnes Rhanbarthol**<br>• darparu cyngor a chefnogaeth ariannol a thechnegol sy'n gydlynol i fusnesau ledled y rhanbarth | - Cronfa Twf Busnes Rhanbarthol Gogledd Cymru (RBGF)* |
| | | **5. Twristiaeth Antur**<br>• gwella ansawdd y cynnig twristiaeth antur yn y Gogledd er mwyn cyrraedd safonau rhyngwladol a chynyddu sail gwerth y diwydiant yn y rhanbarth | - Buddsoddiad Cyfalaf Twristiaeth Antur Gogledd Cymru |
| | **GOGLEDD CYMRU WYDN (cadw pobl ifanc, codi lefelau cyflogaeth a gwella sgiliau)**<br>- Cadw pobl ifanc a lleihau allfudo drwy gynnig dyfodol cadarnhaol;<br>- Cynyddu lefelau cyflogaeth, lleihau anweithgarwch a lleihau nifer yr aelwydydd di-waith;<br>- Cyflawni "twf cynhwysol" a mynediad cyfartal - cysylltu'r farchnad lafur ac ardaloedd â swyddi a chyfleoedd ar gyfer twf busnes - drwy well mynediad at drafnidiaeth a sgiliau;<br>- Bod yn arloesol wrth gynllunio sgiliau a chyflogaeth, gydag ysgolion a darparwyr hyfforddiant yn cydweithio i gefnogi blaenoriaethau economaidd rhanbarthol ac arfogi pobl ifanc â'r sgiliau y mae cyflogwyr eu hangen yn barod i'w cyflogi;<br>- Llwyddo wrth sicrhau bod twf yn gyraeddadwy ac yn cael ei ledaenu ledled y rhanbarth, gan barchu a rhoi gwerth i nodweddion diwylliannol ac ieithyddol y Gogledd. | **6. Llwybrau i Sgiliau a Chyflogaeth**<br>• mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd a chyflawni gwasanaeth cyngor a chefnogaeth sgiliau a chyflogaeth cydlynol, yn benodol i uwch-sgilio pobl ar gyfer gwaith yn y dyfodol | - Porth Gwybodaeth a Chyngor<br>- Llwybr Cyflogadwyedd* |
| | | **7. Canolfannau Rhagoriaeth Sgiliau**<br>• creu'r amgylchiadau i gynyddu cyflenwad sgiliau mewn sectorau twf allweddol, gan ganolbwyntio ar wella'r isadeiledd sgiliau yn y rhanbarth | - Canolfan Ragoriaeth Twristiaeth a Lletygarwch Gogledd Cymru<br>- Canolfan Ragoriaeth Peirianneg Rheilffyrdd Gogledd Cymru*<br>- STEM Rhanbarthol - Cyflawni Rhagoriaeth*<br>- Iechyd a Gofal Cymdeithasol gydag Addysg Uwch Gogledd Cymru - Cyflawni Rhagoriaeth*<br>- Awtomatiaeth Ddigidol Gogledd Cymru - Cyflawni Rhagoriaeth* |
| | **GOGLEDD CYMRU GYSYLLTIEDIG (gwella isadeiledd trafnidiaeth a digidol er mwyn gwella cysylltedd i'r rhanbarth ac o'i fewn)**<br>- Gwella isadeiledd trafnidiaeth, yn benodol ffyrdd a rheilffyrdd, i hwyluso twf economaidd a symud pobl, nwyddau a gwasanaethau;<br>- Datblygu canolfannau trafnidiaeth integredig i (1) gysylltu ardaloedd gyda chanolfannau cyflogaeth a'r rhwydwaith trafnidiaeth rhanbarthol a chenedlaethol - ffyrdd, awyr a rheilffyrdd a (2) cyflawni newid moddol o drafnidiaeth breifat i gyhoeddus;<br>- Adnabod a chyflwyno datrysiadau trafnidiaeth carbon isel;<br>- Gostwng tagfeydd traffig ar lwybrau ffyrdd strategol i wella cysylltedd a mynediad;<br>- Diweddaru mynediad i rwydweithiau digidol ac isadeiledd yn y rhanbarth i gefnogi swyddogaeth, natur gystadleuol a thwf y sector busnes brodorol gyda phwyslais ar fentrau bach a chanolig eu maint. | **8. Cysylltedd Digidol**<br>• cyflawni mynediad safonol i gysylltedd digidol effeithiol a fforddiadwy i fusnesau a chartrefi ledled y rhanbarth | - Prosiect Cysylltedd Digidol Gogledd Cymru<br>- Prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol<br>- Prosiect Sgiliau Digidol i Ogledd Cymru* |
| | | **9. Trafnidiaeth Strategol**<br>• gwella isadeiledd trafnidiaeth lleol i gefnogi hygyrchedd a chysylltedd | - Prosiect Trafnidiaeth Strategol Rhanbarthol |

**** wrthi'n cael ei ddatblygu***

Tudalen 56

| RHAGLEN | Swyddi Anuniongyrchol / Adeiladu | Swyddi Uniongyrchol a grëir | Buddsoddiad Uniongyrchol gan y Sector Preifat | Buddsoddiad Anuniongyrchol y Sector Preifat * | Gwell Sail Sgiliau |
|---|---|---|---|---|---|
| **1. Cysylltedd Digidol** | | | | | |
| 1.1. Prosiect Cysylltedd Digidol Gogledd Cymru | 2,100 | n/a | - | £250m | Effaith Ganolig |
| 1.2. Prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol | 120 | 160 | £1.44m | £15m | Effaith Uchel |
| 1.3. Prosiect Sgiliau Digidol i Ogledd Cymru* | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| **2. Datblygu Tir ac Eiddo** | | | | | |
| 2.1. Prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol | 2750 | 2875 | £34m | £637.4m | Effaith Ganolig |
| **3. Twristiaeth Antur** | | | | | |
| 3.1 Buddsoddiad Cyfalaf Twristiaeth Antur Gogledd Cymru | 450 | 175 | £20m | £40m | - |
| **4. Mynediad Blaengar i Ynni** | | | | | |
| 4.1. Prosiect Porth Caergybi | 1,589 | 1,250 | £45m | £80m | Effaith Ganolig - Uchel |
| 4.2. Prosiect Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | 2,500 | 250 | - | £2bn | Effaith Uchel |
| 4.3. Prosiect Morlais | 300 | 230 | £0.4m | £5m | Effaith Ganolig |
| 4.4. Prosiect Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar | 190 | 25 | - | £3m | Effaith Ganolig |
| **5. Canolbwynt Technoleg ac Arloesedd Blaengar** | | | | | |
| 5.1. Prosiect Canolfan Ragoriaeth Niwclear | - | 90 | - | £21m | Effaith Uchel |
| 5.2. Prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | 370 | 145 | - | £31.4m | Effaith Uchel |
| 5.3. Ffatri 3D y DU* | n/a | n/a | - | n/a | n/a |
| 5.4. Prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | 91 | 80 | - | - | Effaith Uchel |
| 5.5. Prosiect Canolfan Technoleg Amgylcheddol ac Achredu Diwydiannol | 350 | 128 | £1m | £11.2m | Effaith Uchel |
| 5.6. Fferm Carbon Niwtral Llysfasi - Canolfan Technoleg ac Ynni Adnewyddadwy | - | - | £5m | £5m | Effaith Uchel |
| **6. Cronfa a Chanolbwynt Twf Busnes Rhanbarthol** | | | | | |
| 6.1. Cronfa Twf Busnes Rhanbarthol Gogledd Cymru (RBGF)* | n/a | n/a | n/a | n/a | Effaith Ganolig |
| **7. Llwybrau i Sgiliau a Chyflogaeth** | | | | | |
| 7.1. Porth Gwybodaeth a Chyngor | - | - | £1.5m | - | Effaith Uchel |
| 7.2. Llwybr Cyflogadwyedd* | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| **8. Canolfannau Rhagoriaeth Sgiliau** | | | | | |
| 8.1. Canolfan Ragoriaeth Twristiaeth a Lletygarwch Gogledd Cymru | 150 | - | £1.25m | £36.2m | Effaith Uchel |
| 8.2. Canolfan Ragoriaeth Peirianneg Rheilffyrdd Gogledd Cymru* | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| 8.3. STEM Rhanbarthol - Cyflawni Rhagoriaeth* | n/a | n/a | n/a | n/a | - |
| 8.4. Iechyd a Gofal Cymdeithasol gydag Addysg Uwch Gogledd Cymru - Cyflawni Rhagoriaeth* | n/a | n/a | n/a | n/a | - |
| 8.5. Awtomatiaeth Ddigidol Gogledd Cymru - Cyflawni Rhagoriaeth* | n/a | n/a- | n/a | n/a | - |
| **9. Trafnidiaeth Strategol** | | | | | |
| 9.1. Prosiect Trafnidiaeth Strategol Rhanbarthol | 1,950 | - | - | - | Effaith Ganolig |
| **CYFANSWM:** | **12,910** | **5,408** | **£118.59M** | **£3.12BN** | |

***wrthi'n cael ei ddatblygu***

| RHAGLEN | COSTAU AC ARIANNU | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm Buddsoddiad / Costau | Cyfraniad Uniongyrchol gan y Sector Preifat | Cyfraniad Anuniongyrchol drwy'r Sector Preifat** | Cyfraniadau Eraill gan Bartneriaid Amrywiol | Cyfraniad y Cynllun Twf Rhanbarthol | |
| | | | | | Cyfalaf | Refeniw |
| **1. Cysylltedd Digidol** | | | | | | |
| 1.1. Prosiect Cysylltedd Digidol Gogledd Cymru | £66.75m | - | £250m | £28.25m | £38.5m | - |
| 1.2. Prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol | £7.4m | £1.44m | £15m | £3.025m | £3m | - |
| 1.3. Prosiect Sgiliau Digidol i Ogledd Cymru* | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| **2. Datblygu Tir ac Eiddo** | | | | | | |
| 2.1. Prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol | £124m | £34m | £637.4m | - | £90m | - |
| **3. Twristiaeth Antur** | | | | | | |
| 3.1. Buddsoddiad Cyfalaf Twristiaeth Antur Gogledd Cymru | £40m | £20m | £20m | - | £20m | - |
| **4. Mynediad Blaengar i Ynni** | | | | | | |
| 4.1. Prosiect Porthladd a Morglawdd Caergybi | £80m | £45m | £80m | - | £35m | - |
| 4.2. Prosiect Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | £20m | - | £2bn | - | £20m | - |
| 4.3. Prosiect Morlais | £28m | - | £0.4m | £19m | £9m | - |
| 4.4. Prosiect Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar | £18m | - | £3m | £6m | £12m | - |
| **5. Canolbwynt Technoleg ac Arloesedd Blaengar** | | | | | | |
| 5.1. Prosiect Canolfan Ragoriaeth Niwclear | £87.2m | - | £21m | £68.6m | £18.6m | - |
| 5.2. Prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | £30.7m | - | £31.4m | £20.3m | £10.4m | - |
| 5.3. Ffatri 3D y DU* | n/a | - | n/a | n/a | n/a | - |
| 5.4. Prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | £13m | - | - | £3m | £10m | - |
| 5.5. Prosiect Canolfan Technoleg Amgylcheddol ac Achredu Diwydiannol | £29.1m | £1m | £11.2m | £20.1m | £8m | - |
| 5.6 Fferm Carbon Niwtral Llysfasi - Canolfan Ynni Adnewyddadwy a Thechnoleg Digidol Fanwl | £20m | £5m | £5m | £5m | £10m | - |
| **6. Cronfa a Chanolbwynt Twf Busnes Rhanbarthol** | | | | | | |
| 6.1. Cronfa Twf Busnes Rhanbarthol Gogledd Cymru (RBGF)* | n/a | - | n/a | n/a | n/a | n/a |
| **7. Llwybrau i Sgiliau a Chyflogaeth** | | | | | | |
| 7.1. Porth Gwybodaeth a Chyngor | £10.25m | £1.5m | £1.5m | £0.75m | - | £8m |
| 7.2. Llwybr Cyflogadwyedd* | - | - | n/a | - | - | - |
| **8. Canolfannau Rhagoriaeth Sgiliau** | | | | | | |
| 8.1. Canolfan Ragoriaeth Twristiaeth a Lletygarwch Gogledd Cymru | £16.25m | £1.25m | £36.2m | £5m | £10m | - |
| 8.2. Canolfan Ragoriaeth Peirianneg Rheilffyrdd Gogledd Cymru* | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | - |
| 8.3. STEM Rhanbarthol - Cyflawni Rhagoriaeth* | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| 8.4. Iechyd a Gofal Cymdeithasol gydag Addysg Uwch Gogledd Cymru - Cyflawni Rhagoriaeth* | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| 8.5. Awtomatiaeth Ddigidol Gogledd Cymru - Cyflawni Rhagoriaeth* | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| **9. Trafnidiaeth Strategol** | | | | | | |
| 9.1. Prosiect Trafnidiaeth Strategol Rhanbarthol | £80m | - | - | £40m | £40m | - |
| **CYFANSWM:** | **£670.65M** | **£109.19M** | **£3.12BN** | **£219.46M** | **£334.5M** | **£8M** |

*****gwerth buddsoddiad y sector preifat a geir o ganlyniad uniongyrchol i gyflawni'r prosiect*** **** wrthi'n cael ei ddatblygu***

| Prosiectau Craidd Posib y Cynllun Twf | Cyfanswm Buddsoddiad / Costau | Cyfraniad y Cynllun Twf Rhanbarthol | |
|---|---|---|---|
| | | Cyfalaf | Refeniw |
| | | | |
| 1. Prosiect Cysylltedd Digidol Gogledd Cymru | £66.75m | £38.5m | - |
| 2.Prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol | £124m | £90m | - |
| 3.Prosiect Porth Caergybi | £80m | £35m | - |
| 4.Prosiect Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | £20m | £20m | - |
| 5.Prosiect Trafnidiaeth Strategol Rhanbarthol | £80m | £40m | - |
| 6.Canolfan Ragoriaeth Ynni Niwclear | £87.2m | £18.6m | - |
| 7.Prosiect Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar | £18m | £12m | - |
| 8.Porth Gwybodaeth a Chyngor | £10.25m | - | £8m |
| 9.Prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | £30.7m | £10.4m | - |
| 10.Prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | £13m | £10m | - |
| 11.Fferm Carbon Niwtral Llysfasi - Canolfan Technoleg ac Ynni Adnewyddadwy | £20m | £10m | - |
| 12.Prosiect Morlais | £28m | £9m | - |
| 13.Canolfan Ragoriaeth Twristiaeth a Lletygarwch Gogledd Cymru | £16.25m | £10m | - |
| 14.Prosiect Canolfan Technoleg Amgylcheddol ac Achredu Diwydiannol | £29.1m | £8m | - |
| 15.Prosiect Cyfalaf Twristiaeth Antur Gogledd Cymru | £40m | £20m | - |
| 16.Prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol | £7.4m | £3m | - |
| **CYFANSWM:** | **£670.65M** | **£334.5M** | **£8M** |

## RHAN 9 - GRYMUSO'R RHANBARTH

Rydym yn ceisio cefnogaeth Llywodraeth y DU a Chymru i dderbyn y capasiti a'r rhyddid i wneud penderfyniadau allweddol ar lefel ranbarthol.

Ers 2010, mae Cynlluniau Twf Dinasoedd a Bargeinion Datganoli wedi symud grym, ynghyd ag arian, i ardaloedd lleol i'w galluogi nhw i wneud penderfyniadau strategol ynghylch blaenoriaethau lleol. Ar y cyd, mae'r cynlluniau pwrpasol hyn wedi galluogi i lefydd ddatblygu cynlluniau hirdymor, cryfhau arweinyddiaeth leol a chael mwy o rym i greu'r amodau cywir ar gyfer twf.

Bydd ar y rhanbarth angen grymoedd a chyfrifoldebau newydd ychwanegol i fod yn effeithiol wrth hwyluso twf economaidd a chyflawni ei Strategaeth yn hyderus:

- Mae'r rhanbarth yn gwahodd Llywodraeth Cymru i gefnogi ffurfio Corff Trafnidiaeth Rhanbarthol ac ariannu'r gwaith o gyflawni rhwydwaith trafnidiaeth integredig sydd wedi'i gynllunio'n dda. Bydd angen grymoedd ychwanegol i alluogi cynllunio rhwydweithiau trafnidiaeth teithwyr integredig.
- Mae'r rhanbarth yn gwahodd Llywodraeth y DU i gyd-gomisiynu a chyd-ddylunio rhaglenni cyflogaeth o fewn y rhanbarth i gyflawni gwasanaeth mwy integredig a chydlynol. Bydd hyn yn ddibynnol ar gael hyblygrwydd gan Lywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i integreiddio rhaglenni ariannu ar gyfer y rhanbarth i fod yn fwyaf effeithiol wrth dynnu pobl oddi ar fudd-daliadau ac i mewn i waith.
- Mae rhanbarth yn gofyn i Lywodraeth Cymru sefydlu Cyd-fenter i gyflawni cynlluniau datblygu tir ac eiddo sydd ar y gweill ledled y Gogledd.
- Bydd ar y rhanbarth angen i Lywodraeth Cymru gefnogi dynodiad rhanbarthol o'r Ardoll Treth Prentisiaethau.
- Bydd y rhanbarth yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i ymdriniaeth ddatganoledig a chydlynol i ddatblygu'r economi ar y lefel ranbarthol - er mwyn cyd-leoli dulliau dylanwadu a chymorth allweddol i fusnesau o fewn y Canolbwynt Twf Busnes Rhanbarthol. Bydd y Canolbwynt yn cronni adnoddau o ledled y rhanbarth a bydd yn darparu ymagwedd gyson i ddatblygu'r economi a busnesau.
- Mae'r rhanbarth yn ceisio cefnogaeth Llywodraeth Cymru i gadw cyfran o gyfraddau annomestig cenedlaethol (trethi busnes) i fuddsoddi mewn twf economaidd.
- Mae'r rhanbarth yn gofyn i Lywodraeth Cymru ganiatáu ystwytho rheolau grant ac atebolrwydd ar gyfer rhaglenni diwygio cymdeithasol a gwrthdlodi.
- Bydd ar y rhanbarth angen cefnogaeth gan Raglen Bargeinion Sector Llywodraeth y DU i gyflawni gweithgaredd ychwanegol sy'n cefnogi cyflawni ein gweledigaeth a'n nodau - fel yr amlinellir yn y ddogfen hon. Rhoddir ffocws penodol ar y cyfleoedd a ddaw o Fargen y Sector Niwclear a Rhaglen Bargen y Sector Adeiladu.

## RHAN 10 - Y STRWYTHUR LLYWODRAETHU A CHYFLAWNI

Mae bob un o’r chwe Awdurdod Lleol a’r partneriaid allweddol eraill o Addysg Uwch, Addysg Bellach a’r Sector Preifat yn y rhanbarth wedi cymeradwyo ffurfio Cyd-bwyllgor Statudol i gyfarwyddo, goruchwylio a hwyluso datblygu a chyflawni’r Weledigaeth Twf. Mae hyn yn adlewyrchu’r ymrwymiad yn rhanbarth y Gogledd rhwng y Partneriaid i gydweithio er un pwrpas cyffredin sef hwyluso a chyflymu twf economaidd.

Gelwir y Cyd-bwyllgor yn Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Bydd y Bwrdd yn gosod y trefniadau llywodraethu a chyflawni er mwyn gweithredu swyddogaethau strategol ar y lefel ranbarthol. Bydd y swyddogaethau hyn yn cynnwys datblygu’r economi, sgiliau a chyflogaeth, trafnidiaeth a chynllunio defnydd tir.

Caiff y Bwrdd Uchelgais Economaidd gefnogaeth gan Fforwm Rhanddeiliaid newydd, a fydd yn dwyn ynghyd yr holl bartneriaid perthnasol ar lefel ranbarthol. Bydd y sector preifat yn chwarae rôl flaenllaw yn y Fforwm Rhanddeiliaid newydd.

### *Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru*

Mae prif swyddogaeth a gweithgareddau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd yn cynnwys yr hyn a ganlyn:

- Rhoi arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar gyfer cyfeiriad strategol a deilliannau mewn swyddogaethau strategol allweddol, yn arbennig trafnidiaeth, sgiliau a chyflogaeth, datblygu'r economi a chynllunio defnydd tir.
- Bod yn llais cryf ac unedig dros y Gogledd.
- Cydlynu cynllunio a chyflawni'r Weledigaeth Twf, gan ganolbwyntio ar y Cynllun Twf.
- Rhoi cyfeiriad i’r Is-fyrddau a chymryd rôl "comisiynu".

Ceir cylch gorchwyl y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn ***Atodiad 2***.

Mae Cytundeb Llywodraethu wedi'i ddatblygu ar gyfer cymal cyntaf cynllunio a datblygu'r Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf. Mae hwn wrthi'n cael ei fabwysiadu gan yr holl bartneriaid sy'n Aelodau o'r Bwrdd Uchelgais. Mae'r Cytundeb yn mynd i'r afael â'r Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth, pleidleisio a gwneud penderfyniadau, rhannu risgiau, materion a gedwir yn ôl, a threfniadau craffu.

Bydd ail Gytundeb Llywodraethu mwy cynhwysfawr yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno ar gyfer gweithredu a chyflwyno ail gymal y Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf - yn gynnar yn 2019. Cyd-bwyllgor Gweithredol yw'r Model Llywodraethu a ddewiswyd ar gyfer y Bwrdd h.y. Cyd-bwyllgor o Gabinet pob un o'r chwe Awdurdod Lleol yn y Gogledd. Er mwyn sicrhau cyfranogiad llwyr bob partner perthnasol, gan gynnwys cynrychiolwyr o Addysg Uwch, Addysg Bellach a'r sector preifat, bydd y Bwrdd yn ceisio cael cytundeb cyn gwneud penderfyniadau neu fynd i bleidlais ffurfiol.

### *Is-fyrddau Cyflawni*

Is-bwyllgorau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd fydd yr Is-fyrddau Cyflawni, a chaiff rhai o'r Is-fyrddau eu ffurfio gyda phwerau dirprwyedig i wneud penderfyniadau, fel y cytunwyd, o fewn eu maes cyfrifoldeb. Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar bump Is-fwrdd Cyflawni gyda'r rôl a'r swyddogaethau a ganlyn:

- Cynllunio a chydlynu gwasanaeth trafnidiaeth integredig a chydgysylltiedig yn y Gogledd.

- Cynllunio a chydlynu'r gwaith o gyflawni ymyraethau strategol, gan gynnwys prosiectau'r Cais Twf.
- Adrodd ar gynnydd, perfformiad, deilliannau a materion ariannu i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Bydd pump Is-fwrdd Cyflawni yn adrodd i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd:

- Is-fwrdd Digidol
- Is-fwrdd Sgiliau a Chyflogaeth
- Is-fwrdd Trafnidiaeth
- Is-fwrdd Menter ac Arloesedd
- Is-fwrdd Safleoedd ac Eiddo

### *Fforwm Rhanddeiliaid*

Bydd y Fforwm Rhanddeiliaid yn chwarae rôl allweddol gynghori, cefnogi a herio'r Bwrdd Uchelgais Economaidd. Ceir Cylch Gorchwyl y Fforwm Rhanddeiliaid yn ***Atodiad 3***.

Bydd y Fforwm Rhanddeiliaid yn cynnwys cynrychiolwyr busnes o'r holl sectorau twf a sylfaen allweddol, er mwyn rhoi mewnbwn a chyngor arbenigol i aelodau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd.

### *Map Llywodraethu*

Mae'r model llywodraethu yn un cyfreithiol, ymarferol a chredadwy. Mae'r "map llywodraethu" cyffredinol wedi'i gynnwys yn ***Atodiad 4***.

Mae Swyddogion Monitro pob un o'r chwe Awdurdod Lleol wedi bod yn rhan o'r broses o ddylunio a datblygu strwythur "llywodraethu" Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

### *Awdurdod Lletya*

Mae angen awdurdod lletya er mwyn cyflawni'r Weledigaeth Twf ar gyfer y rhanbarth. Bydd yr "awdurdod lletya" yn rhoi cyngor, cefnogaeth a gwasanaethau proffesiynol i'r bartneriaeth er mwyn iddi weithredu'r effeithiol drwy Swyddfa Rhaglen bwrpasol. Yr awdurdod lletya fydd y corff atebol ar gyfer Cynllun Twf hefyd.
Mae papur sy'n rhoi amlinelliad o rôl yr awdurdod lletya wedi'i gynnwys yn ***Atodiad 5***.

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

# ATODIAD 2

## AMLINELLIAD O GYLCH GORCHWYL BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU (Y CYD-BWYLLGOR)

1. Swyddogaethau
2. Strategaeth
3. Blaenoriaethu
4. Cynrychiolaeth
5. Perfformiad
6. Cyfrifoldeb

### Cylch Gorchwyl 1:
### SWYDDOGAETHAU

- Strategaeth a chynllunio twf yr economi;
- Blaenoriaethu a chynllunio isadeiledd;
- Cynllunio a chlustnodi defnydd tir strategol;
- Cynllunio a chomisiynu trafnidiaeth;
- Strategaeth cynllunio a chomisiynu sgiliau;
- Eraill i'w hychwanegu wrth i bwerau gael eu datganoli.

### Cylch Gorchwyl 2:
### STRATEGAETH

Gosod cyfeiriad y strategaeth ranbarthol;
Asesiad parhaus o'r dystiolaeth am angen a chyfle rhanbarthol i danategu'r strategaeth;
Gosod blaenoriaethau a chynlluniau buddsoddi i gyflawni'r strategaeth.

### Cylch Gorchwyl 3:
### BLAENORIAETHU

Blaenoriaethu cynlluniau sy'n cyfrannu;

Datblygu achos busnes a gwneud achos ar gyfer cynlluniau a flaenoriaethir;

Proffilio a blaenoriaethu buddsoddiadau;

Sicrhau cytundebau buddsoddi.

## Cylch Gorchwyl 4:
## CYNRYCHIOLAETH

Rheoli ymgysylltu a pherthnasau gyda phartneriaid rhanbarthol;

Rheoli ymgysylltu a pherthnasau gyda phartneriaid traws-ffiniol;

Eiriolaeth a lobïo gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, Gweinidogion a grwpiau gwleidyddol;

Perthnasau a phroffil gyda'r cyhoedd a'r cyfryngau.

## Cylch Gorchwyl 5:
## PERFFORMIAD

Rheolaeth rhaglen a gweithredu'r strategaeth;

Goruchwylio perfformiad yn erbyn cerrig milltir cynnydd allweddol a mesurau deilliannau;

Sicrhau adnoddau strategol, rheolaeth rhaglen a datblygiad a rheolaeth prosiect er mwyn gweithredu cynlluniau sy'n cyfrannu.

## Cylch Gorchwyl 6:
## CYFRIFOLDEB

Adrodd i'r chwe awdurdod lleol;

Adrodd i bartneriaid rhanbarthol ar berfformiad, perfformiad buddsoddiadau a rheoli risg; Adrodd i Lywodraeth Cymru ar berfformiad a'r defnydd effeithiol o'i buddsoddiad; Adrodd i Lywodraeth y DU ar berfformiad a'r defnydd effeithiol o'i buddsoddiad.

## Cyfyngiadau Gwneud Penderfyniadau a Materion a Gedwir yn ôl

Mae enghreifftiau o benderfyniadau a gedwir ar gyfer cymeradwyaeth gan gynghorau unigol yn cynnwys:-

- Cytuno ar swyddogaethau i'w rhoi i'r Cyd-bwyllgor;
- Cytuno ar gyfraniadau cyllideb blynyddol ar gyfer y Cyd-bwyllgor a'r awdurdodau lletya;
- Ymrwymiadau buddsoddi a benthyca a lefelau amlygiad i risg; a
- Chlustnodi tir ac asedau eraill i'w pŵlio.

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

# ATODIAD 3

## CYLCH GORCHWYL
## GRŴP RHANDDEILIAID SECTOR PREIFAT

### STATWS:

- **Mae'r Fforwm yn Bartneriaeth o Randdeiliaid i gefnogi, cynghori a herio Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.**
- **Ni fydd gan y Fforwm hwn unrhyw bwerau ffurfiol i wneud penderfyniadau, ond bydd yn rhoi gwybod i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd beth yw ei farn ac yn gwneud argymhellion ar faterion polisi a gweithredol allweddol.**

### PWRPAS Y FFORWM:

Bod yn bartneriaeth allweddol o randdeiliaid i gydlynu cyngor i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a rhoi her, pan fo angen.

Mae gan y Fforwm y rolau a'r cyfrifoldebau penodol a ganlyn:

#### Strategol

- rhoi cyngor strategol ar ddatblygu, monitro a gwerthuso'r Weledigaeth Twf;
- rhoi cyngor a chefnogaeth i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ar faterion strategol yn ymwneud â thrafnidiaeth, sgiliau a chyflogaeth, datblygu'r economi a chynllunio defnydd tir;
- rhoi cyngor ar ddatblygu a gweithredu strategaeth ranbarthol i adfywio llefydd.

#### Rheoli Prosiectau a Rhaglenni

- rhoi cefnogaeth, cyngor a her yng nghyswllt datblygu a chyflawni Rhaglenni Strategol a gomisiynir gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd;
- rhoi cefnogaeth, cyngor a her yng nghyswllt datblygu a chyflawni Prosiectau a gomisiynir gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd, ac yn benodol y Prosiectau o fewn y Cynllun Twf;
- monitro ac adolygu cynnydd, effaith a pherfformiad y Rhaglenni a'r Prosiectau perthnasol a chyflwyno unrhyw argymhellion am newid i'r Bwrdd;
- cynghori a chyflwyno barn ac awgrymiadau i'r bwrdd ar yr achosion busnes ar gyfer Prosiectau, ac yn benodol y Prosiectau o fewn y Cynllun Twf.

#### Ymgysylltu

- hyrwyddo ymgysylltiad a chyfranogiad yr holl sectorau allweddol wrth ddatblygu a chyflawni Gweledigaeth Twf ar gyfer y Gogledd;
- ymgysylltu â rhanddeiliaid i adnabod unrhyw weithgarwch a buddsoddiad strategol y mae eu hangen i oresgyn rhwystrau sy'n atal twf, a chyflwyno unrhyw argymhellion i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd;
- ymgynghori â rhanddeiliaid i gasglu gwybodaeth am y farchnad, tystiolaeth a dadansoddiad o dueddiadau economaidd yn y rhanbarth a galw/methiant y farchnad i hysbysu a chefnogi gwaith y Bwrdd Uchelgais Economaidd.

### AELODAETH:

Bydd ei aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau economaidd twf a sylfaen.

Bydd y Fforwm Rhanddeiliaid yn cynnwys cynrychiolwyr busnes o'r holl sectorau twf a sylfaen allweddol, er mwyn rhoi mewnbwn a chyngor arbenigol i aelodau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd.

## RÔL Y CADEIRYDD (i'w hysbysebu a'i benodi'n gyhoeddus):

Disgwylir i'r Cadeirydd chwarae rôl allweddol wrth arwain y Fforwm, ac wrth roi cyngor o safon uchel i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Prif gyfrifoldebau'r Cadeirydd fydd:

- Chwarae rôl allweddol wrth hyrwyddo barn y Fforwm Rhanddeiliaid i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru;
- Arwain y Fforwm wrth fonitro datblygiad a chyflawniad y Cynllun Twf;
- Datblygu a chynnal perthynas effeithiol gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'i Is-bwyllgorau;
- Bod yn aelod ymgynghorol o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

## YSGRIFENYDDIAETH:

- Darperir ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Fforwm Rhanddeiliaid gan Swyddfa Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

.

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

# ATODIAD 4

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

## MAP LLYWODRAETHU

### Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

*Arwain ar y Strategaeth Ranbarthol a'r Cynllun Twf, gwneud penderfyniadau strategol arnynt ac bod yn atebol amdanynt*

### Fforwm Rhanddeiliaid

*Grŵp cyfeirio ymgynghorol yn cynnwys unigolion uchel eu parch o'r sectorau twf a sylfaen (drwy wahoddiad) i (1) awgrymu cysyniadau a chynigion (2) rhoi cyngor arbenigol a thystiolaeth i hwyluso gwneud penderfyniadau gwybodus a (3) dal y Bwrdd i gyfrif i*

### Is-fyrddau Thematig

*Cyfeiriad a gweithrediad Rhaglenni a Phrosiectau a gomisiynir gan y Bwrdd*

### Tîm Gweithredol Proffesiynol a'r Swyddfa Rhaglen

*Y tîm proffesiynol craidd a'r rhwydwaith o bartneriaid ymgynghorol sy'n darparu cyngor proffesiynol, cefnogaeth llywodraethu, gwasanaeth proffesiynol a chapasiti rheoli rhaglenni a phrosiectau (cynhelir gan yr Awdurdod Lletya)*

### Sefydliadau Partner

*Aelodau Bwrdd / Ymgynghorwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch, Awdurdodau Lleol*

### Cyngor Busnes NWMD

*Corff cynrychioladol y sector busnes i'r rhanbarth a thros y ffin*

*<u>Allwedd</u>*

*Glas – Gwneud Penderfyniadau*
*Piws - Ymgynghorol*

Tudalen 70

## Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

- darparu arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar gyfer cyfeiriad strategol a deilliannau mewn swyddogaethau strategol allweddol, yn benodol trafnidiaeth, sgiliau a chyflogaeth, datblygu economaidd a chynllunio defnydd tir;
- bod yn llais cryf ac unedig i ogledd Cymru;
- cydlynu cynllunio a chyflawni'r Weledigaeth Twf, gan ganolbwyntio ar y Cynllun Twf;
- rhoi cyfeiriad i'r Is-fyrddau a chymryd rôl "comisiynu".

### Is-fwrdd Cyflawni Digidol

- cynllunio a chydlynu'r fenter cysylltedd digidol yng ngogledd Cymru;
- cynllunio a chydlynu cyflawni ymyraethau cysylltedd digidol strategol, yn cynnwys prosiectau'r Cais Twf;
- adrodd ar gynnydd, perfformiad, deilliannau a materion ariannu i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

### Is-fwrdd Cyflawni Sgiliau a Chyflogaeth

- cynllunio a chydlynu gwasanaeth sgiliau a chyflogaeth integredig a chydgysylltiedig yng ngogledd Cymru;
- cynllunio a chydlynu cyflawni ymyraethau strategol, yn cynnwys prosiectau'r Cais Twf;
- adrodd ar gynnydd, perfformiad, deilliannau a materion ariannu i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

### Is-fwrdd Cyflawni Trafnidiaeth*

- cynllunio a chydlynu gwasanaeth trafnidiaeth integredig a chydgysylltiedig yng ngogledd Cymru;
- cynllunio a chydlynu cyflawni ymyraethau trafnidiaeth strategol, yn cynnwys prosiectau'r Cais Twf;
- adrodd ar gynnydd, perfformiad, deilliannau a materion ariannu i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

### Is-fwrdd Cyflawni Menter ac Arloesedd

- cynllunio a chydlynu gwasanaeth cefnogi busnes ac arloesedd integredig a chydgysylltiedig yng ngogledd Cymru;
- cynllunio a chydlynu cyflawni ymyraethau strategol, yn cynnwys prosiectau'r Cais Twf;
- adrodd ar gynnydd, perfformiad, deilliannau a materion ariannu i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

### Is-fwrdd Cyflawni Safleoedd ac Eiddo*

- cynllunio a chydlynu Gwasanaeth Cefnogi Eiddo integredig a chydgysylltiedig yng ngogledd Cymru;
- cynllunio a chydlynu cyflawni ymyraethau safleoedd ac eiddo strategol, yn cynnwys prosiectau'r Cais Twf;
- adrodd ar gynnydd, perfformiad, deilliannau a materion ariannu i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

***Is-fyrddau Cyflawni ffurfiol a gaiff eu ffurfio - ar y cam hwn - gyda phwerau dirprwyedig i wneud penderfyniadau ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru***

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

# ATODIAD 5

## CYFLAWNI'R WELEDIGAETH TWF AR GYFER GOGLEDD CYMRU
## AWDURDOD LLETYA

Mae angen awdurdod lletya ar gyfer partneriaethau cydweithredol sy'n cyflogi gweithwyr, yn rheoli grantiau'r llywodraeth, yn cytuno ar gontractau ac yn ymrwymo adnoddau. Mae awdurdod lletya yn gweithredu ar ran partneriaeth ac yn gweithredu fel ei phartner 'cartref'. Mae'r "awdurdod lletya" yn rhoi cyngor, cefnogaeth a gwasanaethau proffesiynol i'r bartneriaeth er mwyn iddi weithredu. Mae'n gweithredu fel cyflogwr i unrhyw weithwyr, yn darparu'r swyddogaethau ariannu a llywodraethu/ysgrifenyddiaeth ac yn cyflawni'r rolau proffesiynol statudol sydd eu hangen dan y gyfraith megis y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151 a'r Rheolwr Archwilio Mewnol. Yr Awdurdod Lletya fydd cartref y Swyddfa Rhaglen.

Mae'r papur hwn yn rhoi amlinelliad o rôl awdurdod lletya'r Cais Twf.

Gwynedd yw'r awdurdod lletya ar gyfer y camau datblygu a chynllunio. Bydd angen gwneud penderfyniad ar ddewis awdurdod lletya ar gyfer y cam gweithredu o fis Ebrill 2019.

Mae awdurdodau lletya yn gyfarwydd i ni. Mae enghreifftiau o gydweithio ffurfiol yn y Gogledd yn cynnwys GwE (Gwynedd sy'n lletya) a'r Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol (Sir y Fflint sy'n lletya). Mae'r Gronfa Bensiwn Genedlaethol (Sir Gâr sy'n lletya) yn enghraifft ar raddfa ddaearyddol fwy.

Nid yw rôl yr awdurdod lletya o reidrwydd yr un peth â rôl arweiniol. Gellir dosbarthu rolau arweinyddiaeth mewn llywodraethu (e.e. Cadeirydd ac Is-gadeirydd Pwyllgor), cyngor arbenigol (e.e. arweinyddion proffesiynol ar themâu rhaglenni) a rheoli prosiectau (cyfrifoldeb am gyflawni prosiectau sydd wedi'u clustnodi) ymhlith partneriaid y bartneriaeth.

Bydd rolau'r awdurdod lletya, ei ryng-berthnasau gyda'i bartneriaid, sut caiff atebolrwydd ei rannu, a sut caiff rolau a gweithgareddau'r awdurdod lletya a'r rolau sydd wedi'u dosbarthu eu hariannu, yn cael eu rheoleiddio gan Gytundeb Llywodraethu 2.

Cynigir y dylid gwahodd datganiadau o ddiddordeb ar gyfer rôl yr "awdurdod lletya" o 2019 ymlaen. Gellir cynnal trafodaethau anffurfiol er mwyn datblygu'r briff ar gyfer y rôl ac asesu'r capasiti a'r arbenigedd y mae'n debygol y bydd eu hangen er mwyn i'r awdurdod lletya a ddewisir fod yn effeithiol. Bydd y galwadau o fod yn awdurdod lletya ar gyfer y cynllun cydweithio hwn yn eang ac ni ddylid eu tanbrisio.

### ROLAU CRAIDD AWDURDOD LLETYA:

#### Llywodraethu

- Cefnogaeth gwasanaethau democratiaeth a gwasanaethau ysgrifenyddiaeth
- Rôl Swyddog Monitro

#### Cyflogwr

- Rheoli recriwtio a secondio
- Cyngor cyflogaeth, gwasanaethau cefnogaeth AD a chyflogres

### Gwasanaethau Proffesiynol

- Gwasanaethau cyfreithiol
- Archwilio Mewnol
- Isadeiledd TGCh a gwasanaethau cefnogol
- Cyngor a chefnogaeth caffael
- Rheoli asedau a chyfleusterau
- Gwasanaethau cyfieithu
- Cyfathrebu a chysylltiadau cyhoeddus
- Ymgynghoriaeth comisiynu ar gyfer sgiliau arbenigol a/neu capasiti

### Cynllunio a Rheolaeth Ariannol

- Rôl Swyddog A151
- Cynllunio ariannol (cyfalaf a refeniw)
- Cyfrifo rheolaeth (cyfalaf a refeniw)
- Taliadau ac anfonebu
- Rheoli grantiau ac incwm

### Rheoli Perfformiad, Contractau, Risg a Phrosiectau

- Systemau ac adrodd am reoli perfformiad
- Rheoli contract (Polisi a Negodi)
- Systemau ac adrodd am reoli risg

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **CYNGOR SIR YNYS MON** |
| **Dyddiad:** | **22/10/18** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2017/18** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **CYNGHORYDD DAFYDD RHYS THOMAS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **CARYS EDWARDS** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **GETHIN MORGAN**<br>01248 752111<br>GethinMorgan@anglesey.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **n/a** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.1** Mae'n ofynnol i'r cyngor lunio a chyhoeddi ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol erbyn 31 Hydref bob blwyddyn - dogfen statudol sydd yn dadansoddi perfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol yn erbyn y gwellianau a'r blaenoriaethau amlinellwyd gan y Cyngor yn eu Amcanion llesiant a'i Gynllun Corfforaethol.

**1.2** Mae'r papur hwn yn amlinellu ein Adroddiad Perfformiad sy'n edrych yn ôl dros berfformiad y Cyngor ar gyfer 2017/18.

**1.3** Mae'r Adroddiad yn edrych ar gynnydd y cyngor yn erbyn ein Amcanion Llesiant ar gyfer 2017/18 fel amlinellwyd drwy ein 4 amcan penodol –

- Creu cymunedau cynaliadwy drwy ddatblygu economi ffyniannus a llewyrchus sy'n cynnig y cyfle i bob preswylydd lwyddo, waeth beth fo'u cefndir
- Gwella rhagolygon tymor hir teuluoedd a phlant drwy sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, eu bod yn ddiogel ac yn iach, a bod pob disgybl, waeth beth fo'u cefndir neu eu hoedran, yn cyrraedd eu potensial addysgol.
- Diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig trwy sicrhau isadeiledd modern o ansawdd da
- Sicrhau cyflenwad o dai fforddiadwy o ansawdd uchel a rheoli'r cyflenwad hwnnw er mwyn datblygu cymunedau dwyieithog gwydn sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig a sicrhau dyfodol tymor hir yr iaith Gymraeg ar yr ynys

**1.4** Mae'r drafft hwn yn edrych ar yr allbynnau a'r canlyniadau yn erbyn yr hyn y ddywedasom y byddem yn ei gyflawni o dan yr amcanion uchod.

**1.5** Rhan allweddol o'r Adroddiad Perfformiad terfynol fydd asesiad o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei ddangosyddion perfformiad allweddol, sy'n edrych ar berfformiad blwyddyn ar flwyddyn. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at ein llwyddiannau a meysydd lle mae angen gwella ymhellach.

**1.6** Gofynir i'r Pwyllgor felly :

- **gytuno y dylid cyhoeddi fersiwn terfynol o'r Adroddiad Perfformiad 2017/18 erbyn y dyddiad statudol ar ddiwedd mis Hydref a bod swyddogion yn cwblhau hyn mewn ymgynghoriad a'r Deilydd Portffolio fel y gellid ei gyhoeddi fel rhan o bapurau'r Cyngor (30.10.18)**
- **gytuno bod Adran 3.2 y Cyfansoddiad yn cael ei ddiwygio i gynnwys cymeradwyo penderfyniadau ar gyfer Datganiad ac Amcanion Llesiant y Cyngor yn unol â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant 2016 fel swyddogaeth y mae'n rhaid i'r Cyngor Llawn ei chyflawni.**
- **Gytuno I awdurdodi'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r materion sydd wedi eu neilltuo fel swyddogaethau y mae'n rhaid i'r Cyngor llawn eu cymeradwyo yn y Cyfansoddiad ynghyd ag unrhyw newidiadau y mae'n rhaid eu gwneud o ganlyniad i adlewyrchu hynny.**

**B - B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

n/a

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith??**

Dirprwywyd y mater hwn i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)**<br>(mandadol) | Sylwadau wedi eu ymgorffori yn dilyn ymgynghoriad fel rhan o gyfarfod yr UDA ar y 10fed o fis Medi |
| 2 | **Cyllid / Adran 151**<br>(mandadol) | Sylwadau wedi eu ymgorffori yn dilyn ymgynghoriad fel rhan o gyfarfod yr UDA ar y 10fed o fis Medi |

| | | |
|---|---|---|
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Sylwadau wedi eu ymgorffori yn dilyn ymgynghoriad fel rhan o gyfarfod yr UDA ar y 10fed o fis Medi |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A – Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

**FF - FF – Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Amcanion Llesiant 2017/18
- Cynllun Busnes Corfforaethol 2013-17
- Cynllun y Cyngor 2017-2022

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

## Rhagair

## Cynnwys


Rhagair ..... 1

Cyflwyniad..... 2

Sut rydym yn mesur a dadansoddi ein perfformiad ..... 3

Dangosyddion perfformiad a dadansoddiad ..... 5

Amcan 1 - Creu cymunedau cynaliadwy drwy ddatblygu economi ffyniannus a llewyrchus sy'n cynnig y cyfle i bob preswylydd lwyddo, waeth beth fo'u cefndir. ..... 8

Amcan 2 - Gwella rhagolygon tymor hir teuluoedd a phlant drwy sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, eu bod yn ddiogel ac yn iach, a bod pob disgybl, waeth beth fo'u cefndir neu eu hoedran, yn cyrraedd eu potensial addysgol. ..... 12

Amcan 3 - Diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig trwy sicrhau isadeiledd modern o ansawdd da ..... 16

Amcan 4 - Sicrhau cyflenwad o dai fforddiadwy o ansawdd uchel a rheoli'r cyflenwad hwnnw er mwyn datblygu cymunedau dwyieithog gwydn sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig a sicrhau dyfodol tymor hir yr iaith Gymraeg ar yr ynys. ..... 20

Dangosyddion Perfformiad ..... 25

Perfformiad Ariannol 2017/18..... 28

Casgliad ..... 30

Gwybodaeth Bellach ..... 31

Atodiadau..... 32


DRAFT

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

## Cyflwyniad

Yn dilyn  etholiadau llywodraeth leol yn 2017, mabwysiadodd y Pwyllgor Gwaith  Amcanion Llesiant ar gyfer 2017/18 a defnyddiodd y rhain i lywio ein Cynllun Cyngor newydd ar gyfer 2017 - 2022.

Roedd Amcanion Llesiant y Cyngor yn seiliedig ar yr asesiad a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol. Mae 7 o nodau llesiant wedi eu sefydlu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Maent wedi'u cynnwys yn y gyfraith o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r  Dyfodol  (Cymru) 2015.

Yn ystod 2017, cyn creu Cynllun Cyngor 2017-22, gosodwyd yr amcanion canlynol i fonitro ein perfformiad. Gellir gweld yr amcanion hyn isod ochr yn ochr â'r amcanion llesiant cenedlaethol y maent yn gysylltiedig â hwy:

| Amcanion Llesiant a'r Cyswllt gyda Nodau Cenedlaethol | Llewyrchus | Gwydn | Iachach | Mwy cyfartal | Cymunedau cydlynol | Yr Iaith Gymraeg / Diwylliant | Yn fyd-eang gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Creu cymunedau cynaliadwy drwy ddatblygu economi ffyniannus a llewyrchus sy'n cynnig y cyfle i bob preswylydd lwyddo, waeth beth fo'u cefndir. | ✓ | | | ✓ | ✓ | | ✓ |
| 2. Gwella rhagolygon tymor hir teuluoedd a phlant drwy sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, eu bod yn ddiogel ac yn iach, a bod pob disgybl, waeth beth fo'u cefndir neu eu hoedran, yn cyrraedd eu potensial. | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| 3. Diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig trwy sicrhau isadeiledd modern o ansawdd da sy'n addas i unigolion a busnesau fel ei gilydd | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| 4. Sicrhau cyflenwad o dai fforddiadwy o ansawdd uchel a rheoli'r cyflenwad er mwyn datblygu cymunedau dwyieithog gwydn sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig a sicrhau dyfodol tymor hir yr iaith Gymraeg ar yr ynys. | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | |

DRAFT

Yn yr adroddiad hwn, byddwn yn adolygu cynnydd ein gweithredoedd mewn perthynas â'n hamcanion ac yn cymharu ein perfformiad yn erbyn mesurau allweddol.

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

## Sut rydym yn mesur a dadansoddi ein perfformiad

**Beth yw Rheoli Perfformiad?**

Mae Rheoli Perfformiad yn broses lle mae'r cyngor a'i staff yn cydweithio i gynllunio, monitro ac adolygu ein blaenoriaethau corfforaethol trwy amcanion corfforaethol, amcanion y gwasanaethau ac amcanion unigol, o fewn adnoddau a ddyrennir.

**Cynllun y Cyngor**

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi Nodau ac Amcanion strategol y Cyngor ar gyfer y tymor etholiadol. Mae'n hysbysu'r broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel yn y Cyngor ac yn:

- gosod y fframwaith yr ydym yn ei ddefnyddio i gynllunio, gyrru a darparu ein gwasanaethau
- dylanwadu ar y modd y byddwn yn llunio ein cyllideb yn flynyddol, ac yn
- helpu i fonitro cynnydd ac asesu beth y byddwn yn ei gyflawni bob blwyddyn.

**Sut a phryd y caiff ei fonitro?**

Bydd y Cynllun Corfforaethol yn cael ei gyflawni'r drwy wireddu'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol (Ebrill – Mawrth). Bydd yn cael ei lunio ar ddechrau pob blwyddyn ariannol ac yn gosod manwl y Cyngor am 12 mis yn erbyn y Cynllun Corfforaethol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ysgrifennir yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol i adrodd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol dros y 12 mis diwethaf

Caiff y Cynllun Corfforaethol ei fonitro drwy amrywiaeth o sianelau sy'n cynnwys:

- Byrddau Rhaglen Trawsnewid Chwarterol;
- Adroddiad Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarterol; ac
- Adolygiadau Gwasanaeth Blynyddol

Yn dilyn hynny, bydd adroddiadau a gynhyrchir gan ddefnyddio gwybodaeth o'r ffynonellau hyn yn cael eu hystyried gan ein swyddogaeth sgriwtini corfforaethol ac yna'r Pwyllgor Gwaith. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl aelodau yn ymwybodol o'r cynnydd yr ydym yn ei wneud yn erbyn ein blaenoriaethau.

**Byrddau Rhaglen Trawsnewid**

Mae'r Byrddau Rhaglen Trawsnewid, a gynhelir bob chwarter, yn cael eu cadeirio gan y Prif Weithredwyr Cynorthwyol a byddant yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth, Uwch Reolwyr, Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith ac Aelodau Sgriwtini.

Mae gan y Byrddau Rhaglen gylch gwaith i fonitro a gyrru cynnydd ar Raglenni a Phrosiectau Newid perthnasol a rhoi hyder i Aelodau Etholedig ac Uwch Arweinwyr bod buddion a ragwelir ar gyfer y Cyngor a chymunedau ar Ynys Môn yn cael eu sicrhau mewn modd amserol.

**Adolygiadau Gwasanaeth**

Disgwylir i bob gwasanaeth ymgymryd â dau Adolygiad Gwasanaeth bob blwyddyn a byddant yn cael eu cynnal a'u rheoli'n gorfforaethol:

1. Adolygiad Ariannol o'r Gwasanaeth

Y broses o ragweld arbedion o fewn gwasanaethau a gwaith trawsnewid y gellir ei ddefnyddio er mwyn cynorthwyo'r broses o osod cyllideb blynyddol y Cyngor.

2. Adolygiad o Berfformiad a Risg y Gwasanaeth

Gofynnir i'r gwasanaethau gwblhau hunan-asesiad gwasanaeth er mwyn gweld lle mae'r Gwasanaeth mewn perthynas â dangosyddion perfformiad, salwch, llywodraethiant, risg ac yn y blaen. Fe'i defnyddir er mwyn rhoi sicrwydd i'r UDA / Pwyllgor Gwaith bod cyfeiriad y gwasanaeth wedi'i alinio yn unol â chyfeiriad ehangach y Cyngor ac y defnyddir adnoddau mewn modd effeithiol.

**Cerdyn Sgorio Corfforaethol**

Datblygwyd y cerdyn sgorio corfforaethol er mwyn adnabod a hysbysu arweinwyr y Cyngor am y cynnydd yn erbyn dangosyddion sy'n dangos bod gweithgareddau'r Cyngor o ddydd i ddydd yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus. Mae'n cynorthwyo i ddarparu sylfaen dystiolaeth drwy'r dangosyddion y gellir drafftio'r adroddiad perfformiad blynyddol ohono. Mae'n portreadu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel y'u hamlinellwyd ac y cytunwyd arnynt ar y cyd rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

Mae adroddiad monitro'r cerdyn sgorio chwarterol yn amlinellu camau gweithredu lliniarol y mae'r UDA wedi eu hadnabod er mwyn gyrru a sicrhau gwelliannau. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei graffu gan y Pwyllgor Sgriwtini lle gellir cael sicrwydd bod perfformiad yn cael ei reoli'n effeithiol ar draws y gwasanaeth.


# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

## Dangosyddion perfformiad a dadansoddiad

Mae'r cyngor yn monitro ei berfformiad trwy'r cerdyn sgorio corfforaethol, mae'r dangosyddion o fewn y cerdyn sgorio'n adrodd ar ddangosyddion cenedlaethol a lleol.

Caiff Dangosyddion Cenedlaethol, sy'n cael eu hadnabod fel Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAM) eu cyhoeddi ac maent yn cymharu bob Awdurdod Lleol yn erbyn yr un dangosyddion. Mae'r siart dafellog isod (siart 1) yn dangos bod 50% o'n dangosyddion wedi gwella yn ystod 2017/18 a bod perfformiad 36% wedi gostwng o'i gymharu â'r perfformiad yn 2016/17.


Mae 14% o'r dangosyddion yn ddangosyddion PAM newydd am y flwyddyn ac felly nid oes data perfformiad ar gyfer cymharu â 2016/17.




Siart 1

Bob blwyddyn adolygir y dangosyddion PAM a chyflwynir dangosyddion perfformiad newydd i fonitro perfformiad ar sail genedlaethol. Yn ogystal â chynnwys dangosyddion perfformiad newydd yn y set data mae rhai hefyd yn cael eu dileu am nad ydynt yn berthnasol neu am nad ydynt yn cael eu monitro mwyach.

Mae Siart 2 isod yn dangos ein perfformiad ar gyfer y tair blynedd diwethaf o'i gymharu â'r set o ddangosyddion PAM bresennol, h.y. y dangosyddion PAM oedd yn cael eu monitro'n flaenorol ar gyfer 2015 i 2017, a'r dangosyddion perfformiad PAM sydd wedi'u cyhoeddi ar hyn o bryd ar gyfer 2017/18 sy'n cynnwys 4 o ddangosyddion ychwanegol newydd. Mae'r siart yn dangos bod un dangosydd perfformiad ychwanegol wedi'i ychwanegu at y Chwartel Canolrif Uchaf, 2 wedi'u hychwanegu at y Chwartel Canolrif Isaf ac un wedi'i ychwanegu at y Chwartel Isaf.




Siart 2

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

Ar yr olwg gyntaf mae'n ymddangos bod ein perfformiad cenedlaethol wedi gostwng, ond mae'n bwysig nodi mai'r set dangosyddion PAM cyfredol yw'r rhain. Credwn y bydd 2 o'r dangosyddion PAM Rheoli Gwastraff sydd heb eu cyhoeddi eto yn perfformio'n dda, hefyd mae 6 o ddangosyddion eraill i'w cynnwys ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol. Cyhoeddir yr holl ddangosyddion PAM erbyn Tachwedd 2018 a gellir gweld y dangosyddion cyfredol yn Atodiad 1.

Er mwyn gwella ein perfformiad cenedlaethol yn 2018/19, bydd yr holl ddangosyddion PAM yn cael eu monitro yn ein Cerdyn Sgorio Corfforaethol, y mwyafrif bob chwarter a gweddill y dangosyddion yn flynyddol, er mwyn gallu nodi a gwneud gwelliannau'n gynharach yn y flwyddyn. Mae'r broses hon yn sicrhau bod ein Huwch Swyddogion, aelodau etholedig a'r cyhoedd yn cael asesiad rheolaidd o'n perfformiad a gellir ei ddefnyddio i ddechrau mesurau cywiro / lliniaru.

Yn ogystal â'r dangosyddion PAM, rydym wedi bod yn monitro Dangosyddion Perfformiad Allweddol lleol gan y Pwyllgor Gwaith, y Pwyllgor Gwaith Cysgodol a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth o fewn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn ystod y flwyddyn. Yn ôl ein dadansoddiad o'r dangosyddion perfformiad y gellir eu cymharu mae 45% o'n dangosyddion wedi gwella, 13% wedi cynnal y perfformiad, a 42% wedi gostwng mewn perfformiad o'i gymharu â 2016/17.

Tra mai darlun cymysg yw hwn yn gyffredinol, dylid nodi bod 58% o'n dangosyddion wedi perfformio'n uwch na'u targedau am y flwyddyn, roedd 15% o fewn goddefiannau'r targed, a'r 27% oedd yn weddill yn is na'r targed.

**Sut yr ydym yn cyflwyno ein perfformiad:**

Mae'r siart isod yn egluro sut yr ydym yn cyflwyno ein tueddiadau perfformio o fewn y cerdyn sgorio a thrwy'r ddogfen hon. Cyflwynir y cynnydd mewn perthynas ag amcanion yn ystod 2017/18 fel testun mewn siart ac mae cod lliw i gynrychioli statws y cynnydd, y cyfeirir ato fel statws CAMG (RAYG):


Coch = 10% neu fwy yn is na'r targed
Ambr = rhwng 5% a 10% o'r targed
Melyn = o fewn 5% i'r targed
Gwyrdd = o fewn y targed

Cyflwynir y statws CAMG (RAYG) gyda'r Dangosyddion Perfformiad perthnasol ar ddiwedd pob adran. Dangosir y Dangosyddion Perfformiad fel yr enghraifft isod, sy'n cynnwys statws CAMG (RAYG) lleol ein chwartel perfformiad PAM cenedlaethol a'u tueddiadau fesul blwyddyn.



DRAFT

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18




DRAFT

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

## Amcan 1 - Creu cymunedau cynaliadwy drwy ddatblygu economi ffyniannus a llewyrchus sy'n cynnig y cyfle i bob preswylydd lwyddo, waeth beth fo'u cefndir.

MELYN

| Cysylltiad â nodau lles cenedlaethol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llewyrchus** | ✓ | Gwydn | | Iachach | |
| **Mwy Cyfartal** | ✓ | Cydlynol/Diwylliant | ✓ | Yn fyd-eang gyfrifol | ✓ |

**Rhesymau dros ei ddewis:**
Mae Ynys Môn wedi bod yn dioddef o ganlyniad i economi fregus, ymylol a dirywiol ers cryn amser, gyda phocedi sylweddol o amddifadedd economaidd-gymdeithasol, sydd wedi arwain at lefelau GYG sy'n gostwng (53.5% o gyfartaledd cenedlaethol y DU); lefelau GYG isel y pen (£13,162 o gymharu â £24,616 trwy'r DU); lefelau uchel o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc (17.7% o bobl ifanc 16-24 oed - 31/12/2015); lefelau uchel o anweithgarwch economaidd (20.7% o'r boblogaeth oed gweithio); lefelau uchel o bobl ifanc yn allfudo a phoblogaeth hŷn sy'n heneiddio a gorddibyniaeth ar gyfleon cyflogaeth yn y sector cyhoeddus.

**Beth wnaethom ni:**
Er mwyn gwella ein heconomi a chynyddu cyfleoedd gwaith, buom yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r DU, prifysgolion a cholegau, busnesau, datblygwyr a mewnfuddsoddwyr posibl. Eleni agorwyd Parc Gwyddoniaeth Menai, safle newydd gwerth £20M yn y Gaerwen. Mae hwn yn ddatblygiad newydd gan y Brifysgol a gwnaed gwaith adeiladu gan Grŵp Llandrillo Menai ar Ganolfan Hyfforddiant Peirianyddol newydd £14M yn Llangefni. Yn dilyn caniatâd, dechreuodd datblygwr preifat adeiladu gwesty Premier Inn newydd yng Nghaergybi, a chynhaliwyd cyd-drafodaethau i gynllunio Pentref Gwyliau Bluestone yng Nghaergybi. Hefyd sicrhawyd grant i greu ffyrdd ar gyfer ystâd ddiwydiannol newydd ac unedau busnes yn Llangefni.

Daliwyd i ymgysylltu â phrif ddatblygwyr ynni trwy'r Rhaglen Ynys Ynni gyda golwg ar greu swyddi a chynyddu ffyniant trwy fanteisio ar nifer o brosiectau gweddnewid. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda Minesto a Morlais i ddatblygu potensial ynni morol Ynys Môn, a gyda Horizon Nuclear Power i gyflwyno ei gais Gorchymyn Caniatâd Datblygu i Lywodraeth y DU ar gyfer datblygu safle Wylfa Newydd.

Er mwyn mynd i'r afael â diweithdra a helpu ein trigolion i fod yn barod ar gyfer cyfleoedd, cyfrannwyd at y Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau, a sefydlwyd gan y Cyngor a Horizon ac sy'n cael ei arwain bellach gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau bod trigolion yr Ynys yn ymwybodol o gyfleoedd sy'n deillio o brif ddatblygiadau, ac yn manteisio arnynt.

Trwy wneud hyn, rydym wedi manteisio ar bob cyfle i weithio gyda datblygwyr, ac mae ein Rhaglen Ynys Ynni yn parhau i weithio'n agos gyda nhw i:

- Ddeall y sgiliau sydd eu hangen
- Sicrhau bod y cyrsiau/cymwysterau priodol yn eu lle i alluogi pobl leol i fanteisio ar gyfleoedd yn y dyfodol, a
- Deall effaith gweithwyr yn mudo yn gysylltiedig â Wylfa Newydd ar y ddarpariaeth addysg leol

DRAFT

Mae datblygiadau lleol eraill a ysgogwyd gan y Cyngor yn cynnwys ailfodelu ac adfer Neuadd y Farchnad yng Nghaergybi, a fydd yn darparu unedau busnes yn 2019. Rhagwelir y bydd hyn yn meithrin partneriaethau a threfniadau gwaith agosach rhwng sefydliadau.

Dechreuwyd gweithio ar y pum uned fusnes newydd ym Mhenyrorsedd yn Llangefni yn dilyn llwyddiant y 5 uned sydd wedi'u hadeiladu. Mae'r gwaith o godi estyniad i Ganolfan Fusnes Môn ar y gweill er mwyn darparu swyddfeydd modern a lle cyfarfod ar gyfer y sector preifat. Hefyd sicrhawyd cyllid a chaniatâd ar gyfer adeiladu 10 uned fusnes newydd ym Mhenrhos yng Nghaergybi er mwyn cynnig cyfleoedd pellach i fusnesau ddatblygu ar Ynys Môn.

Yn ystod y flwyddyn, mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn ffurfiol gan y Cyngor, fel y manylir yn Amcan 3. Fel ffordd o ddenu datblygwyr i Ynys Môn, rydym yn chwarae rhan allweddol i enwi safleoedd posibl a phrosesau datblygu cynllunio, roedd hwn yn waith a wnaed gyda datblygiad MS-Parc Prifysgol Bangor yn y Gaerwen, a agorwyd ym Mawrth 2018.

Er mwyn gwneud gwelliannau i'n cysylltiadau cludiant, cwblhawyd y tair rhan i ffordd gyswllt Llangefni, a bydd rhan arall yn dechrau'n hwyrach yn 2018. Bydd y ffordd gyswllt yn ehangu ac yn hwyluso twf campws y coleg, gan ddarparu mynediad i safleoedd Parth Menter, gwella cysylltiadau â'r A55, a bydd yn helpu i oresgyn cyfyngiadau traffig yn Llangefni. Hefyd cyflwynwyd caniatâd cynllunio i wneud gwelliannau i ffordd yr A5025 rhwng y Fali a Wylfa ar gyfer cerbydau mawr.

Cydweithredwyd â'r 5 Awdurdod Lleol arall yng Ngogledd Cymru i ffurfio Bwrdd Twf Gogledd Cymru er mwyn cwblhau cais am Gynnig Twf i Lywodraeth Cymru a'r DU. Hefyd cyfrannwyd at drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eraill ynghylch Cynllun Adfywio Gogledd Cymru a'i gyllido.

Cefnogwyd proses Cynnig Twf Gogledd Cymru gan swyddogion y Cyngor a sefydlwyd Bwrdd Pwyllgor ar y Cyd cysgodol ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru er mwyn gwella'r strwythur llywodraethu y mae'r Cyngor wedi bod yn bartner allweddol ynddo.

Cytunwyd ar flaenoriaethau buddsoddi economaidd rhanbarthol er mwyn datblygu economi Gogledd Cymru ac mae ceisiadau am brosiectau i Lywodraeth y DU wrthi'n cael eu paratoi i'w cyflwyno yn ystod 2018.

Fel Cyngor, rydym yn arwain ar agwedd "Mynediad Deallus i Ynni" o'r Cynnig Twf. Rydym yn cyfrannu at gais Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (i ddatblygu'r prosiect Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol a fydd yn cynyddu ymhellach y lled band sydd ar gael fydd o fantais i fusnesau a thrigolion Ynys Môn.

Er mwyn mynd i'r afael â diweithdra, anweithgarwch economaidd am amddifadedd economaidd drafftiwyd Strategaeth Gwrthdlodi'r Cyngor, yn unol â'r rhaglen atal, yn 2017 a chafodd ei chymeradwyo yn 2018 i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn costau byw, cyflogau isel a chyfleoedd gwaith cyfyngedig sy'n atal pobl rhag gallu cymryd rhan lawn yn eu cymunedau.

Mae'r Strategaeth a'r cynllun gweithredu'n canolbwyntio ar 5 thema ar lefel strategol, hynny yw:

1. **Twf economaidd i bawb**
2. **Gwell addysg a sgiliau**
3. **Cryfhau teuluoedd a chymunedau**
4. **Arbed costau a lleihau gofynion**

DRAFT

5. **Cefnogi pobl sydd mewn tlodi**

Bydd y Strategaeth yn codi ymwybyddiaeth o broblemau tlodi a sut y gallwn fynd i'r afael â nhw mewn partneriaeth o fewn cymunedau Ynys Môn.

Yn 2017/18 mae prosiect TRAC, sy'n cefnogi a lleihau nifer y bobl ifanc rhwng 11-19 sydd wedi ymddieithrio o addysg ac mewn perygl o ddod yn bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) wedi helpu i leihau'r perygl o NEET ar gyfer 75 o ddysgwyr, tra bod 95% o ddysgwyr blwyddyn 11 oedd ar y prosiect wedi mynd ymlaen i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ôl 16 oed. Mae 85% o'r rhai a gymerodd ran yn y prosiect wedi dangos gwelliant yn y meysydd lles canlynol: gwneud gwahaniaeth, gobeithion a breuddwydion, lles cyffredinol, addysg a gwaith, cyfathrebu, dewisiadau ac ymddygiad.

Mae'r prosiect OPUS a lansiwyd ac a ddatblygwyd i weithio gydag unigolion economaidd anweithgar a di-waith yn yr hirdymor, hyd yma wedi cofrestru 175 o gyfranogwyr ac mae 86 ohonynt wedi cael hyd i waith, 666 wedi ennill cymwysterau newydd a 37 wedi mynd ymlaen i wirfoddoli. Mae'r prosiect hefyd yn gweithio ar becynnau hyfforddi fydd, gobeithio, yn sicrhau bod y cyfranogwyr yn fwy cyflogadwy.

| | | Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
|---|---|---|---|
| Gwerth Ychwanegol Gros (2016) | £13,655 | n/a | ↑ 2015 - £13284 |
| Nifer y busnesau gweithredol (2016) | 2105 | n/a | ↑ 2015 - 2045 |
| Economaidd Weithgar - Mewn Cyflogaeth (Arolyg Blynyddol Poblogaeth ONS) | 75.3% | n/a | ↑ 2016/17 - 71% |
| Economaidd Weithgar - Yn ddi-waith (Arolyg Blynyddol Poblogaeth ONS) | 4.3% | n/a | ↑ 2016/17 - 4.8% |
| Tâl Wythnosol Gros - Pob Gweithiwr Llawn Amser (arolwg blynyddol o oriau ac enillion ONS) | £498 | n/a | ↑ 2016 - £473 |

Gan arwain i 2018/19, mae Amcan 1 wedi'i gynnwys o fewn cynllun newydd y cyngor o dan ddau o'n hamcanion newydd;

- Amcan 1 – Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a gwireddu eu potensial hirdymor; ac

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

- Amcan 3 – Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau gan warchod ein hamgylchedd naturiol

DRAFFT

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

## Amcan 2 - Gwella rhagolygon tymor hir teuluoedd a phlant drwy sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, eu bod yn ddiogel ac yn iach, a bod pob disgybl, waeth beth fo'u cefndir neu eu hoedran, yn cyrraedd eu potensial addysgol.

MELYN

| **Cysylltiad â nodau lles cenedlaethol** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llewyrchus** | | Gwydn | ✓ | Iachach | ✓ |
| **Mwy Cyfrifol** | ✓ | Cydlynol/Diwylliant | ✓ | Yn fyd-eang gyfrifol | |

**Rhesymau dros ei ddewis:**
Bydd economi mwy llewyrchus yn gweithredu fel catalydd sy'n galluogi trigolion i fod yn fwy uchelgeisiol yn eu bywydau ac yn economaidd. Mae galluogi trigolion i gyrraedd eu llawn botensial yn anochel yn gyfuniad o nifer o ffactorau megis cyflogaeth, sgiliau a hyfforddiant; argaeledd tai fforddiadwy ac o ansawdd a mynediad i amgylchedd naturiol ac adeiledig o safon uchel. Mae galluogi trigolion i gyflawni eu llawn botensial a ffynnu yn golygu bod rhaid cael yr amodau iawn iddynt fedru gwella ansawdd eu bywydau a'u llesiant.

**Beth wnaethom ni:**

Yn 2017 cafodd dwy ysgol newydd sbon eu hagor yn swyddogol gan Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Llywodraeth Cymru.

Croesawodd Ysgol Cybi, yng Nghaergybi, ac Ysgol Rhyd y Llan, yn Llanfaethlu, ddisgyblion ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Mae'r ddwy ysgol 21ain ganrif fodern yn cynrychioli prosiectau arloesol i'r Cyngor Sir gan ei fod yn gweithio i foderneiddio a gwella addysg a sgiliau ar yr Ynys.

Mae adborth cynnar gan blant a rhieni wedi bod yn hynod gadarnhaol, mae'r holl blant sydd wedi cynrychioli eu cyngor ysgol wedi bod yn hapus â'u hysgolion newydd gan ddweud bod ganddynt fwy o ffrindiau a mwy o ddewis, fel tyfu llysiau a chyfleusterau chwarae yn yr awyr agored.

*"Mae fy mhlentyn wedi setlo'n dda ac yn mwynhau'r profiadau y mae'r ysgol newydd yn eu cynnig. Mae staff yn groesawgar ac mae awyrgylch braf yn yr ysgol."*

*"Llawer mwy o ffrindiau i chwarae efo nhw yn yr ysgol, Mwy o glybiau ar ôl ysgol yn yr ysgol newydd e.e. yr Urdd a phêl-droed,"*

Gwnaed addasiadau i Ysgol Parc Y Bont ac Ysgol Brynsiencyn. Dechreuwyd datblygiadau ar ysgol ardal newydd ym Mro Rhosyr/Bro Aberffraw, a elwir yn Ysgol Santes Dwynwen, fydd yn dod â 4 ysgol i un Ysgol 21ain Ganrif newydd.

Hefyd penderfynodd y pwyllgor gwaith y bydd ysgolion ardal newydd yn cael eu hadeiladu yn Llangefni, gan ddod ag Ysgol Gymuned Bodffordd ac Ysgol Corn Hir at ei gilydd, a bydd yn parhau i gynnal darpariaeth addysgol yn Llangristiolus naill ai trwy gynnal Ysgol Henblas ar ei ffurf bresennol neu fel rhan o'r ysgol ardal newydd.

Datblygir y gwaith hwn ymhellach gan ein Swyddogion yn ystod 2018/19 ac rydym yn rhagweld yr un llwyddiant ag a welwyd yn Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd Y Llan lle bydd disgyblion yn elwa ar y

DRAFT

cyfleusterau a'r adnoddau diweddaraf yn cynnwys ystafelloedd dosbarth modern llawn cyfarpar a mannau addas yn yr awyr agored ar gyfer chwarae a dysgu.

I gefnogi ein hysgolion ymhellach, rydym wedi dechrau gweithredu camau a amlinellwyd yn ein Strategaeth Ddigidol [1]. Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â BT, Rhwydwaith Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus ac awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru i wella capasiti lled band ac argaeledd sydd wedi arwain at gynyddu cyflymder band eang o fewn 15 o'n hysgolion cynradd drwy Ynys Môn.

Darparwyd ymateb cyflym i Adroddiad Archwiliad Arolygiaeth Gofal Cymru trwy baratoi Cynllun Gwella Gwasanaeth a oedd ac sy'n parhau i gael ei fonitro'n rheolaidd er mwyn gwella perfformiad y Gwasanaeth i'r dyfodol.

Hefyd mae gan y Cyngor Banel Gwella Gwasanaethau Plant sy'n goruchwylio'r gwaith o wella'r gwasanaeth gan adrodd a rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Mae adroddiadau hyd yma eisoes yn dangos ac yn rhoi tystiolaeth o welliannau.

I gefnogi ein pobl ifanc ymhellach, rydym yn bwriadu treialu cynllun arloesol, Denu Talent, lle bydd grŵp o bobl ifanc yn ymuno â gwasanaethau ar draws y Cyngor i gael profiad gwaith yn ystod cyfnod yr haf. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cymryd rhan mewn gwahanol brosiectau o fewn eu gwasanaeth a bydd cyfle iddynt gysgodi swyddogion profiadol.

Yn ystod 17/18 roedd Ynys Môn yn ddigon ffodus o gael ei dewis i dreialu cynllun gofal plant wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru. Cynigiwyd hyd at 30 awr o ofal plant wedi'i ariannu i blant cymwys 3 a 4 oed, i rieni sy'n gweithio, ar draws rhai ardaloedd o'r ynys, yn ystod tymhorau ysgol ac yn y gwyliau.

Roedd y cynllun treialu'n llwyddiant a chafodd 354 o ymgeiswyr gyllid mewn 82 o wahanol leoliadau darparwyr yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun treialu. Bellach mae wedi'i ehangu ac mae ar gael i holl drigolion Ynys Môn sy'n bodloni'r meini prawf.

Er mwyn hybu ac annog gweithgareddau rhwng y cenedlaethau, sefydlwyd hybiau cymunedol, mewn partneriaeth â Medrwn Môn, i greu mwy o gyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau a fydd yn helpu i leihau ynysu cymdeithasol, unigrwydd a chynyddu lles trwy ddod â gwasanaethau lleol i'r ardaloedd.[2]

Bydd y cyngor a'i bartneriaid yn gweithio i ddatblygu hybiau cymunedol pellach yn ystod y flwyddyn nesaf yng Nghanolfan Gofal Ychwanegol Hafan Cefni, Niwbwrch a Llanfechell.

I gefnogi ac annog iechyd a ffitrwydd, lansiwyd porth nofio newydd sy'n caniatáu i rieni olrhain cynnydd eu plentyn yn ystod eu dosbarthiadau nofio. Mae 50 o ddosbarthiadau ffitrwydd yn parhau i gael eu cynnal drwy'r Canolfannau Hamdden ar yr Ynys bob wythnos, gyda 86% ohonynt yn cael eu cynnal naill ai yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

O ganlyniad i'n hymdrech i gynyddu'r defnydd o'n canolfannau hamdden a hybu Iechyd a Lles, gwnaed 508 o filoedd o ymweliadau â'n canolfannau hamdden yn ystod 2017/18. Dyma gynnydd o 10% o'i gymharu ag ymweliadau yn ystod 2016/17.

[1] http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/ynys-ddigidol?redirect=false

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

Hefyd bu 43.5 mil o bobl ifanc yn bresennol mewn rhaglenni gweithgarwch datblygu chwaraeon ac allgymorth yn ystod y flwyddyn.

PAM/006: Canran y disgyblion Blwyddyn 11 a gyflawnodd y trothwy Lefel 2, gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol

Ambr
50.2%

| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
|---|---|
| Chwartel Canolrif Isaf | n/a<br>16/17 - 59.3 (old curriculum) |

PAM/007 - Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd

Ambr
94.8%

| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
|---|---|
| Chwartel Canolrif Isaf | ↓<br>16/17 - 95.1% |

PAM/008 - Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd

Gwyrdd
94.6%

| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
|---|---|
| Chwartel Uchaf | ↑<br>16/17 - 94.4% |

PAM/009: Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET)

Coch
4.3%

| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
|---|---|
| Chwartel Isaf | ↓<br>16/17 - 2.3% |

PAM/016: Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth

Gwyrdd
5901 Ymweliad/1000

| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
|---|---|
| Chwartel Uchaf | ↑<br>16/17 - 5858 visits/1000 |

PAM/017: Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol fesul 1,000 y boblogaeth

Gwyrdd
8470 Ymweliad/1000

| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
|---|---|
| Chwartel Canolrif Isaf | ↑<br>16/17 - 7520 visits/1000 |

PAM/027: Canran y plant sy'n fodlon ar y gofal a'r cymorth a gawsant

82%

| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
|---|---|
| TBC | n/a |

PAM/028: Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn terfynau statudol

Coch
67.6%

| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
|---|---|
| TBC | ↓<br>16/17 - 89.17% |

PAM/029: Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a oedd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn

Ambr
9.0%

| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
|---|---|
| TBC | ↓<br>16/17 - 5.04% |

Nifer y bobl ifanc sydd wedi mynychu rhaglenni gweithgareddau datblygu chwaraeon / gweithgareddau allgymorth

Gwyrdd
43.5k

| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
|---|---|
| n/a | n/a<br>16/17 - 113k |

PM32 - Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi profi (1) neu ragor o achosion o symud ysgol, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oeddent yn drefniadau dros dro, yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth

Coch
33.4%

| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
|---|---|
| n/a | ↓<br>16/17 - 17.53% |

PM33 - Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a oedd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn

Ambr
9.0%

| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
|---|---|
| n/a | ↓<br>16/17 - 5% |

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

| PM28 - Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | |
|---|---|
| Coch 326.5 Diwrnod | |
| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
| n/a | ↓ 16/17 - 266 Days |

| Cyfnod Allweddol 3 - % y disgyblion sy'n cyflawni DPC (Blwyddyn Ysgol 2016/17) | |
|---|---|
| Melyn 88.9% | |
| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
| n/a | ↑ 15/16 - 87.6% |

| Cyfnod Allweddol 2 - % y disgyblion sy'n cyflawni DPC (Blwyddyn Ysgol 2016/17) | |
|---|---|
| Gwyrdd 91.4% | |
| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
| n/a | ↑ 15/16 - 89.4% |

| Cyfnod Sylfaen - % y disgyblion sy'n cyflawni DCS (Blwyddyn Ysgol 2016/17) | |
|---|---|
| Ambr 85.8% | |
| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
| n/a | ↑ 15/16 - 84.7% |

Mae'r dangosyddion perfformiad o dan yr amcan hwn yn dangos perfformiad cymysg. Gwelwyd perfformiad da unwaith eto o ran presenoldeb o fewn ein hysgolion uwchradd lle mae canran presenoldeb y disgyblion wedi cynyddu, sy'n golygu ein bod yn dal yn y chwartel uchaf drwy'r wlad. Hefyd bu cynnydd yn nifer yr ymweliadau â'n llyfrgelloedd a'n canolfannau hamdden trwy ddarparu gweithgareddau newydd a pharhau i gynnal ein digwyddiadau llwyddiannus.

Bu gostyngiad yn genedlaethol ym mherfformiad un o'n dangosyddion pwysig PAM/006 (% y bobl ifanc 15 oed syn cyrraedd L2+), yn rhannol oherwydd y newid yn natur a'r ffordd y mae cyrsiau TGAU yn cael eu mesur, felly ni ellir cymharu'r canlyniadau â blynyddoedd blaenorol.

Roedd perfformiad dangosyddion o fewn ein Gwasanaeth Plant a Theuluoedd (PAM/027, PAM/028 a PAM/029 above) yn amrywio, fodd bynnag yn sgil gwelliannau o fewn y gwasanaeth drwy eu Cynllun Gwella Gwasanaeth, mae perfformiad yn gwella ac mae disgwyl iddo ddal i wella yn 2018/19.

Gan arwain i 2018/19, mae Amcan 2 wedi'i gynnwys o fewn cynllun newydd y cyngor o dan ddau o'n hamcanion newydd;

- Amcan 1 – Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a gwireddu eu potensial hirdymor; ac
- Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, iach ac mor annibynnol â phosibl.

Dilynwch y ddolen hon i weld Cynllun y Cyngor 2017 – 2022.

DRAFT

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

## Amcan 3 - Diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig trwy sicrhau isadeiledd modern o ansawdd da

YELLOW

| Cysylltiad â nodau lles cenedlaethol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llewyrchus** | | Gwydn | ✓ | Iachach | ✓ |
| **Mwy Cyfartal** | ✓ | Cydlynol / Diwylliant | ✓ | Yn fyd-eang gyfrifol | |

**Rhesymau dros ei ddewis:**
Mae gan Ynys Môn enw da yn rhyngwladol o ganlyniad i'w hamgylcheddau naturiol ac adeiledig unigryw a safon uchel. Mae'n hollbwysig diogelu a gwella'r nodweddion hynod hyn pan fo hynny'n bosibl, yn ogystal â manteisio i'r eithaf ar eu gwerth fel adnoddau economaidd-gymdeithasol. Mae amgylcheddau naturiol ac adeiledig yr ynys yn hollbwysig i'r sector twristiaeth, ac i gefnogi a chynnal yr economi leol a rhanbarthol. Bydd yr angen i gydbwyso effeithiau posib y prosiectau mawr arfaethedig ar ansawdd yr amgylchedd lleol yn her i ddatblygwyr, y Cyngor Sir a rhanddeiliaid eraill.

**What we did:**
Rydym wedi ymgysylltu gyda Phŵer Niwclear Horizon, prosiect National Grid ar gyfer Cysylltiad Gogledd Cymru a chydranddeiliaid allweddol er mwyn sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu hosgoi, eu rheoli neu eu lliniaru yn ystod yr ymgynghoriadau a'r trafodaethau cyn cyflwyno ceisiadau.

Yn ystod y flwyddyn, mabwysiadodd y Cyngor y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae'r Cynllun yn strategaeth ar gyfer defnydd tir sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad cynaliadwy hyd at 2026. Ei amcanion fydd:

- arwain ar ddatblygu tir ar gyfer tai, siopau, cyflogaeth a defnyddiau eraill
- cynnwys polisïau a fydd yn cynorthwyo'r Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio
- gwarchod ardaloedd er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd naturiol ac adeiledig yn cael ei gynnal a'i gyfoethogi.

Rydym wedi sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau yr ydym ni ynghlwm â nhw yn cael eu cynllunio'n ofalus. O ganlyniadau, mae'r holl Unedau Busnes newydd wedi cyrraedd safon Ragoriaeth BREEAM ac maent yn ynni-effeithlon yn dilyn eu hasesiadau cynaliadwyedd. Mae datblygiadau sydd â statws BREEAM yn amgylcheddau mwy cynaliadwy sy'n gwella llesiant y bobl sy'n gweithio ynddynt, yn helpu i warchod adnoddau naturiol ac yn gwneud eiddo'n fwy atyniadol i bobl fuddsoddi ynddo.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu prosiect Effeithlonrwydd Ynni eleni er mwyn adolygu a gwella ein defnydd o ynni ar hyd a lled yr Ynys. Bydd y prosiect yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i sicrhau grantiau a chyfleoedd cyllido i sicrhau lleihad o 15% erbyn 2022 yn yr ynni yr ydym yn ei ddefnyddio a hynny'n unol â'n strategaeth.

Mae'r prosiect eisoes wedi sicrhau grant gan Salix i uwchraddio ein goleuadau stryd a'n Canolfannau Hamdden a chafwyd grant pellach gan Lywodraeth Cymru i ariannu goleuadau LED yn adeilad y Cyngor. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'n ysgolion ardal newydd a'n canolfannau hamdden i wella ein hôl-troed carbon.



DRAFT

Fel rhan o'r cynllun Ysgolion Eco a gyllidir gan Lywodraeth Cymru ac sy'n cael ei redeg gan Cadwch Gymru'n Daclus[3], mae Ynys Môn yn falch o ddweud fod un o'i hysgolion wedi ennill statws Platinwm sy'n arwydd o'u hymrwymiad tymor hir i addysg amgylcheddol, ymgysylltiad myfyrwyr a chynaliadwyedd.

Yn ychwanegol at hyn, mae gan 2 ysgol statws Baner Werdd, mae 22 wedi cael statws arian ac mae gan 6 statws Efydd. Mae'r Cynllun yn grymuso ac yn ysbrydoli pobl ifanc i wneud newidiadau amgylcheddol positif yn eu hysgolion a'r gymuned yn ehangach tra'n datblygu eu sgiliau allweddol, gan gynnwys rhifedd a llythrennedd ac Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.

Yn ystod y flwyddyn, buom yn gwneud mwy o waith ar ein Cynllun Rheoli ar gyfer yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol drwy ddatblygu a rheoli rhaglenni i wirfoddolwyr, gweithio gyda'r cynghorau cymuned lleol i osod biniau baw ci newydd a gwaith i reoli rhywogaethau ymledol mewn gwahanol safleoedd ar yr ynys er mwyn sicrhau ffyniant rhywogaethau sy'n lleol i Ynys Môn.

Cymeradwywyd sawl prosiect  drwy Gronfa Datblygu Cynaliadwy (SDF) Llywodraeth Cymru ac mae enghreifftiau'n cynnwys Geo-gaiacio, Gwirfoddoli gyda Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru a gwella ansawdd y dŵr a chynefinoedd yn Afon Wygyr. Buom hefyd yn gweithio mewn partneriaeth i ddynodi ardaloedd prosiect Awyr Dywyll er mwyn lleihau llygredd goleni mewn ardaloedd penodol yn Ynys Môn.

Mae Ynys Môn yn parhau i fod â rhai o'r traethau gorau yng Nghymru ac mae gennym 6 o draethau Baner Las. Nid yw'r Faner Las ond yn cael ei rhoi i'r traethau gorau yng Nghymru ac mae'n gydnabyddiaeth o safon y dŵr, glendid, diogelwch a chyfleusterau ardderchog.

Mae Ynys Môn yn ymfalchïo yn ei hamgylchedd a'i glendid – yn ystod y flwyddyn, archwiliwyd 93% o'n strydoedd a daethpwyd i'r casgliad eu bod yn lân. Tra'n cydnabod bod hyn yn gadarnhaol, rydym yn gwybod y gellir gwneud mwy.

Llwyddwyd i sicrhau cyllid drwy'r Undeb Ewropeaidd i sefydlu prosiect sy'n anelu at wella Porthladd Caergybi a'r ardal o'i gwmpas er mwyn datblygu'r ardal yn borth pwysig i ymwelwyr i Gymru. Bydd hyn o gymorth i'n statws fel yr hyb pwysicaf ar gyfer llongau mordeithio yng Nghymru. Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi croesawu oddeutu 16,588 o deithwyr ar 43 o longau mordeithio i Ynys Môn a Gogledd Cymru ac rydym yn rhagweld y bydd hyn yn cynyddu yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Rydym hefyd wedi gosod cyfleuster tanwydd newydd ym Mhorth Amlwch ac mae gwaith wedi cychwyn ar osod pontŵns sy'n arnofio ar wyneb y dŵr yn Amlwch. Gwnaed gwaith trwsio ar Bier San Siôr yn dilyn difrod yn gynharach eleni a gosodwyd dau o fwïau newydd ar Y Fenai er mwyn gwella diogelwch mordwyo.

Yn ogystal, bu Swyddogion y Cyngor yn cynorthwyo gyda, ac yn cydlynu'r broses lanhau ar Arfordir Gorllewinol Ynys Môn yn dilyn y difrod mawr a achoswyd gan Storm Emma ym Marina Caergybi.

Yn dilyn gwella ein bocsys ailgylchu a gostyngiad yn nifer y biniau duon sy'n cael eu gwagio bob mis, gwelwyd cynnydd o 7% yn ein cyfraddau ailgylchu sydd bellach yn 72.2% gydag ond 0.5% o'n gwastraff cyffredinol yn mynd i safleoedd tirlenwi. Yn seiliedig ar ddata y llynedd, byddai hynny'n golygu mai Ynys Môn fyddai'r awdurdod lleol sy'n perfformio orau yng Nghymru.

[3] https://www.keepwalestidy.cymru/eco-schools-awards

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

Bydd canlyniadau eleni'n cael eu rhyddhau tuag at ddiwedd 2018 ac rydym yn disgwyl bod ar y brig.

Mae'r canlyniadau'n dangos llawer iawn o ymrwymiad gan ein trigolion i leihau gwastraff ac i sicrhau cynaliadwyedd, sy'n hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd ein hynys yn y tymor hir. Addysg yw'r prif ffocws o hyd ac mae staff yr Adain Rheoli Gwastraff yn ymweld ag ysgolion yn rheolaidd er mwyn annog disgyblion i fod yn bencampwyr ailgylchu.

Rydym wedi ymrwymo ein cefnogaeth i geisio 'Statws Di-blastig' ar gyfer Ynys Môn. Bydd y Cyngor yn gweithio yn awr tuag at leihau'r defnydd o blastig tafladwy yn ei safleoedd a'i ysgolion er mwyn hyrwyddo mentrau di-blastig ac annog busnesau lleol i ddefnyddio llai o blastig tafladwy.

Fe wnaeth y Cynghorwyr gefnogi lansiad swyddogol ymgyrch ar y cyd gan y grwpiau 'Surfers Against Sewage' a 'Save our Rivers'. Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn i Ynys Môn ddod yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i ennill statws "di-blastig" yn swyddogol.

Yn ystod y flwyddyn, yn dilyn llifogydd difrifol ar draws Ynys Môn, fe gefnogodd Llywodraeth Cymru dri chynllun draenio a dyrannodd arian tuag at waith dylunio ar Gynlluniau Lliniaru Llifogydd Biwmares a Nant y Felin. Cafwyd carian hefyd ar gyfer gwaith dylunio ar Gynllun Risg Arfordirol Traeth Coch.

Yn ychwanegol at hyn, rydym wedi gweithio gyda, ac wedi annog Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud gwaith i wella'r sefyllfa er mwyn lleihau'r risg o lifogydd yn Llangefni a Dwyran.

Yn dilyn y llifogydd, cafodd y Cyngor hefyd arian o gronfa ganolog Llywodraeth Cymru a Changen Llifogydd Llywodraeth Cymru i drwsio asedau lliniaru llifogydd a oedd wedi eu difrodi ac i gynnal gwaith archwilio draeniau gyda CCTV ym Mhorthaethwy a Llanfair PG.

Mae datrysiad tymor hir ar gyfer tirlithriadau wedi cael ei ddylunio fel y gellir cryfhau a gwella'r A545 rhwng Porthaethwy a Biwmares. Gobeithir y bydd y dyluniadau hyn o gymorth i ddenu'r cyllid sylweddol sydd ei angen gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau'r datrysiad tymor hir hwn ac i atal y ffordd rhag dymchwel eto yn y dyfodol ac i osgoi'r costau sylweddol sy'n gysylltiedig â hynny.

Yn ychwnaegol at hyn, rydym wedi llwyddo i gadw'n ffyrdd mewn cyflwr da o gymharu â rhanbarthau eraill yng Nghymru ac wedi trwsio mwy na 9,000 o dyllau ar y ffyrdd yn 2017/18.

| Dangosydd | Canlyniad | Statws | Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
|---|---|---|---|---|
| PAM/010: Canran y priffyrdd a adolygwyd sydd o safon glendid uchel neu dderbyniol | 93.6% | Melyn | Chwartel Canolrif Isaf | ↑ 16/17 - 93.4% |
| PAM/011: Canran y digwyddiadau tipio anghyfreithlon a adroddwyd a gliriwyd o fewn 5 niwrnod ar ôl i'r digwyddiad gael ei adrodd | 98.3% | Gwyrdd | Chwartel Canolrif Uchaf | ↑ 16/17 - 97.3% |
| PAM/020: Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol | 2.9% | Melyn | Chwartel Canolrif Uchaf | ↓ 16/17 - 2.3% |

DRAFT

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

| PAM/021: Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol | |
|---|---|
| **4.2%** | Melyn |
| Perfformiad Cenedlaethol: Chwartel Canolrif Uchaf | Tuedd: ↓ 16/17 - 3.2% |

| PAM/022: Canran y ffyrdd C mewn cyflwr gwael cyffredinol | |
|---|---|
| **8.9%** | Gwyrdd |
| Perfformiad Cenedlaethol: Chwartel Canolrif Isaf | Tuedd: ↑ 16/17 - 10.1% |

| PAM/030: Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi eu gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall | |
|---|---|
| **72.2%** | Gwyrdd |
| Perfformiad Cenedlaethol: Chwartel Uchaf (TBC) | Tuedd: ↑ 16/17 - 65.79% |

| PAM/031: Canran y gwastraff a anfonir i safle tirlenwi | |
|---|---|
| **0.5%** | Gwyrdd |
| Perfformiad Cenedlaethol: Chwartel Uchaf (TBC) | Tuedd: ↑ 16/17 - 6.6% |

| Nifer y tyllau'n lôn wedi'u llenwi | |
|---|---|
| **9k** | |
| Perfformiad Cenedlaethol: n/a | Tuedd: n/a |

| Nifer y Cerbydau LPG yn fflyd y cyngor | |
|---|---|
| **85 cerbyd** | |
| Perfformiad Cenedlaethol: n/a | Tuedd: n/a |

DRAFT

Mae'r perfformiad mewn perthynas ag Amcan 3 yn adlewyrchu sefyllfa bositif ar gyfer y flwyddyn. Gwelwyd gwelliant yn y mwyafrif o'r dangosyddion o gymharu â 2016/17.

Gwelliant gwerth ei nodi yw canran y gwastraff sirol a gafodd ei ailgylchu neu ei ailddefnyddio, mae ein perfformiad yn y maes hwn ymhlith y gorau yn y byd ac rydym eisoes wedi rhagori ar y targed a osodwyd ar gyfer Cymru, sef ailgylch neu ailddefnyddio 70% o'n gwastraff erbyn 2025. Mae'r gyfradd o 72.2% a ailgylchwyd dros y flwyddyn yn glod i'n trigolion sydd wedi ein helpu ni i gyflawni hyn.

Yn ychwanegol at yr ailgylchu, dim ond 0.5% o'n gwastraff sirol sydd bellach yn cael ei ddanfon i safleoedd tirleni. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â gweddill Cymru ac mae'n welliant sylweddol o gymharu â'r 16.87% a anfonwyd i safleoedd tirlenwi yn 2015/16.

Mae safon ein ffyrdd dosbarth A a B yn cymharu'n ffurfiol â gweddill Cymru er gwaethaf dirywiad bychan eleni. Mae hyn i'w briodoli'n rhannol i'r tywydd garw a gafwyd dros y gaeaf ac mae ffigyrau cenedlaethol ar draws Cymru yn adlewyrchu'r un sefyllfa.

Ar gyfer 2018/19, mae Amcan 3 wedi cael ei gynnwys yng nghynllun newydd y Cyngor:

- Amcan 3 – Gweithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau y gallant ymdopi'n effeithiol gyda newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol.

Dilynwch y ddolen hon i edrych ar Gynllun y Cyngor ar gyfer 2017 – 2022.

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

## Amcan 4 - Sicrhau cyflenwad o dai fforddiadwy o ansawdd uchel a rheoli'r cyflenwad hwnnw er mwyn datblygu cymunedau dwyieithog gwydn sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig a sicrhau dyfodol tymor hir yr iaith Gymraeg ar yr ynys.


MELYN

| Cyswllt â nodau lles cenedlaethol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llewyrchus** | | Gwydn | ✓ | Iachach | |
| **Mwy Cyfartal** | ✓ | Cydlynol / Diwylliant | ✓ | Yn fyd-eang gyfrifol | |

**Rhesymau dros ei ddewis:**
Mae galluogi cymunedau i ffynnu'n golygu bod raid cael yr amodau iawn i drigolion allu gwella ansawdd eu bywydau a'u llesiant, ac mae argaeledd tai fforddiadwy o ansawdd, ynghyd â mynediad i amgylchedd adeiledig o safon uchel yn hanfodol i gyflawni'r amcan hwn. Dim ond dwy ran o dair o boblogaeth yr Ynys fedr ddarllen, ysgrifennu neu siarad Cymraeg. Mae diogelu a datblygu'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o hunaniaeth ddiwylliannol a threftadaeth yr ynys, a'r uchelgais clir yw annog a chefnogi mwy o gymunedau a thrigolion yr ynys i ddefnyddio'r iaith fel rhan o'u bywyd bob dydd.

**Yr hyn a wnaethom:**

Yn ystod 2017/18, daethpwyd o 75 o dai gwag yn ôl i ddefnydd yn sgil camau gweithredu uniongyrchol yr awdurdod lleol. O'r 75 eiddo, crëwyd 4 o anheddau ychwanegol dwy addasu annedd yn fflatiau er mwyn cynyddu nifer y tai sydd ar gael. Hefyd yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd 2 gynllun grant ar gyfer prynwyr tro cyntaf i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Mae'r graff isod yn rhoi darlun o'r ardaloedd ble daethpwyd â'r eiddo'n ôl i ddefnydd.




Fe wnaethom hefyd roi caniatâd cynllunio i 198 o unedau preswyl, 42 o'r rheiny yn dai fforddiadwy.

Cytunwyd y byddai'r gyllideb yn 2017/2018, am y tro cyntaf erioed, yn cynnwys Premiwm Treth Gyngor ar dai a oedd wedi bod yn wag ers amser maith ac ail gartrefi ar yr Ynys. Yng Nghymru mae

modd yn awr codi 100% o'r gyfradd dreth gyngor safonol ar y mathau hyn o gartrefi. Penderfynodd y Cyngor y byddai o 2018/19, yn codi Premiwm ychwanegol o 25% ar y Dreth Gyngor ar y cartrefi hynny sy'n cwrdd â'r meini prawf a chytunodd hefyd y byddai'r arian ychwanegol a gaiff yn sgil hyn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gynllun grant i brynwyr tro cyntaf i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.

Yn dilyn adolygiad yn 2017, mae'n bleser gennym ddweud bod y cyfan o Stoc Dai'r Cyngor – 3,807 eiddo – yn cydymffurfio'n llwyr â Safon Ansawdd Tai Cymru gyda hynny'n sicrhau bod ein tenantiaid yn byw mewn cartrefi o ansawdd da. Yn unol â Safon Ansawdd Tai Cymru, rhaid i bob landlord cymdeithasol well eu stoc tai i lefel dderbyniol erbyn Rhagfyr 2020.
Yn adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r gwasanaeth dan Safon Andawdd Tai Cymru, nodwyd, o bersbectif y defnyddiwr, bod y rhan fwyaf o'r tenantiaid y cawsant air â hwy, yn fodlon gydag ansawdd y gwasanaeth. Fodd bynnag, nodwyd hefyd bod rhai'n teimlo nad oeddynt yn cyfrannu cymaint at y broses o ddylunio'r gwasanaeth ag yr oeddynt yn y gorffennol ac nad yw'r Cyngor bob amser yn asesu effaith newidiadau i'r gwasanaeth. Bydd ein gwasanaeth Tai yn rhoi rhagor o sylw i'r canfyddiadau hyn ac yn gwneud gwelliannau yn ystod y flwyddyn nesaf.

Yn ystod 2017, cafodd Grant Tai Cymdeithasol ei neilltuo i'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gweithio ar Ynys Môn. Gyda'r grant hwn, bydd cyfanswm o 53 o unedau tai fforddiadwy mewn 5 o gynlluniau tai newydd sydd wrthi'n cael eu datblygu yn cael eu creu, a bydd 6 o dai fforddiadwy pellach yn cael eu prynu drwy'r cynllun cymorth i brynu cartref i brynwyr tro cyntaf drwy ddarpariaeth rhannu ecwiti. Yn ystod 2017/18, cwblhawyd 13 o'r rhain a bydd y gweddill yn cael eu cwblhau yn ystod 2018/19. Hefyd, cafodd 198 o unedau preswyl ganiatâd cynllunio yn ystod y flwyddyn ac mae 42 o'r rheiny yn dai fforddiadwy.

Mae'r gwaith o ddatblygu cyfleuster gofal ychwanegol Hafan Cefni yn Llangefni yn mynd rhagddo a disgwylir iddo agor ei ddrysau i'w drigolion newydd yr hydref hwn. Bydd y cyfleuster sy'n cael ei ariannu a'i redeg gan Grŵp Tai Pennaf yn cynnig cartref am oes i bobl sydd dros 60 oed sy'n dymuno byw'n annibynnol mewn cymuned ddiogel a chroesawgar lle mae gwasanaethau gofal a chymorth ar gael ar y safle. Mae 63 o fflatiau yn y cyfleuster ac mae'n cynnwys ystafelloedd aml-bwrpas, caffi a bwyty a fydd ar agor i'r cyhoedd, gardd ac ystafelloedd ar gyfer gwesteion y trigolion.

Er mwyn cynnig mwy o ddewis i'n trigolion, cafwyd caniatâd i adeiladu cyfleuster gofal ychwanegol yn ardal Seiriol, wedi ei ariannu drwy Gyfrif Refeniw Tai y Cyngor. Mae model cymorth cynhwysfawr a meini prawf cymhwysedd wedi cael eu cytuno er mwyn sicrhau bod y lefel iawn o ofal ar gael. Gwnaed y penderfyniad yn dilyn proses o ymgynghori gyda'r gymuned leol a thrafodaeth yn ddiweddar yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

Mae'r Cyngor yn ymrwymo i gefnogi ein staff a'n trigolion i gynyddu eu defnydd o'r Iaith Gymraeg a'r cyfleoedd sydd ar gael i wneud hynny. Fel rhan o'r cynllun gweithredu ar gyfer y Strategaeth Iaith Gymraeg[4], mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynllun treigl 6 mlynedd o ddarparu cymorth dwys i wasanaethau'r Cyngor i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn fewnol.

Rydym yn ymrwymo hefyd i'r Cynllun Strategol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer Ynys Môn 2017 – 2020, sy'n gynllun uchelgeisiol, ymarferol a chyraeddadwy sydd wedi cael ei greu i sicrhau '**Bod holl blant a phobl ifanc Môn yn hyfedr ddwyieithog ac yn meddu ar y gallu i ddefnyddio'r**

DRAFT

[4] http://www.anglesey.gov.uk/community/equality-and-language/language/

**ddwy iaith yn gyfartal ar ddiwedd eu gyrfa addysgol gan sicrhau nad oes yr un disgybl yn cael ei amddifadu o'r gallu na'r haeddiant hwnnw**.'

Mae'r Cynllun wedi cael ei ddyfeisio a'u ddatblygu'n ofalus mewn partneriaeth gyda'r holl gydranddeiliaid. Yn ychwanegol at y Strategaeth, mae cynllun bwriadus sy'n nodi'r camau gweithredu a'r hyn y bwriedir ei wneud bob blwyddyn.

Mae'n galondid nodi ein bod, yn ystod y flwyddyn newydd, ac yn unol ag amcanion y strategaeth, wedi sicrhau cynnydd yn nifer y disgyblion sydd wedi derbyn eu hasesiadau dysgu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf.

Yn ychwanegol at hyn, mae gan ysgolion Ynys Môn draddodiadau cryf o weithio gydag asiantaethau allanol fel yr Urdd, Ffermwyr Ifanc, Menter Iaith, cwmniau theatr ieuenctid lleol a chorau lleol, i annog y defnydd o'r Gymraeg ym mywydau plant ysgol.

Mae'r traddodiadau hyn yn cynnig i'n pobl ifanc gyfleoedd all-gwricwlaidd ffurfiol ac anffurfiol ac mae gweithgareddau hamdden yn ein pedair canolfan hamdden yn cynnig gwersi a sesiynau drwy gyfrwng y Gymraeg. Drwy weithio gyda nifer o asiantaethau a phobl yn ein cymunedau, rydym yn gobeithio y bydd modd nodi cyfleoedd pellach ar gyfer ein pobl ifanc a'u teuluoedd i gynyddu ymhellach eu defnydd o'r iaith Gymraeg.

Gyda nifer o sefydliadau allanol yn manteisio ar y cyfle i ddatblygu eu cwmnïau ar Ynys Môn, mae'r Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymraeg yn cael ei alw'n "Edefyn Euraidd" yn y prosiectau hyn, megis Prosiect Adeiladu Gorsaf Niwclear Wylfa newydd a hynny er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol nag unrhyw iaith arall.

Mae'r cynghorau wedi bod yn datblyg prosiectau posibl i hyrwyddo a datblygu iaith a diwylliant Cymru drwy Gynllun Arloesi Arfor, sy'n hyrwyddo entrepreneuriaeth, twf busnesau a gwydnwch cymunedol gyda phwyslais ar hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

Fel modd o ddatblygu anghenion datblygu a chamau gweithredu a fydd yn ffafrio'r iaith Gymraeg mewn cymunedau lleol, mae'r Cyngor a Menter Iaith Môn wedi cydweithio ar ddatblygu pecynnau croeso 'Croeso i Gymru' dan arweiniad Llywodraeth Cymru ac fe lansiwyd y rhain ym mis Ionawr 2018 ar gyfer unigolion a theuluoedd a oedd yn symud i'r ynys o'r tu allan i Gymru. Y nod yw sicrhau bod y bobl sy'n newydd i Ynys Môn â dealltwriaeth o'r iaith Gymraeg a'r rôl sydd ganddi ym mywydau trigolion yr ynys o ddydd i ddydd.

I edrych ar y pecyn neu i'w lawr lwytho, ewch i:
http://www.ynysmon.gov.uk/cymuned/cydraddoldeb-ac-iaith/iaith/croeso-i-gymru-croeso-ir-gymraeg/

Ym mis Awst 2017, cafodd Ynys Môn y pleser o groesawu yr Eisteddfod Genedlaethol a daeth miloedd o ymwelwyr o bob cwr o Gymru ac ymhellach draw i ymweld â'r Maes ym Modedern. Gweithiodd y Cyngor mewn partneriaeth gyda threfnwyr yr Eisteddfod Genedlaethol a thrigolion lleol i sicrhau digwyddiad llwyddiannus, er gwaethaf tywydd gwlyb, gan weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod cyfleusterau parcio diogel a darpariaeth parcio a theithio'n cael eu sefydlu ar Gae Sioe Môn. Daeth oddeutu 148,000 o ymwelwyr i'r Maes yn ystod wythnos yr Ŵyl.



DRAFT

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

**PAM/012: Canran y teuluoedd a fygythiwyd â digartrefedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref**

| 65.2% | Melyn |
|---|---|
| **Perfformiad Cenedlaethol** | **Tuedd** |
| Chwartel Canolrif Uchaf | n/a |

**PAM/013: Canran o eiddo sector preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd yn ystod y flwyddyn trwy camau uniongyrchol yr awdurdod lleol**

| 9.6% | Gwyrdd |
|---|---|
| **Perfformiad Cenedlaethol** | **Tuedd** |
| Chwartel Uchaf | n/a |

**PAM/014: Nifer yr anheddau ychwanegol a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag**

| 4 Annedd Newydd | Gwyrdd |
|---|---|
| **Perfformiad Cenedlaethol** | **Tuedd** |
| n/a | n/a |

**PAM/015: Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu'r holl Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)**

| 177 Diwrnod | Gwyrdd |
|---|---|
| **Perfformiad Cenedlaethol** | **Tuedd** |
| Chwartel Uchaf | ↑ 16/17 - 239 Days |

**PAM/018: Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn y cyfnodau gofynnol**

| 86.1% | Gwyrdd |
|---|---|
| **Perfformiad Cenedlaethol** | **Tuedd** |
| Chwartel Isaf | n/a |

**PAM/019: Canran yr apeliadau yn erbyn penderfyniadau cais cynllunio a wrthodwyd**

| 47.1% | Ambr |
|---|---|
| **Perfformiad Cenedlaethol** | **Tuedd** |
| Chwartel Isaf | n/a |

**% y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol**

| 89% | Melyn |
|---|---|
| **Perfformiad Cenedlaethol** | **Tuedd** |
| n/a | ↓ 16/17 - 90% |

**Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod)**

| 22.4 Days | Gwyrdd |
|---|---|
| **Perfformiad Cenedlaethol** | **Tuedd** |
| n/a | ↑ 16/17 - 28 Days |

**Cyfnod Sylfaen - % y plant a aseswyd yn y Gymraeg iaith gyntaf yn ystod y flwyddyn**

| 88.3% | Gwyrdd |
|---|---|
| **Perfformiad Cenedlaethol** | **Tuedd** |
| n/a | ↑ 16/17 - 72.6% |

**Cyfnod Allweddol 2 - % y plant a aseswyd yn y Gymraeg iaith gyntaf yn ystod y flwyddyn**

| 86.4% | Gwyrdd |
|---|---|
| **Perfformiad Cenedlaethol** | **Tuedd** |
| n/a | ↑ 16/17 - 70.9% |

**Cyfnod Allweddol 3 - % y plant a aseswyd yn y Gymraeg iaith gyntaf yn ystod y flwyddyn**

| 70% | Melyn |
|---|---|
| **Perfformiad Cenedlaethol** | **Tuedd** |
| n/a | ↑ 16/17 - 67.9% |

**Cyfnod Allweddol 4 - % y plant a aseswyd yn y Gymraeg iaith gyntaf yn ystod y flwyddyn**

| TBC | Melyn |
|---|---|
| **Perfformiad Cenedlaethol** | **Tuedd** |
| n/a | ↑ 16/17 - TBC |

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

Mae perfformiad yn ystod y flwyddyn o ran y dangosyddion dan yr amcan hwn wedi bod yn dda iawn ar y cyfan dros.

Un stori bositif yw'r 9.6% o dai gwag y llwyddwyd i ddod â nhw yn ôl i ddefnydd yn ystod y flwyddyn sy'n golygu ein bod ymhlith y gorau yng Nghymru am 2017/18. Mae 75 o dai a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis bellach yn cael eu defnyddio eto a hynny oherwydd gweithredu uniongyrchol y Gwasanaethau Tai.

Stori bositif arall yn yr Adran Dai yw'r gwelliannau a wnaed i'r broses o ymgeisio am Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG), PAM/015, sy'n golygu ei bod yn cymryd 177 o ddiwrnodau ar gyfartaledd yn awr i gael DFG, gwelliant sylweddol o gymharu â'r 230 o ddiwrnodau ar gyfartaledd a gofnodwyd yn ystod 2016/17 a 2015/16.

Mewn perthynas â'r dangosyddion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, mae'r Strategaeth Cymraeg mewn Addysg a fabwysiadwyd yn ddiweddar eisoes wedi cael effaith gyda'r cyfan o'r cyfnodau addysg (cyfnod allweddol 4 i'w gadarnhau ym mis Hydref) yn dangos cynnydd o ran y defnydd o'r iaith Gymraeg mewn ysgolion.

Cafwyd ymgyrch egnïol yn yr Ysgolion Cynradd yn ystod y flwyddyn a chafodd 88% o'r plant yn y Cyfnod Sylfaen eu hasesu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf, cynnydd sylweddol o gymharu â'r 72.6%yn y flwyddyn flaenorol. Mae Cyfnod Allweddol 2 yn dangos cynnydd tebyg, o 70.9% yn 2016/17 i 86.4% yn 2017/18. Bydd y Gwasanaeth Dysgu yn awr yn gwneud gwaith tebyg yn yr Ysgolion Uwchradd yn 2018/19.

Nid yw perfformiad mewn perthynas â'n dangosyddion Cynllunio, PAM/018 a PAM/019, wedi perfformio cystal â'r disgwyl yn ystod y flwyddyn. Mae'r ddau ddangosydd yn y Chwartel Is. Cânt eu monitro yn y Cerdyn Sgorio yn chwarterol er mwyn gwella perfformiad ar gyfer 2018/19.

<u>Beth nesaf yn 2018/19</u>

Ar gyfer 2018/19, mae Amcan 4 wedi cael ei gynnwys yng nghynllun newydd y Cyngor dan ddau o'n hamcanion newydd:

- Amcan 1 – Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir;
- Amcan 3 – Gweithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau y gallant ymdopi'n effeithiol gyda newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol.

Dilynwch y ddolen hon gael golwg ar Gynllun y Cyngor ar gyfer 2017 – 2022.

DRAFT

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

## Dangosyddion Perfformiad

Bydd yr adran hon yn edrych ar Dangosyddion Perfformiad Lleol sydd wedi cael eu tracio yn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol drwy'r flwyddyn neu ddangosyddion cenedlaethol nad ydynt yn ffitio i mewn i'r amcanion a nodwyd gennym ar gyfer y flwyddyn ac sydd eisoes wedi eu trafod uchod.

Roedd y Cerdyn Sgorio Corfforaethol terfynol ar gyfer 2017/18 yn edrych ar y data diwedd blwyddyn ac yn amlinellu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol ar gyfer y flwyddyn. Mae'n dangos hefyd bod yr agenda o welliant parhaus y mae'r Cyngor yn anelu ati yn parhau i gael ei chyflawni gyda'r mwyafrif o'r dangosyddion a gawsant eu monitro yn perfformio'n dda yn erbyn targedau.

Yn y rhan o'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol sy'n rhoi sylw i Reoli Perfformiad, roedd perfformiad mewn perthynas â 58% o'r dangosyddion yn uwch na'u targedau ar gyfer y flwyddyn, roedd 15% o fewn y goddefgarwch a ganiateir o ran y targed ac roedd perfformiad y 27% arall yn is na'r targed.

O ran cyfraddau salwch, rydym yn parhau i fod yn y Chwartel Canolrifol Uwch yn genedlaethol ar gyfer y dangosydd hwn. Oherwydd y cyfraddau salwch uwch na'r arfer yn ystod Chwarter 4, ni fy modd cwrdd â'r Targed Corfforaethol o 9.75 o Ddiwrnodau o Salwch fesul pob gweithiwr Amser Llawn Cyfatebol. Roedd ein perfformiad yn Chwarteri 1, 2 & 3 o 2017/18 yn uwch na'r targed a'r gorau yr oeddem wedi ei weld yn ystod y 3 blynedd diwethaf, ond cafodd y cyfraddau yn Ch4 (Ionawr i Ebrill) effaith ar ein perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn.

Un dangosydd lle gwelwyd tan-berfformiad yn erbyn y targed drwy gydol 2017/18 oedd un o'r dangosyddion lleol, SCC/025, sef canran yr ymweliadau statudol i blant sy'n derbyn gofal. Cafodd perfformiad ar gyfer y flwyddyn ei effeithio gan y perfformiad yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, cyn ailstrwythuro'r Gwasanaeth. Rydym ar hyn o bryd wrthi'n gwella'r modd y mae'r gwasanaeth yn defnyddio'r data-bas cenedlaethol newydd, WCCIS, a gyflwynwyd yn ystod 2017/18, er mwyn cefnogi staff i sicrhau gwelliant mewn perfformiad yn ystod 2018/19.

Rydym yn parhau i weithio i sicrhau y gall pobl hŷn aros yn annibynnol yn hirach ac mae'n galonogol felly ein bod wedi cefnogi llai o bobl hŷn yn ein cartrefi gofal yn ystod y flwyddyn. Bydd agor y Cyfleuster Gofal Ychwanegol newydd yn Llangefni yn ystod hydref 2018 yn cefnogi ymhellach ein hamcan o alluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn hirach. Mae'n ganologol nodi hefyd y gwelwyd cynnydd blwyddyn ar ôl blwyddyn o ran y nifer o bobl sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad (SCA/018b).

Mae dangosyddion y gwasanaeth llyfrgell yn parhau i berfformio'n dda gyda 286,000 o ymweliadau i lyfrgelloedd a gwasanaethau llyfrgell ar-lein. Cafodd cyfanswm o 259,000 o lyfrau a deunydd llyfrgell eu benthyca gan drigolion Ynys Môn yn 2017/18.

Yn ystod 2017/18, rydym wedi bod yn gweithio'n galed i ddarparu mwy o wasanaethau digidol i'n trigolion. Mae nifer y trigolion sy'n defnyddio ein 'app' ffôn symudol, AppMôn a'r wefan i roi gwybod i ni am broblemau ac i ofyn am wasanaethau wedi cynyddu ac fe gyflwynwyd 2,000 o adroddiadau yn ystod 2017/18, sydd ddwywaith cymaint â'r nifer a gafwyd yn 16/17. Yn ogystal, mae mwy o'n trigolion wedi talu am wasanaethau drwy ddefnyddio'r gwasanaethau talu sydd ar gael ar ein gwefan ac ar y ffôn yn ystod y flwyddyn.

Mewn perthynas â Rheoli Cwynion gan Gwsmeriaid, derbyniwyd 71 o gwynion drwy'r weithdrefn gwynion gorfforaethol, yr un nifer â 2016/17. Ymatebwyd i'r cyfan o'r cwynion ac o'r rhain, cadarnhawyd 25% ohonynt yn llawn, cadarnhawyd 7% yn rhannol ac ni chadarnhawyd y 68% arall.



DRAFT

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol weithdrefn gwynion wahanol i'r gwasanaethau eraill yn y Cyngor. Mae dau gam i'r weithdrefn hon, Cam 1 lle mae swyddog sy'n gweithio i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn datrys y gŵyn a Cham 2 llae mae ymchwilydd annibynnol yn cynnal ymchiwliad annibynnol i'r gŵyn. Derbyniwyd 9 o gwynion Cam 2 yn ystod y flwyddyn o gymharu â5 yn 2016/17. Cafodd 56% o'r Cwynion Cam 2 naill ai eu cytuno'n llawn neu eu cytuno'n rhannol. Derbyniwyd 51 o gwynion Cam 1 yn ystod y flwyddyn ac fe ymatebwyd i 49% ohonynt o fewn y cyfnod amser gofynnol. Roedd hwn yn un maes o'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol a oedd yn peri pryder drwy'r flwyddyn a bydd y weithdrefn gyfredol yn cael ei hadolygu yn 2018/19.

Gwelir isod y dangosyddion perfformiad a gawsant eu monitro:

**PAM/001: Nifer y diwrnodau/sifftiau gwaith wedi colli fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn (CALI) oherwydd absenoldeb salwch yn ystod y flwyddyn**

Melyn
9.96 Diwrnod

| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
|---|---|
| Chwartel Canolrif Uchaf | ↓ 16/17 - 9.8 Days per FTE |

**PAM/023: Canran y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd**

Gwyrdd
98.2%

| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
|---|---|
| Chwartel Uchaf | ↓ 16/17 - 98.4% |

**PAM/024: Canran yr oedolion sy'n fodlon ar y gofal a'r cymorth a gawsant**

92%

| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
|---|---|
| TBC | n/a |

**PAM/025: Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd**

Coch
6.58

| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
|---|---|
| TBC | ↓ 16/17 - 6.05% |

**PAM/026: Canran y gofalwyr sy'n nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i barhau â'u rôl ofalu**

90%

| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
|---|---|
| TBC | n/a |

**SCA/002b: Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth**

Gwyrdd
17.44

| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
|---|---|
| n/a | ↑ 16/17 - 20.51 |

**SCA/18b: Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn**

Gwyrdd
96%

| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
|---|---|
| n/a | ↑ 16/17 - 94.4% |

**SCC/025: Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau**

Coch
63.3%

| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
|---|---|
| n/a | ↓ 16/17 - 79.35% |

**LCL/004: Nifer y deunyddiau llyfrgell a roddwyd allan yn ystod y flwyddyn**

Gwyrdd
259k

| Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
|---|---|
| n/a | ↓ 16/17 - 272k |

| Dangosydd | Canlyniad | Statws | Perfformiad Cenedlaethol | Tuedd |
|---|---|---|---|---|
| Cynhyrchiant y gweithlu – % yr amser sy'n cael ei gategoreiddio fel amser cynhyrchiol | 79% | Melyn | n/a | ↓ 16/17 - 80% |
| Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn / Wefan | 2k | Gwyrdd | n/a | ↑ 16/17 - 1k |
| Nifer o daliadau dros y we a ffôn | 16k | Gwyrdd | n/a | ↑ 16/17 - 10k |
| Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | 71 | Gwyrdd | n/a | → 16/17 - 71 |
| Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | 9 | | n/a | ↓ 16/17 - 5 |
| Canran o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | 92% | Gwyrdd | n/a | ↓ 16/17 - 93% |
| Canran o ymatebion ysgrifenedig o fewn 15 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | 49% | Coch | n/a | n/a |

DRAFT

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

## Perfformiad Ariannol 2017/18

**Cyllideb Refeniw**

Cyn cychwyn pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r Cyngor osod cyllideb ar gyfer ei wariant o ddydd i ddydd. Gelwir y gyllideb hon yn Gyllideb Refeniw a dyma'r swm o arian y mae'r Cyngor ei angen i ddarparu ei wasanaethau yn ystod y flwyddyn gan gymryd i ystyriaeth y grantiau y mae'n eu derbyn gan y Llywodraeth. Yn ystod 2017/18, roedd cyllideb refeniw'r Cyngor yn £126.2 miliwn (£124.037m yn 2016/17).

Mae'r Cyngor yn rheoli ei gyllideb ac yn mesur ei berfformiad ariannol drwy gyfrif rheoli sy'n golygu y gallwn dracio gwariant yn erbyn y gweithgareddau a gynlluniwyd dros y flwyddyn.

Yn 2017/18, gwariwyd £127.93 miliwn o'r Cyfrif Refeniw, gorwariant o £1.78 miliwn yn erbyn y gwariant o £126.2 miliwn a gynlluniwyd. Yn ystod yr un cyfnod, fe wnaeth y Cyngor, drwy drawsnewid gwasanaethau a chyflwyno ffyrdd gwell o weithio, gynyrchu gwerth £1.704 miliwn o arbedion. Gyda'r arbedion hyn, aeth cronfa wrth gefn y Cyngor i lawr gan £1.78 miliwn.

Mae'r tabl isod yn adlewyrchu'r gyllideb derfynol ar gyfer 2017/18 ac incwm a gwariant yn ei herbyn:

| Gwasanaethau | Cyllideb Blynyddol £'000 | Alldro £'000 | Amrywiant £'000 |
|---|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | 48,237 | 49,013 | 776 |
| Gwasanaethau Oedolion | 22,541 | 22,687 | 146 |
| Gwasanaethau Plant | 8,293 | 10,075 | 1,782 |
| Tai | 1,034 | 1,087 | 53 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 14,099 | 13,932 | (167) |
| Rheoleiddio | 4,275 | 4,329 | 54 |
| Trawsnewid | 3,932 | 3,745 | (187) |
| Adnoddau | 2,933 | 3,096 | 163 |
| Busnes y Cyngor a Cyllid Corfforaethol | 20,813 | 19,969 | (844) |
| **Cyfanswm Cronfa'r Cyngor** | **126.157** | **127,933** | **1,776** |

**Gwariant Cyfalaf**

Mae'r rhaglen gyfalaf yn cefnogi amcan ehangach y Cyngor i ddarparu gwasanaethau a chefnogi twf economaidd. Fel arfer mae gwariant cyfalaf yn wariant o fath "unwaith ac am byth" ac mae'n golygu adeiladu neu wella ein hasedau megis eiddo.

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

Yn 2017/18, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf gwerth £30.614 miliwn ar gyfer gwasanaethau nad oeddynt yn ymwneud â Thai a Rhaglen Gyfalaf o £9.889m ar gyfer y CRT (Cyfrif Refeniw Tai).
Yn ychwanegol at hyn, dygwyd gwerth £6.435m o ymrwymiadau cyfalaf drosodd o 2016/17 ac roedd £1.758 miliwn o'r swm hwnnw'n ymwneud â rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif, £2.984 miliwn â'r CRT a £1.693 miliwn â'r Gronfa Gyffredinol.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, ychwanegwyd gwerth £5.734 miliwn o Gynlluniau i'r rhaglen. Cafodd y rhan fwyaf o'r rhan eu cyllido drwy Grantiau Cyfalaf er roedd £2.566m o'r swm yn ymwneud â Thâl Cyfartal lle cafodd y Cyngor ganiatâd gan Lywodraeth Cymru i'w gyllido drwy wariant cyfalaf. Daw hyn â'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2017/18 i £52.672 miliwn.

Llwyddwyd i gyflawni 55.73% o'r rhaglen a disgwylir y bydd y cynlluniau sy'n weddill yn cael eu cyflawni yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Arweiniodd hyn at wariant o £29.355 miliwn, ac fe ychwanegwyd £16.282 miliwn at werth ein hasedau. Mae'r gweddill naill ai'n cefnogi asedau nad ydynt ym mherchenogaeth uniongyrchol y Cyngor (£3.724 miliwn) neu'n rhai nad ydynt yn ychwanegu at werth ein hasedau cyfalaf (£9.349 miliwn).

DRAFFT

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

## Casgliad

Mae'n bleser gan Gyngor Sir Ynys Môn gyflwyno ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol am 2017/18 i'n cymuned. Mae'r Cyngor yn parhau i ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd ar draws yr ynys ac i wneud ein gorau glas i gynnal neu wella ein perfformiad er mwyn sicrhau bod ein trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd yn derbyn y gwasanaethau gorau posib.

Yn gyffredinol, cymysg fu ein perfformiad yn 2017/18, ond mewn cyfnod lle roedd y Cyngor yn wynebu gorfod gwneud toriadau gwerth £2.5 miliwn yn y gyllideb, mae'n galondid nodi ein bod yn parhau i wella ein gwasanaethau yn gyffredinol fel yr amlinellwyd uchod a'n bod wedi llwyddo i wneud gwaith pwysig yn ystod y flwyddyn.

Fodd bynnag, mae datblygu Cynllun y Cyngor ar gyfer 2017-2022 wedi dangos bod mwy o waith i'w wneud a bod angen canolbwyntio yn arbennig ar ein rhaglenni gwaith ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gan edrych ymlaen i 2018/19, rydym yn bwriadu edrych ar ffyrdd o gryfhau ein gwasanaethau ataliol a llesiant ar gyfer plant, pobl ifanc a phobl fregus yn ein cymdeithas a pharhau â'n gwaith o hyrwyddo Teulu Môn i gynnig mwy o gymorth.

Byddwn hefyd yn datblygu ymhellach ein hopsiynau tai drwy ein cyfleusterau Gofal Ychwanegol, drwy gynyddu nifer ein hybiau cymunedol i feithrin rhwydweithiau yn y gymuned ac i barhau i gyflawni yn erbyn ein rhaglen Moderneiddio Ysgolion.

Bydd gwaith hefyd yn mynd rhagddo i gefnogi ein hamgylchedd naturiol drwy fuddsoddi mewn prosiectau effeithlonrwydd ynni, cydlynu'r rhaglen Ynys Ynni tra'n dylanwadu ar brosesau Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) a chynlluniau Pŵer Niwclear Horizon a National Grid.

Bydd datblygiadau'n digwydd i wella ymhellach ein cyfleusterau hamdden drwy greu maes 3D a buddsoddi yn ein hoffer ffitrwydd.

Byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd tra'n parhau â'n bwriad i sicrhau bod dros 70% o'n holl wastraff domestig yn cael ei ailgylchu.

Er bod ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn uchelgeisiol, rydym yn credu y gallwn, gyda chefnogaeth ein staff, ein trigolion a'n partneriaid, gyflawni ein hamcanion a mynd ati i ddechrau creu Ynys Môn sy'n fodern, yn iach, yn ffyniannus ac yn llewyrchus ar ein cyfer ni ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Am fwy o wybodaeth, gweler ein Dogfen Gyflawni Flynyddol yn http://www.anglesey.gov.uk/ADD

DRAFT

## Gwybodaeth Bellach

I gael mwy o wybodaeth am unrhyw beth yn y ddogfen hon neu i wneud unrhyw sylwadau, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:

Adnoddau Dynol a Trawsnewid
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni, Ynys Môn
LL77 7TW
Ffôn - 01248 752111
E-bost:–
CarysEdwards@ynysmon.gov.uk
GethinMorgan@ynysmon.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael ar dâp, mewn braille ac ar y wefan y Cyngor:
www.ynysmon.gov.uk/cynllunycyngor

Gallwch gael mwy o wybodaeth hefyd fel a ganlyn:
Gellir gweld polisïau, cynlluniau a strategaethau a gyhoeddir gan y Cyngor yn: www.ynysmon.gov.uk

Mae Cynllun y Cyngor ar gael drwy ymweld a Gwefan y Cyngor: www.anglesey.gov.uk

Mae Adroddiadau Archwilio ac Arolygu a gynhyrchwyd gan Reoleiddwyr y Cyngor ar gael ar eu gwefannau unigol fel a ganlyn:

- Swyddfa Archwilio Cymru: www.wao.gov.uk
- Arolygaeth Gofal Cymru : https://arolygiaethgofal.cymru
- Estyn: www.estyn.gov.uk

Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, neu i gael dogfen nad yw wedi ei rhestru uchod, cysylltwch â'r Cyngor os gwelwch yn dda trwy'r manylion

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

## Atodiadau

Atodiad 1

| Disgrifiad | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | Tuedd 17/18 | Chwartel Canolrif Isaf7/Canolrif Isaf8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PAM/001: Nifer y diwrnodau/sifftiau gwaith wedi colli fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn (CALl) oherwydd absenoldeb salwch yn ystod y flwyddyn | Adnoddau Dynol | < | 11.99 | 9.80 | 10.0 | ↓ | Canolrif Uchaf |
| PAM/006: Canran y disgyblion Blwyddyn 11 a gyflawnodd y trothwy Lefel 2, gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol | Dysgu | > | - | - | 50.20 | N/A | Canolrif Isaf |
| PAM/007 - Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd | Dysgu | > | 94.72 | 95.10 | 94.8 | ↓ | Canolrif Isaf |
| PAM/008 - Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | Dysgu | > | 93.53 | 94.40 | 94.6 | ↑ | Uchaf |
| PAM/009: Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET) | Dysgu | < | 2.20 | 2.3 | 4.3 | ↓ | Isaf |
| PAM/010: Canran y priffyrdd a adolygwyd sydd o safon glendid uchel neu dderbyniol | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | > | 95.08 | 93.40 | 93.6 | ↑ | Canolrif Isaf |
| PAM/011: Canran y digwyddiadau tipio anghyfreithlon a adroddwyd a gliriwyd o fewn 5 niwrnod ar ôl i'r digwyddiad gael ei adrodd | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | > | 98.49 | 97.31 | 98.29 | ↑ | Canolrif Uchaf |

DRAFT

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

| Disgrifiad | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | Tuedd 17/18 | Chwartel Canolrif Isaf7/Canolrif Isaf8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PAM/012: Canran y teuluoedd a fygythiwyd â digartrefedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Tai | > | - | - | 65.2 | N/A | Canolrif Uchaf |
| PAM/013: Canran o eiddo sector preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd yn ystod y flwyddyn trwy camau uniongyrchol yr awdurdod lleol | Tai | > | - | - | 9.6 | N/A | Uchaf |
| PAM/014: Nifer yr anheddau ychwanegol a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | Tai | > | - | - | 4.0 | N/A | n/a |
| PAM/015: Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu'r holl Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) | Tai | < | 238.91 | 238.80 | 177.0 | ↑ | Uchaf |
| PAM/016: Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth | Dysgu | > | 4,053.09 | 5858.00 | 5,901.0 | ↑ | Uchaf |
| PAM/017: Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol fesul 1,000 y boblogaeth | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | > | 7,456.51 | 7520.00 | 8,470.0 | ↑ | Canolrif Isaf |
| PAM/018: Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn y cyfnodau gofynnol | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | > | - | - | 86.1 | N/A | Isaf |
| PAM/019: Canran yr apeliadau yn erbyn penderfyniadau cais cynllunio a wrthodwyd | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | > | - | - | 47.1 | N/A | Isaf |

DRAFT

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

| Disgrifiad | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | Tuedd 17/18 | Chwartel Canolrif Isaf7/Canolrif Isaf8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PAM/020: Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | < | 2.73 | 2.3 | 2.9 | ↓ | Canolrif Uchaf |
| PAM/021: Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | < | 3.81 | 3.2 | 4.2 | ↓ | Canolrif Uchaf |
| PAM/022: Canran y ffyrdd C mewn cyflwr gwael cyffredinol | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | < | 13.35 | 10.1 | 8.9 | ↑ | Canolrif Isaf |
| PAM/023: Canran y sefydliadau bwyd sy’n ‘cydymffurfio’n fras’ â safonau hylendid bwyd | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | > | 98.67 | 98.40 | 98.2 | ↓ | Uchaf |
| PAM/024: Canran yr oedolion sy'n fodlon ar y gofal a'r cymorth a gawsant | Gwasanaethau Oedolion | > | - | - | - | N/A | n/a |
| PAM/025: Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd | Gwasanaethau Oedolion | < | - | - | - | N/A | n/a |
| PAM/026: Canran y gofalwyr sy'n nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i barhau â'u rôl ofalu | Gwasanaethau Oedolion | > | - | - | - | N/A | n/a |
| PAM/027: Canran y plant sy'n fodlon ar y gofal a'r cymorth a gawsant | Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | > | - | - | - | N/A | n/a |
| PAM/028: Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn terfynau statudol | Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | > | - | 89.17 | 67.6 | ↓ | |

DRAFT

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

| Disgrifiad | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | Tuedd 17/18 | Chwartel Canolrif Isaf7/Canolrif Isaf8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PAM/029: Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a oedd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn | Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | < | - | 6.34 | 9.0 | ↓ | |
| PAM/030: Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi eu gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | > | 59.50 | 65.79 | 72.2 | ↑ | |
| PAM/031: Canran y gwastraff a anfonir i safle tirlenwi | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | < | 16.87 | 6.60 | 0.5 | ↑ | |

DRAFT